Adran Diwylliant,
Cyfryngau
a Chwaraeon

# Ymgynghoriad Cyhoeddus Adolygiad o Siarter y BBC

#yourBBC

16 Gorffennaf – 8 Hydref 2015

**Ymgynghoriad Cyhoeddus Adolygiad o Siarter y BBC**

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol
dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon drwy Orchymyn ei Mawrhydi

Gorffennaf 2015

CM9116

**© Hawlfraint y Goron 2015**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, trowch nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os gwelsoch wybodaeth sydd dan hawlfraint trydydd parti bydd angen ichi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn enquiries@culture.gov.uk

ISBN argraffu 9781474123334

ISBN gwe 9781474123341

ID 06071508 07/15

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys lleiafswm o 75% o gynnwys ffibr wedi ei ailgylchu
Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Williams Lea Group ar ran Rheolydd Llyfrfa ei Mawrhydi

**Cynnwys**

Rhagair 2

Crynodeb gweithredol 6

Proses yr Adolygiad o’r Siarter 16

Cwestiynau

1: Pam y BBC? Cenhadaeth, diben a gwerthoedd 24

2: Beth mae’r BBC yn ei wneud. Maint a chwmpas 92

3. Cyllid y BBC 128

4. Llywodraethu’r BBC

Rhestr termau 158

Ôl-nodion 162

Rhagair

**John Whittingdale**

Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant,
y Cyfryngau a Chwaraeon

Mae’r BBC wrth galon Prydain. Mae’n un o’r sefydliadau a drysorir fwyaf gan y genedl hon - mae’n chwarae rhan ym mywydau bron iawn bob un ohonom. Bydd y Siarter Frenhinol bresennol, sail gyfansoddiadol y BBC, yn dod i ben ar ddiwedd 2016. Mae’r papur hwn yn lansio proses ymgynghori’r Llywodraeth a fydd yn llywio ein penderfyniadau ynghylch dyfodol y BBC.

Y llynedd, fel Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, gwrandawais ar dystiolaeth gan amrywiaeth o arbenigwyr ar y BBC ynghylch yr heriau mae wedi’u hwynebu a’r materion i’r dyfodol. Mae hyn wedi fy nghynorthwyo i sefydlu beth mae angen i’r Adolygiad hwn o’r Siarter ei ystyried. Fel Ysgrifennydd Gwladol, rwy’n dymuno gwrando ar bobl o bob cwr o’r Deyrnas Unedig, fel gallaf ddeall beth mae ar y wlad hon ei eisiau a’i angen gan ac ar gyfer y BBC.

Ddeng mlynedd yn ôl, y tro diwethaf y cynhaliodd y Llywodraeth adolygiad o’r siarter, roedd tirwedd y cyfryngau yn edrych yn wahanol iawn. Roedd miliynau o gartrefi yn dal i gael dewis o bum sianel teledu yn unig. Nid oedd Facebook wedi cyrraedd y Deyrnas Unedig, roedd YouTube wrthi’n cael ei lansio, ac nid oedd yr iPhone yn bodoli. Pan ddaeth y Siarter Frenhinol i rym yn Ionawr 2007, ni fyddai neb wedi gallu rhagweld sut byddai’r technolegau oedd newydd ymddangos bryd hynny yn llunio ein dulliau o ddefnyddio’r cyfryngau a byw ein bywyd yn y pen draw, nac i ba raddau y byddai rhai pethau yn aros yr un fath.

Mae’r ffrwydrad yn y defnydd o’r rhyngrwyd a dyfeisiau symudol yn golygu fod pobl

| | |
|---|---|
| bellach yn treulio mwy o amser yn defnyddio cyfryngau ac yn cyfathrebu nag yn cysgu,[1] a byddant yn defnyddio cyfrifiaduron llechen symudol a ffonau clyfar i ffrydio cynnwys fideo a sain byw ac 'ar gais' trwy bwyso botwm. Ond nid yw hynny wedi golygu 'marwolaeth' teledu na radio - yn lle hynny, rydym wedi gweld amrywiaeth y dewisiadau yn cynyddu - ac mae'r gwasanaethau newydd yn ategu yn hytrach na disodli'r hen rai. Nid yw'r ffaith fod llawer o bobl yn defnyddio'r rhyngrwyd i gyrchu fideo ar gais, ffrydio cerddoriaeth a chanfod y newyddion diweddaraf yn newid y ffaith fod y rhan fwyaf o bobl yn dal i ddymuno gwylio rhaglenni teledu pan fyddant yn cael eu darlledu, y dal i ddibynnu ar y radio ac yn dal i ddymuno darllen papurau newydd.<br><br>Mae'r BBC wedi addasu yn unol â'r dirwedd heriol hon. Gofynnwyd iddi arwain y symudiad at deledu digidol, ac mae wedi arloesi â gwasanaethau newydd megis yr iPlayer, a gafodd 3.5 miliwn o geisiadau am raglenni yn 2014[2]. Mae wedi gwneud hyn ac wedi parhau i ddarparu rhaglenni a gwasanaethau rydym wedi dod i ddibynnu arnynt i'n hysbysu, ein haddysgu a'n diddanu. Rydym yn dymuno gweld y BBC yn parhau i addasu a ffynnu, | a chwarae ei rhan o fewn tirwedd ehangach Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a'r cyfryngau.<br><br>Mae'r BBC yn dal yn annwyl iawn gan gynulleidfaoedd, yn beiriant twf gwerthfawr ac yn feincnod rhyngwladol o ran teledu, radio, gwasanaethau ar-lein a newyddiaduraeth. Mae wedi dangos hyn dro ar ôl tro yn ystod cyfnod y Siarter diwethaf: sylw i ddigwyddiadau sy'n dod â phob un ohonom ynghyd megis y Gemau Olympaidd; rhaglenni teledu sy'n diddanu miliynau fel *Miranda, Sherlock* a *Bake Off* neu sy'n addysgu ac yn hysbysu fel rhaglenni dogfen o'r radd flaenaf y BBC ynghylch natur a hanes; gwasanaeth radio arobryn, sy'n denu hanner oedolion y Deyrnas Unedig i wrando ar orsafoedd cerddoriaeth y BBC bob wythnos[3]; gwefan fwyaf poblogaidd y Deyrnas Unedig; a gwasanaeth newyddion dibynadwy a ddefnyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac mae'r World Service yn cyrraedd cynulleidfa fyd-eang o 210 miliwn ac yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y modd y canfyddir y Deyrnas Unedig yn rhyngwladol[4]. Mae wedi gwneud hyn ac wedi targedu arbedion blynyddol gwerth £700 miliwn ar yr un pryd trwy *Delivering Quality First*[5]. |

**Rhagair**

Ond mae angen i ni hefyd holi nifer o gwestiynau anodd yn yr Adolygiad o'r Siarter fel gallwn sicrhau llwyddiant y BBC, ac yn wir, darlledu yn y Deyrnas Unedig, yn y dyfodol. Beth ddylai'r BBC geisio'i gyflawni mewn oes pan mae'r dewis i ddefnyddwyr yn llawer iawn helaethach nag erioed o'r blaen? Beth ddylai ei faint a'i gwmpas fod yng ngoleuni'r nodau hynny ac i ba raddau mae'n effeithio ar eraill ym meysydd teledu, radio ac ar-lein? A beth yw'r strwythurau llywodraethu a rheoleiddio priodol? Wedi'r cwbl, y cyhoedd sy'n talu am y BBC. Felly mae'n briodol i'r cyhoedd gael cyfle i ddweud pa mor dda y mae wedi gwario'r £30 biliwn a rhagor o arian y bydd wedi'i gael dros gyfnod y Siarter hon, a sut ddylid talu amdani a'i llywodraethu yn y dyfodol.

Mae'n bwysig cydnabod fod amrywiaeth o heriau wedi codi yn ystod cyfnod y Siarter presennol lle methodd y BBC gyflawni'r safonau uchel y dylem ei ddisgwyl ganddi. Fe wnaeth y datguddiadau ynghylch Jimmy Saville a rhai o gyn-enwogion eraill y BBC amlygu ymddygiad gwarthus na chafodd ei herio. Er bod y rhain yn ymwneud yn bennaf â digwyddiadau hanesyddol, bu methiannau golygyddol mewn perthynas â'r datguddiadau hyn ac mewn meysydd eraill. Mae'r BBC hefyd wedi cael ei beirniadu yn ystod y cyfnod hwn am ei rheolaeth ariannol a'i thryloywder. Mae taliadau diswyddo i uwch weithredwyr a'r twf yn nifer yr uwch reolwyr a maint eu cyflogau wedi denu beirniadaeth y mae'r BBC wedi cychwyn ymateb iddi ond yn ddiweddar. Ni lwyddodd y Fenter Cyfryngau Digidol (prosiect technoleg sylweddol) i gyflawni ei hamcanion, na darparu unrhyw gynnyrch yn y pen draw, er ei bod wedi costio £100 miliwn dalwyr ffi'r drwydded[6]. Mae systemau llywodraethu wedi bod yn anrhyloyw a beichus. Rhaid dysgu gwersi ym mhob un o'r meysydd hyn i sicrhau fod y BBC yn mynd i'r afael â heriau'r dyfodol. Erys cwestiynau hefyd ynghylch hynodrwydd y rhaglenni a ddarperir gan y BBC, a pha un ai a yw'n defnyddio ei dibenion eang i weithredu mewn modd sy'n rhy fasnachol, gan ganolbwyntio ar ffigyrau gwylio yn hytrach na darparu rhaglenni nodedig o ansawdd uchel na fyddai darparwyr eraill yn eu darparu.

Mae'r modd yr ariannir y BBC hefyd yn destun y ceir trafodaeth frwd yn ei gylch, yn enwedig

pan mae gwasgfa ar gyllidebau yn ein cartrefi ac yn y pwrs cyhoeddus. Ar 6 Gorffennaf, cyhoeddais fod y Llywodraeth wedi cytuno gyda'r BBC na fydd yn cael cyllid gan y trethdalwr i ariannu trwyddedau teledu am ddim i bobl sydd dros 75 mlwydd oed erbyn 2020. Mae angen i ni hefyd foderneiddio ffi'r drwydded i gwmpasu teledu dal i fyny darlledu gwasanaeth cyhoeddus a byddwn yn lleihau'r cyfraniad a wneir gan y BBC at ariannu cyflwyno band eang. Ond er bod y Llywodraeth yn rhagweld y bydd ffi'r drwydded yn codi yn unol â chwyddiant, fe wnes i hefyd ddatgan yn glir y bydd angen gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch lefel y drwydded yn ystod cyfnod y Siarter nesaf yng nghyd-destun casgliadau'r Adolygiad o'r Siarter mewn perthynas â dibenion a chwmpas y BBC, a'r BBC yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn union fel cyrff eraill y sector cyhoeddus. Ac wrth gwrs, mae cwestiynau ynghylch beth ddylai system ariannu gyffredinol y BBC fod yn y tymor canol a'r tymor hir y mae angen i ni fynd i'r afael â hwy yn yr Adolygiad hwn o'r Siarter.

Mae heriau eraill yn wynebu'r BBC o ran diwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd. Nid yw ein gofynion yn newid o ran y modd rydym yn defnyddio technoleg yn unig, mae angen i ni sicrhau fod y BBC yn cynrychioli'r cymunedau amrywiol ar draws y Deyrnas Unedig, gan gofio sefyllfa gyfnewidiol Prydain. Mae'r BBC wedi ymateb i'r angen i gynhyrchu rhagor yn ein gwledydd a'n rhanbarthau, ond mae rhai yn awgrymu ei bod yn canolbwyntio gormod ar Lundain. Ac er bod y BBC wedi cymryd camau positif o ran amrywiaeth a chynrychiolaeth, dylem barhau i holi beth arall all ei wneud.

Credaf y gall y BBC barhau i ffynnu. Ond i wneud hynny, bydd rhaid iddi ddatblygu. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r materion a rhai o'r dewisiadau o ran sut allai hynny ddigwydd, gan gychwyn y broses ddemocrataidd o ymgynghori â'r wlad. Hoffwn weld hyn yn sbarduno trafodaeth a dadl yn ystod y misoedd sy'n dod wrth i ni fapio dyfodol y BBC.

**John Whittingdale**
Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant,
y Cyfryngau a Chwaraeon

# Crynodeb gweithredol

Y Siarter Frenhinol yw sail gyfansoddiadol y BBC. Bydd yn dirwyn i ben ar ddiwedd 2016. Felly, mae'r papur ymgynghorol hwn yn ceisio annog y Deyrnas Unedig i drafod dyfodol y BBC.

"

Mae'r BBC wedi newid yn sylweddol yn ystod y can mlynedd bron iawn ers iddi gael ei sefydlu. Felly hefyd y byd y mae'n gweithredu ynddo.

Y BBC yw un o sefydliadau mawr Prydain. Ond er mwyn parhau i ffynnu, bydd rhaid iddi barhau i ddatblygu. Bydd yr Adolygiad o'r Siarter yn archwilio pedwar maes lle gallai newid ddigwydd:

- Cenhadaeth, Diben a Gwerthoedd – beth yw diben y BBC, ystyried sail resymegol gyffredinol y BBC a'r achos dros ddiwygio ei dibenion cyhoeddus;
- Maint a chwmpas – beth felly ddylai'r BBC ei wneud, archwilio'r gwasanaethau y dylai eu darparu a'r cynulleidfaoedd y dylai geisio eu gwasanaethau;
- Cyllid – sut ddylid talu am y BBC, gan ystyried modelau ariannu i'r dyfodol a materion cysylltiedig megis y ffordd orau o orfodi taliadau; a
- Llywodraethu – sut ddylid goruchwylio'r BBC, gan ystyried opsiynau ar gyfer diwygio'r model Ymddiriedolaeth presennol ynghyd â materion llywodraethu eraill.

**Pam y BBC?**
**Cenhadaeth, dibenion a gwerthoedd**

Mae’r BBC wedi newid yn sylweddol yn ystod y can mlynedd bron iawn ers iddi gael ei sefydlu. Felly hefyd y byd y mae’n gweithredu ynddo. Yn ystod y ddegawd ers cyflwyno’r Siarter bresennol, gellir dadlau ein bod wedi gweld mwy o newidiadau nag yn ystod unrhyw ddegawd flaenorol - a chafwyd ffrwydrad yn y dewis i gynulleidfaoedd o ran dulliau cyrchu cynnwys ac amrywiaeth y darparwyr. Wrth i’r newidiadau hyn ddigwydd, mae rhai o’r dadleuon gwreiddiol dros y BBC wedi dod yn llai perthnasol. Ond mae’r sail resymegol dros gael BBC wedi’i ariannu gan y pwrs cyhoeddus sy’n “hysbysu, addysgu a diddanu” yn parhau yn gryf hyd yn oed yn oes y cyfryngau presennol. Mae’r Llywodraeth felly wedi ymroddi i ddyfodol y BBC a’r genhadaeth Reithaidd sy’n sail iddi.

Fodd bynnag, mae tirwedd y cyfryngau sydd wedi newid ac sydd yn newid yn codi cwestiynau ynghylch y ffordd orau o ddiffinio rôl unigryw y BBC. Un cwestiwn sy’n neilltuol o bwysig yw’r ffordd orau i ni allu deall y cysyniad o wasanaethu pawb. Wrth i nifer gynyddol o opsiynau ddod ar gael o ran sut gall cynulleidfaoedd wylio, darllen a gwrando ar gynnwys, mae’n berthnasol i ystyried y cwestiwn ynghylch i ba raddau y dylai’r BBC ganolbwyntio ar ddarparu rhaglenni ar gyfer pob cynulleidfa, yn gyfartal, ar draws pob llwyfan, neu a ddylai yn lle hynny ganolbwyntio ei hallbwn ar gynulleidfaoedd penodol neu nad ydynt wedi eu gwasanaethu’n ddigonol.

# Crynodeb gweithredol

Ar hyn o bryd, mae gan y BBC chwe diben cyhoeddus eang iawn, a gafodd eu pennu ar adeg Adolygiad diwethaf y Siarter. Dylai holl weithgarwch y BBC fod yn gweithio tuag at gyflawni un neu ragor o'r rhain:

1. Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil;
2. Hybu addysgu a dysgu;
3. Annog creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol;
4. Cynrychioli'r Deyrnas Unedig, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau;
5. Mynd â'r Deyrnas Unedig i'r byd a dod â'r byd i'r Deyrnas Unedig;
6. Darparu buddion technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd i'r cyhoedd.

Yn yr Adolygiad o'r Siarter, bydd y Llywodraeth yn ystyried yr achos dros ddiwygio'r dibenion hyn, er mwyn darparu rhagor o eglurder ynghylch beth yn union mae'r BBC yn bodoli i'w gyflawni. Bydd hefyd yn ystyried yr achos ynghylch pa un ai a fyddai'r BBC yn elwa ar set o werthoedd wedi'u diffinio'n glir, gan sefydlu set o nodweddion unigryw y BBC trwy gyfrwng y Siarter, yn cynnwys ei hannibyniaeth a'i hamhleidioldeb.

**Beth mae'r BBC yn ei wneud.**
**Maint a chwmpas**

Mae'r dibenion cyhoeddus yn pennu'r fframwaith ar gyfer yr hyn ddylai'r BBC geisio ei gyflawni. Yn ychwanegol, mae'r Siarter yn datgan y dylai prif weithgareddau'r BBC gynnwys darparu cynnyrch gwybodaeth, addysg ac adloniant trwy gyfrwng teledu, radio a'r gwasanaeth ar-lein. Ond nid yw'r siarter yn dweud faint yn union o gynnyrch gwybodaeth, addysg ac adloniant y dylid ei ddarparu, y niferoedd a'r mathau o sianeli i'w defnyddio fel dull o ddarparu hyn, y cydbwysedd rhwng darpariaeth gwybodaeth, addysg ac adloniant, neu lefel y ddarpariaeth ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd - i bob pwrpas, beth ddylai bennu maint a chwmpas y BBC. Mae'r cwestiynau ynghylch pa un ai yw'r maint a'r cwmpas presennol yn briodol o fewn yr amgylchedd presennol y cyfryngau ac o ran darparu gwasanaethau mae ar y gynulleidfa eu heisiau ac mae'n barod i dalu amdanynt, yn gwestiynau allweddol ar gyfer yr Adolygiad hwn o'r

| | |
|---|---|
| Siarter. Mae hynny'n neilltuol o wir yn achos cyd-destun gwasanaethau digidol – y maes lle cafwyd y datblygiadau mwyaf yn ystod y ddegawd ddiwethaf. Bydd yr Adolygiad o'r Siarter yn ystyried pedair o brif agweddau maint a chwmpas:<br><br>- **Ystod y gwasanaethau.** Mae amrywiaeth y gwasanaethau a ddarperir gan y BBC wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod cyfnod y ddwy Siarter ddiwethaf. Ugain mlynedd yn ôl, roedd gan y BBC ddwy sianel a phum gorsaf radio genedlaethol yn unig. Bellach, dyma Ddarlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus mwyaf y byd, ac mae'n darparu naw sianel deledu a deg gorsaf radio, ac mae ganddi bresenoldeb enfawr ar-lein sy'n cyrraedd miliynau o bobl bob dydd. Mae'r Adolygiad o'r Siarter yn gyfle i benderfynu a yw'r ystod hwn o wasanaethau yn briodol i dalwyr ffi'r drwydded, neu a fyddai aelodau'r cyhoedd yn cael eu gwasanaethu'n well gan amrywiaeth mwy canolbwyntiedig o wasanaethau gan y BBC. Ynghyd â hyn, ceisir safbwyntiau ynghylch natur ac i ba raddau y dylai'r BBC symud oddi wrth lwyfannau darlledu traddodiadol tuag at ragor o bresenoldeb ar-lein. | - **Effaith ar y farchnad.** Mae'r modd mae'r gwasanaethau hyn yn effeithio ar sefydliadau eraill yn sector y cyfryngau yn ffactor bwysig wrth ystyried pa wasanaethau mae'r BBC yn eu darparu a sut. Mae sectorau ehangach y cyfryngau wedi tyfu yn ystod degawdau diweddar ac mae gan y Deyrnas Unedig un o sectorau cyfryngau a diwydiannau creadigol mwyaf bywiog y byd. Gall y BBC effeithio'n gadarnhaol ac yn negyddol ar weithgareddau ei chystadleuwyr. Gellir dadlau ei bod wedi cynorthwyo datblygiad y sector trwy annog safonau uchel a thrwy fuddsoddi mewn cynyrchiadau annibynnol a seilwaith dosbarthu'r cyfryngau. Fodd bynnag, mae eraill yn dadlau fod y lefel o arian cyhoeddus yn rhoi mantais annheg i'r BBC ac yn ystumio'r gyfran o'r gynulleidfa mewn modd sy'n tanseilio modelau busnes masnachol. Mae gan y BBC 60 y cant o refeniwiau sector radio'r Deyrnas Unedig, er enghraifft, ac mae'r cynnwys helaeth rhad ac am ddim y mae'n ei ddarparu ar-lein yn effeithio ar amrywiaeth helaeth o chwaraewyr. |

**Crynodeb gweithredol**

- **Cynulleidfaoedd.** Mae'r BBC yn dal yn fawr ei pharch ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan y rhan fwyaf o bobl yn y Deyrnas Unedig. Ond mae amrywiaeth ar draws grwpiau gwahanol, ac mae heriau penodol o ran cyrraedd cynulleidfaoedd o bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a diwallu anghenion cynulleidfaoedd iau sy'n gwneud mwy a mwy o ddefnydd o gynnwys ar-lein, yn hytrach na thrwy gyfrwng llwyfannau traddodiadol megis teledu a radio. Mae amrywiaeth ar draws gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig hefyd. Bydd yr Adolygiad o'r Siarter yn ystyried i ba raddau y mae'r BBC yn diwallu anghenion y gwahanol rannau o'r gynulleidfa gartref. Bydd hefyd yn ystyried beth yw'r ffordd orau o wasanaethu cynulleidfaoedd tramor, yng nghyd-destun rôl bwysig y BBC o ran sut canfyddir y Deyrnas Unedig yn rhyngwladol (mae gwasanaethau'r BBC bellach yn cyrraedd mwy na 300 miliwn o bobl ledled y byd bob wythnos).

- **Cymysgedd, ansawdd a hynodrwydd y cynnwys**. Mae'r Adolygiad o'r Siarter hefyd yn gyfle i ystyried y cynnwys a ddarperir gan y BBC. Mae'r BBC wedi gwneud newidiadau i'w chymysgedd o genres yn ystod blynyddoedd diweddar, ac mae angen ystyried a yw'n sicrhau cydbwysedd priodol o ran ei harlwy. O ran ansawdd a hynodrwydd, mae data'r BBC ei hun yn awgrymu fod canfyddiadau wedi bod yn weddol gyson yn ystod blynyddoedd diweddar. Ond yn yr adolygiad hwn, byddwn yn holi cwestiynau ynghylch ansawdd a hynodrwydd cynnwys y BBC a beth yw'r ffordd orau o fesur llwyddiant i'r BBC.

Mae'r modd y mae'r BBC yn penderfynu sut bydd yn gwario £2.4 biliwn ar gynnwys yn elfen arall o faint a chwmpas ei weithgarwch y bydd yr Adolygiad o'r Siarter yn ei ystyried. Caiff y modd y caiff cynnwys ei gynhyrchu ei reoli gan ddwy elfen: y fframwaith rheoleiddiol ehangach yn cynnwys y Telerau Masnachu, sy'n amlinellu sut mae'r BBC a darlledwyr eraill yn gweithio gyda chynhyrchwyr annibynnol, a system cwotâu'r BBC. Mae'r cwotâu yn pennu isafsymiau o gynnwys y mae'n rhaid iddo gael ei gynhyrchu

| | |
|---|---|
| gan y BBC ei hun a gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol, yn ogystal â phennu gofynion eraill megis cynyrchiadau 'y tu allan i Lundain'. Rhaid ystyried yr elfennau hyn yn gyffredinol, i sicrhau fod y BBC yn parhau i allu darparu cynnwys rhagorol i gynulleidfaoedd, yn effeithlon ac yn gost effeithiol, gan leihau i'r eithaf unrhyw effaith negyddol ar y farchnad ehangach a manteisio'n llawn ar unrhyw fuddion. Mae'r BBC wrthi'n paratoi cynigion am strategaeth 'cystadlu a chymharu' a fyddai'n dileu cwotâu ac yn troi gweithrediadau cynhyrchu'r BBC yn is-gwmni masnachol. Bydd yr adolygiad o'r siarter yn ystyried y cynnig hwn yn ogystal â dewisiadau eraill ar gyfer diwygio. | **Cyllid y BBC**<br>Mae ffi'r drwydded deledu wedi profi i fod yn ffynhonnell hynod o hydwyth o refeniw ar gyfer y BBC - darparodd hyn werth £3.7 biliwn o gyllid cyhoeddus y llynedd. Er bod gan hyn nifer o gryfderau fel **model ariannu**, mae'n wynebu heriau hefyd:<br><br>- Mae pryderon ynghylch pobl yn cael eu herlyn am osgoi talu am drwydded deledu, ac mae'n destun adolygiad annibynnol diweddar gan David Perry QC;<br><br>- Mae'n gyfradd unffurf orfodol sy'n golygu fod y sawl sydd ag incwm isel yn talu cymaint â'r sawl sydd ag incwm uchel;<br><br>- Mae'n wynebu anawsterau o ran dal i fyny â thechnoleg oherwydd mae nifer gynyddol o bobl – yn enwedig pobl ifanc – yn gwylio teledu dal i fyny ar-lein yn unig, ac o dan y drefn bresennol, maent wedi'u heithrio rhag gorfod cael trwydded teledu. |

**Crynodeb gweithredol**

| | |
|---|---|
| Er nad oes unrhyw anawsterau o ran y ffi'r drwydded, nid oes unrhyw ateb syml o ran ei ddiwygio. Un opsiwn y gellid ei ystyried yn y tymor hirach yw model tanysgrifio. Er bod gan hyn rywfaint o fanteision, nid yw'r dechnoleg sydd ei angen i'w gyflwyno - rheolaethau cyrchu yn benodol - ar gael yn helaeth mewn cartrefi. O'r herwydd, os ystyrir fod yr opsiwn hwn yn ddymunol, bydd angen ei gyflwyno dros gyfnod hirach. Dyma'r tri opsiwn o ran newid y model ariannu sy'n ymarferol yn y tymor byrrach:<br><br>- ffi trwyddedu teledu diwygiedig;<br>- tâl am ddefnyddio cyfryngau;<br>- model cymysg yn cynnwys ffi trwyddedu teledu a model tanysgrifio.<br><br>Byddai manteision a chostau yn sgil bob un o'r rhain, a thrwy'r Adolygiad o'r Siarter, mae arnom eisiau ystyried pa un sy'n cynnig y model gorau i'r dyfodol. | Mae'r Llywodraeth wedi ymroddi i gyflwyno deddfwriaeth yn ystod y flwyddyn nesaf i foderneiddio ffi'r drwydded er mwyn cwmpasu teledu dal i fyny Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae hyn yn bwysig i sicrhau fod y cyhoedd sy'n gwylio rhaglenni teledu yn cael bargen deg a bod cyllid y BBC yn parhau yn gadarn am ddegawdau i ddod.<br><br>Mae ail fater ariannu yn ymwneud â'r meysydd a'r gweithgareddau y dylid **gwarchod eu cyllid**. Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth o brosiectau a meysydd lle cytunwyd â'r Llywodraeth pa lefel o gyllid y dylid ei warchod, yn hytrach na rhoi rhyddid llwyr i'r BBC ddewis hynny. Mae hyn yn ymwneud â meysydd megis cyflwyno band eang, newid i ddigidol, teledu lleol, y World Service ac S4C. Mae'r BBC a'r Llywodraeth eisoes wedi cytuno ar rai agweddau o hyn, ond erys cwestiynau |

| | |
|---|---|
| ynghylch a ddylid gwarchod cyllid meysydd eraill, megis y newid i radio digidol, newyddion a chynnwys rhanbarthol. Mae ystyriaeth bwysig hefyd ynghylch a ddylai darlledwyr eraill allu hawlio cyfran o ffi'r drwydded i'w galluogi i gynhyrchu mwy o wasanaeth cyhoeddus na fyddent yn gallu ei fforddio fel arall.<br><br>Yn drydydd, wrth ystyried cyllid, mae'n bwysig hefyd ystyried y **gwerth am arian a'r effeithlonrwydd** y mae'r BBC yn eu cyflawni. Cwestiynwyd hyn ar brydiau yn ystod cyfnod y siarter bresennol – er enghraifft, o ran taliadau diswyddo mawr ar gyfer uwch weithredwyr a'r Fenter Cyfryngau Digidol aflwyddiannus a gostiodd £100 miliwn cyn iddi gael ei ddileu. Mae'r BBC yn dal yn rhatach na'r rhan fwyaf o becynnau rhaglenni teledu ac mae'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau, ond mae cwestiynau dilys ynghylch a allai wneud rhagor i sicrhau gwerth pennaf ffi'r drwydded, a sut. | Yn olaf, mae cwestiwn pwysig hefyd ar gyfer yr Adolygiad o'r Siarter ynghylch **sut mae'r BBC yn cynhyrchu ei hincwm ei hun** trwy weithgarwch masnachol. Ar hyn o bryd, mae incwm masnachol yn cynrychioli tua chwarter o gyfanswm incwm y BBC. Mae hyn yn bwysig o ran uchafu'r elw ar fuddsoddiad mewn cynnwys y gellir ei ail-fuddsoddi maes o law. Caiff y rhan fwyaf o weithgarwch masnachol y BBC ei gynnal gan BBC Worldwide, a enillodd dros £200 miliwn i'r Gorfforaeth y llynedd. Y cydbwysedd sy'n rhaid ei sicrhau yw sut gellir uchafu'r enillion hyn a sicrhau ar yr un pryd fod cynnwys y BBC yn cael ei lywio gan werth cyhoeddus yn hytrach na'i werth masnachol mewn marchnadoedd rhyngwladol. Caiff yr holl opsiynau eu hystyried i ganfod beth yw'r ffordd orau i sicrhau hyn. |

**Crynodeb gweithredol**

| | |
|---|---|
| **Llywodraethu a rheoleiddio'r BBC**<br><br>Y mater olaf, ac un sydd yn y pen draw yn tanategu bob un arall, yw llywodraethu a rheoleiddio. Fe wnaeth y Siarter ddiweddaf gyflwyno model newydd, a chreu Ymddiriedolaeth y BBC. Fe wnaeth hyn sefydlu corff sy'n gyfrifol yn anad dim am gynrychioli buddion talwyr ffi'r drwydded, ac ar eu rhan, a gwneud y BBC yn atebol. Er bod hyn wedi arwain at newidiadau cadarnhaol yn cynnwys cyflwyno elfennau newydd megis Profion Budd Cyhoeddus a Thrwyddedau Gwasanaethau, mae'r strwythur hwn wedi cael ei feirniadu'n gyson trwy gydol cyfnod y Siarter. | Mae penderfyniad lefel uchel ynghylch y strwythurau a'r sefydliadau sy'n rhan o'r model llywodraethu a rheoleiddio. Mae tri dewis cyffredinol:<br><br>- cadw Ymddiriedolaeth bresennol y BBC ond ei diwygio;<br>- creu corff rheoleiddio penodol newydd a rhoi bwrdd unedol i'r BBC;<br>- symud y gwaith o reoleiddio yn llwyr i'r corff rheoleiddio darlledu a thelathrebu presennol, Ofcom, a rhoi bwrdd unedol i'r BBC.<br><br>Mae gan bob un o'r rhain fanteision ac anawsterau a bydd llwyddiant unrhyw fodel yn dibynnu'n benodol ar ble mae rolau, cyfrifoldebau a phwerau penodol wedi'u lleoli. Bydd angen datblygu'r manylyn hwn trwy'r Adolygiad o'r Siarter. Wrth newid, bydd yn bwysig sicrhau na chollir unrhyw gynnydd a wnaed o dan yr Ymddiriedolaeth. O'r herwydd, bydd yr Adolygiad o'r Siarter hefyd yn ystyried a ddylid cadw'r Profion Gwerth Cyhoeddus a'r Trwyddedau Gwasanaethau, neu eu gwella ymhellach. |

| | |
|---|---|
| Mae agweddau pwysig eraill o lywodraethu a rheoleiddio y bydd yr Adolygiad o'r Siarter yn eu hystyried.<br><br>- **Ymgysylltu â'r cyhoedd**. Sut mae'r BBC yn dryloyw wrth ymdrin ag aelodau'r cyhoedd, a sut mae'n gwrando arnynt ac yn ymgysylltu â hwy.<br>- **Llywodraeth a'r Senedd**. Mae annibyniaeth y BBC yn rhan hollol ganolog o'i chenhadaeth. Bydd angen i unrhyw fframwaith llywodraethu a rheoleiddio ystyried y berthynas briodol rhwng y BBC a strwythurau democrataidd y Deyrnas Unedig.<br>- **Siarter Frenhinol**. Mae cwestiwn hefyd ynghylch a yw Siarter ddeng mlynedd yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng buddion sefydlogrwydd a hyblygrwydd yn wyneb newidiadau cyflym. | **£4.8bn**<br>Refeniw BBC Group<br><br>**100,000**<br>Cyfanswm oriau teledu a radio rhwydwaith yn 2014<br><br>**18 awr 17 munud**<br>Yr amser cyfartalog bydd y gynulleidfa'n ei dreulio yng nghwmni'r BBC mewn wythnos<br><br>**343m**<br>Nifer y ceisiadau am raglenni i'r iPlayer yn Ionawr 2015<br><br>**18,974**<br>Cyfanswm cyfartalog staff darlledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC 2014-15 |

**Proses yr Adolygiad o'r Siarter**

| | |
|---|---|
| Mae adolygu Siarter Frenhinol yn golygu mwy na dim ond cyhoeddi ymgynghoriad. Rydym yn dymuno ymgysylltu â'r cyhoedd a'r diwydiant i sicrhau fod bob safbwynt yn cael ei ystyried yn briodol. Dyma pam rydym yn ymgysylltu â phobl ledled y Deyrnas Unedig trwy sawl dull i'w wneud yn hawdd i bawb ymateb.<br><br>" <br><br>Rydym yn dymuno ymgysylltu â'r cyhoedd a'r diwydiant i sicrhau fod bob safbwynt yn cael ei ystyried yn briodol. | **Dweud eich dweud**<br><br>Rydym wedi creu dull syml i'r cyhoedd ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar-lein: **dywedwch eich barn wrthym ni yn** www.gov.uk/government/consultations/bbccharter-review-public-consultation<br><br>**Gallwch hefyd e-bostio eich ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad at** BBCCharterReviewConsultation@culture.gov.uk<br><br>**Neu gallwch ysgrifennu atom yn:**<br>BBC Charter Review Consultation<br>DCMS<br>100 Parliament Street<br>Llundain SW1A 2BQ |

| | |
|---|---|
| **Bydd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos o 16 Gorffennaf 2015 hyd at 8 Hydref 2015.**<br><br>Un o greadigaethau y Siarter ddiwethaf oedd Ymddiriedolaeth y BBC – cafodd ei sefydlu i gynrychioli talwyr ffi'r drwydded. Yn rhinwedd y rôl hon, bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn ymgynghori ynghylch cynigion ar gyfer dyfodol y BBC. Byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i waith yr Ymddiriedolaeth ac yn gweithio gyda hwy ar amrywiaeth o ddigwyddiadau ar gyfer y diwydiant a'r cyhoedd i ystyried y materion pwysig yn fanwl yn ystod y misoedd sy'n dod.<br><br>Mae angen astudiaethau, adolygiadau ac ymchwil mewn perthynas â rhai meysydd hefyd – i ychwanegu arbenigedd technegol neu annibyniaeth oddi wrth y Llywodraeth. Byddwn yn comisiynu'r rhain yn ystod y misoedd sy'n dod. Bydd y broses hon yn rhedeg trwy gydol yr hydref a bydd yn llywio'r cynigion y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cyflwyno i ymgynghori ymhellach yn eu cylch yng ngwanwyn 2016. | Mae'r Llywodraeth hefyd wedi sefydlu Grŵp Ymgynghorol i gynorthwyo'r broses o Adolygu'r Siarter, a sicrhau fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael barn arbenigwyr ynghylch yr amrywiaeth o faterion sy'n cael eu trafod.<br><br>Mae rhagor o fanylion am y Grŵp a'i aelodau ar gael yn www.gov.uk/bbccharterreview |

Beth yw'r Adolygiad o Siarter y BBC?

Sefydlir y BBC trwy **Siarter Frenhinol**, nid deddf seneddol, i bwysleisio annibyniaeth y BBC o lywodraeth y cyfnod.

Mae'n amlinellu dibenion cyhoeddus y BBC ac yn amlinellu dyletswyddau priodol Ymddiriedolaeth y BBC a'i Bwrdd Gweithredol.

Sut allwch chi gyfrannu at y cam hwn o'r adolygiad o'r siarter

Ymgynghoriad yn cychwyn 16 Gorffennaf 2015

www.gov.uk/government/consultations/bbc-charter-review-public-consultation

Ar-lein

E-bost

Gorffennaf

Awst

Ymgysylltu â'r cyhoedd a'r diwydiant ar draws y Deyrnas Unedig.

Grŵp Ymgynghorol i gynorthwyo'r broses o Adolygu'r Siarter.

Astudiaethau, adolygiadau, ac ymchwil i amrywiaeth o faterion.

| | |
|---|---|
| Daeth y siarter bresennol, yr wythfed, i rym ar 1 Ionawr 2007, a bydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2016 (cyfnod deng mlynedd yw’r safon hanesyddol). | Yr Adolygiad o’r Siarter yw’r cyfle i ystyried pob agwedd o’r BBC. |

Ymgynghoriad yn dod i ben 8 Hydref 2015

Ysgrifennu

| | |
|---|---|
| Medi | Hydref |

**Themâu yr Adolygiad o'r Siarter**

| |
|---|
| **1. Pam y BBC?**<br>- Pam mae'r BBC yn bodoli?<br>- Ar gyfer beth rydym yn dymuno i'r BBC fod yn ystod y blynyddoedd sy'n dod?<br>- Ei chenhadaeth, ei dibenion a'i gwerthoedd. |
| **2. Cyllid. Sut rydym yn talu amdani.**<br>- Y model ariannu.<br>- Meysydd y gwarchodir eu cyllid.<br>- Gwerth am arian, effeithlonrwydd a masnachol. |

| |
|---|
| **3. Maint a chwmpas y BBC**<br>- Beth mae’r BBC yn ei wneud a sut mae’n gwneud hynny.<br>- Y gynulleidfa mae’n ei gwasanaethu.<br>- Rôl y BBC o fewn y sector cyfryngau a chreadigol ehangach. |
| **4. Llywodraethu’r BBC**<br>- Sut mae’r model presennol yn gweithio.<br>- Opsiynau ar gyfer diwygio.<br>- Materion llywodraethu ehangach. |

**Cwestiynau**

| Pam y BBC? Cenhadaeth, diben a gwerthoedd | Beth mae'r BBC yn ei wneud: maint a chwmpas |
|---|---|
| **C1** Sut gellir gwella dibenion cyhoeddus y BBC fel bydd rhagor o eglurder ynghylch beth ddylai'r BBC ei gyflawni? | **C4** A ellir cyfiawnhau ehangiad y BBC yng nghyd-destun rhagor o ddewis ar gyfer cynulleidfaoedd? A yw'r BBC yn cymryd lle cystadleuwyr masnachol, ac os felly, a ellir cyfiawnhau hyn? |
| **C2** Pa elfennau o wasanaethu pawb yw'r rhai pwysicaf i'r BBC? | **C5** Ble mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod gan y BBC effaith ehangach cadarnhaol neu negyddol ar y farchnad? |
| **C3** A ddylai'r Adolygiad o'r Siarter fynd ati'n ffurfiol i sefydlu set o werthoedd ar gyfer y BBC? | **C6** Pa rôl ddylai'r BBC gael o ran dylanwadu'r dirwedd dechnolegol yn y dyfodol, yn cynnwys newid i radio digidol yn y dyfodol? |
| | **C7** Pa mor dda mae'r BBC yn gwasanaethu ei chynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol? |
| | **C8** A yw'r BBC yn cynnig y gymysgedd briodol o genres ar draws ei gwasanaethau? |
| | **C9** A yw safon cynnwys y BBC yn ddigon uchel, ac a yw'n ddigon gwahanol i gynnwys darlledwyr eraill? Pa ddiwygiadau allai ei wella? |
| | **C10** Sut ddylai'r system o gynhyrchu cynnwys gael ei gwella trwy ddiwygio cwotâu neu ddewisiadau mwy radical? |

| Cyllid y BBC | Llywodraethu a Rheoleiddio’r BBC |
| --- | --- |
| **C11** Sut ddylem ni dalu am y BBC a sut ddylid moderneiddio ffi’r drwydded? | **C15** Sut ddylai model llywodraethu a rheoleiddio presennol y BBC gael ei ddiwygio? |
| **C12** A ddylai lefel y cyllid ar gyfer rhai gwasanaethau neu raglenni penodol gael ei warchod? A ddylai rhywfaint o gyllid fod ar gael i ddarparwyr eraill er mwyn darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus? | **C16** Sut ddylai’r Profion Gwerth Cyhoeddus a’r Trwyddedau Gwasanaethau gael eu diwygio a phwy ddylai fod yn gyfrifol am wneud y penderfyniadau hyn? |
| **C13** A yw’r BBC wedi bod yn gwneud digon i sicrhau gwerth am arian? Sut allai fynd ymhellach? | **C17** Sut all y BBC ymgysylltu’n well â thalwyr ffi’r drwydded a’r diwydiant, yn cynnwys trwy gyfrwng ymchwil, tryloywder a thrafod cwynion? |
| **C14** Sut ddylai gweithgareddau masnachol y BBC, yn cynnwys BBC Worldwide, gael eu diwygio? | **C18** Sut ddylai’r berthynas rhwng y Senedd, y Llywodraeth, Ofcom, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a’r BBC weithio? Pa strwythurau atebolrwydd a disgwyliadau ynghylch hynny, yn cynnwys tryloywder ariannol a rheolaethau ar wariant, a ddylai fod yn gymwys? |
| | **C19** A ddylai dull gweithredu presennol Siarter Frenhinol a Chytundeb Fframwaith 10 mlynedd barhau? |

# 1. Pam y BBC?

Cenhadaeth, dibenion a gwerthoedd

**Pam y BBC?**

Cenhadaeth, dibenion a gwerthoedd

Mae’r BBC wedi datblygu ac ehangu ers ei sefydlu yn y 1920au fel unig ddarlledwr y Deyrnas Unedig, i fod yn un o blith llawer, yn darparu llu o sianeli a gwasanaethau. Y tu hwnt i ffiniau’r DU, mae’r BBC yn ddarlledwr ac yn frand a gydnabyddir yn rhyngwladol, yn cyrraedd cynulleidfa fyd-eang wythnosol o dros 308 miliwn o bobl[7]. Ond mae’r cyd-destun y mae’r BBC yn gweithredu ynddo wedi newid yn ddramatig yn ystod blynyddoedd diweddar.

“

Mae’r BBC yn ddarlledwr ac yn frand a gydnabyddir yn rhyngwladol, yn cyrraedd cynulleidfa fyd-eang wythnosol o dros 308 miliwn o bobl.

Mae’r bennod hon yn holi’r cwestiwn, beth mae’r BBC yn bodoli i’w gyflawni?

I wneud hyn, mae’n trafod y canlynol:

- **y sail resymegol dros y BBC** - beth oedd hynny’n wreiddiol, a pha un ai a sut mae hynny’n gymwys mewn tirwedd darlledu a chyfryngau sy’n newid yn ddramatig
- **dibenion cyhoeddus y BBC** – pa un ai a oes angen newid y rhain, neu eu hailasesu i adlewyrchu anghenion newidiol, disgwyliadau a blaenoriaethau’r gynulleidfa.
- **gwerthoedd y BBC** – pa un ai a ddylid eu cyfundrefnu trwy’r broses o Adolygu’r Siarter, gan nodi dulliau y gellid disgwyl i’r BBC eu gweithredu, a hysbysu ynghylch sut gallai’r BBC asesu ei pherfformiad.

| |
|---|
| **Cartref aml-sianel**<br><br>**Yn dilyn y newid i ddigidol, mae bob cartref yn ‘gartref aml-sianel’:** |
| **70 sianel**<br>Mae Freeview yn cynnig dros 70 sianel ac mae gwasanaethau lloeren a chebl yn cynnig mynediad at gannoedd o rai ychwanegol. |
| **Ar gael i 95%**<br>Erbyn diwedd 2017, bydd band eang cyflym iawn ar gael i 95 y cant o gartrefi a busnesau’r Deyrnas Unedig. |

**Y sail resymegol dros y BBC**

| | |
|---|---|
| Yn union fel ymyrraeth y Llywodraeth mewn meysydd megis iechyd ac addysg, prif bwyslais y sail resymegol graidd dros y BBC, a pholisi darlledu gwasanaeth cyhoeddus[8] (PSB) yn ehangach, yw'r angen i'r wladwriaeth ymyrryd yn y farchnad er mwyn sicrhau canlyniadau cymdeithasol. | Roedd yr achos gwreiddiol dros y BBC yn ymwneud â diffyg cystadleuaeth. Yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, roedd y defnydd o'r sbectrwm (a'r gystadleuaeth) yn gyfyngedig dros ben, ac un darlledwr teledu yn unig oedd yn bodoli tan y 1950au. Roedd Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus yn ddewis a ffafrid yn well na monopoli preifat. Mae datblygiad technoleg wedi newid hyn. Bu twf cyson yn y sbectrwm a ddefnyddir ar gyfer darlledu yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, a gellir dadlau fod deng mlynedd siarter bresennol y BBC wedi profi'r cyfnod mwyaf dramatig o newid ym meysydd darlledu a thelathrebu ers i'r BBC gael ei sefydlu.<br><br>Yn dilyn y newid i ddigidol, mae bob cartref yn gartref 'aml-sianel' sydd â gwasanaeth Freeview sy'n cynnig dros 70 sianel[9] a gwasanaethau lloeren a chebl sy'n cynnig mynediad at gannoedd o rai ychwanegol (o'i gymharu â 57 y cant yn 2006),[10] ac erbyn diwedd 2017, bydd band eang cyflym iawn ar gael ar gyfer dros 95 y cant o gartrefi a busnesau y Deyrnas Unedig.[11] |

Mae mynychder dyfeisiau symudol hefyd wedi arwain at lu o ddewisiadau ar gyfer gwylio a gwrando ynghyd â'r set teledu neu'r radio traddodiadol, neu yn lle hynny. Er enghraifft, mae gwasanaethau newydd megis Netflix, Amazon Prime, Spotify a Deezer eisoes wedi cychwyn gweddnewid arferion a disgwyliadau pobl o'r cyfryngau, a byddem yn disgwyl gweld y duedd hon yn parhau yn ystod y blynyddoedd sydd o'n blaen.

Mae hyn yn herio un o'r seiliau rhesymegol gwreiddiol dros PSB - bod y rhwystrau sylweddol rhag mynediad yn golygu fod angen ymyrraeth gyhoeddus. Mae'r genhedlaeth bresennol o setiau teledu clyfar,[12] a'r nifer gynyddol o wasanaethau dal i fyny ac ar gais sydd ar gael, yn cynnig hyd yn oed rhagor o ddewis; mae'r cwsmer yn cael gwasanaeth gwell nag erioed.

Mae'r tueddiadau hyn yn codi cwestiynau ynghylch parhad perthnasedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn oes y cyfryngau modern. Ond mae cynnwys PSB o ansawdd uchel ar y cyfan wedi cael ei ystyried yn wasanaeth sy'n haeddu arian cyhoeddus, ac ni fyddai darpariaeth ddigonol o ran hynny mewn marchnad rydd. Nid yw hynny'n golygu y gellid dadlau na all marchnadoedd preifat ddarlledu rhaglenni o ansawdd uchel. Mae sawl enghraifft yn ystod blynyddoedd diweddar o ddarlledwyr masnachol yn darparu cynnwys sy'n cyflawni safon a ystyrid yn draddodiadol fel maes arbennig Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB). Mae'r cyfresi drama arobryn a gynhyrchir gan HBO yn enghraifft o hyn. Ond mae PSBs megis y BBC yn parhau i sicrhau effeithiau positif i gymdeithas megis ehangu gwybodaeth ddemocrataidd trwy gyfrwng newyddion a materion cyfoes, gan helpu i ymestyn dylanwad ac enw da'r Deyrnas Unedig dramor, mynd i'r afael ag anghenion cynulleidfaoedd megis grwpiau sy'n siarad ieithoedd lleiafrifol, a gwasanaethu cynulleidfaoedd (megis plant) ble byddai hysbysebu gormodol yn amhriodol. Ni allai'r farchnad yn unig ddarparu nifer ddigonol o'r cynhyrchion hyn.

Ar waethaf y newid mewn technoleg, mae sail resymegol gryf dros barhad bodolaeth y BBC yn ystod yr unfed ganrif ar hugain yn dal i fodoli.

**Y sail resymegol dros y BBC**

| | |
|---|---|
| Mae cenhadaeth bresennol y BBC, 'Cyfoethogi bywydau pobl trwy raglenni a gwasanaethau sy'n hysbysu, addysg a diddanu'[13], fwy neu lai yr un fath ers cychwyn y Gorfforaeth, ac mae'n canolbwyntio ar y gwerthoedd a sefydlwyd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol cyntaf y BBC, yr Arglwydd Reith. | Mae llawer o agweddau o blaid parhad cenhadaeth bresennol y BBC. Mae pwysau hanes y tu cefn iddi, caiff ei hadnabod a'i deall yn helaeth, ac efallai'n wir fod talwyr y drwydded yn disgwyl i'r BBC ddarparu pob un o'r tair elfen. Ond ceir beirniadaethau o'r genhadaeth hefyd. Yn benodol, caiff ei beirniadu am beidio bod yn genhadaeth eang iawn, ac am fod yn un a allai arwain at y BBC yn cystadlu am ffigyrau gwylio yn hytrach na darparu ansawdd, neu hynodrwydd, dan faner 'adloniant'. Ar y cyfan, mae'r Llywodraeth yn credu fod y dadleuon dros gynnal y genhadaeth hanesyddol hon yn gadarn, ond efallai bydd angen newidiadau i'r dibenion, y maint a'r cwmpas i sicrhau na fydd hyn yn arwain at ehangu'r BBC yn ormodol. |

| | |
|---|---|
| Elfen sefydledig arall o ddull gweithredu’r BBC yw ei chysyniad o wasanaethu pawb. Mae hyn yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl:<br><br>- i rai, mae hyn wedi golygu y dylai’r BBC ddarparu pob math o gynnwys, a diwallu anghenion pob math o gynulleidfa, waeth pa mor eang yw arlwy darparwyr eraill.<br>- i eraill, mae hyn wedi cael ei ddehongli fel rhoi pwyslais dyledus ar roi sylw i ddigwyddiadau unigol sy’n dod â’r genedl ynghyd, megis y Proms, priodasau Brenhinol, ac ymdrin ag etholiadau; ac<br>- i eraill, mae wedi golygu fod angen iddo fod ar gael ac yn hygyrch ar bob llwyfan a dyfais, ac ar gael am ddim pan fydd ei angen. Yn ystod blynyddoedd diweddar, mae hyn wedi golygu pwyslais gan y BBC ar ehangu ei gwasanaethau digidol ac ar-lein. | Mae cwestiynau amlwg ynghylch pa un o’r diffiniadau hyn sy’n parhau yn fwyaf perthnasol yn ystod oes y cyfryngau presennol, a pha un a yw’n dal yn bwysig i’r BBC barhau i ddarparu popeth mae’n ei ddarparu ar hyn o bryd, neu wedi’i ddarparu’n draddodiadol, neu a fyddai anghenion y gynulleidfa’n cael eu diwallu’n well gan y BBC pe byddai ganddi ffocws mwy cyfyng. |

**Dibenion cyhoeddus y BBC**

| | |
|---|---|
| Yn y Siarter bresennol a ddaeth i rym yn Ionawr 2007, fe wnaeth y Llywodraeth amlinellu set lefel uchel o ddibenion cyhoeddus ar gyfer y BBC (gweler Tabl 1, tudalennau 34-36), ac yn dilyn hynny, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth sefydlu cylchoedd gorchwyl ar gyfer bob diben, i bennu blaenoriaethau a meini prawf i'w defnyddio i asesu darpariaeth.<br><br>“<br>Dibenion cyhoeddus y BBC:<br>pa un ai a ydynt yn darparu'r fframwaith priodol, pa un ai a yw'r dibenion eu hunain yn briodol, a pha un ai a ellid neu a ddylid eu hail-lunio neu eu blaenoriaethu. | Mae chwe diben cyhoeddus wedi tanategu gweithgarwch y BBC yn ystod cyfnod y Siarter diwethaf, ac maent wedi bod yn rhan o'r fframwaith y mae'r BBC wedi'i ddefnyddio i asesu priodoldeb a llwyddiant ei chynnwys a'i gwasanaethau. Mae'r papur hwn yn ceisio casglu safbwyntiau ynghylch dibenion cyhoeddus y BBC: pa un ai a ydynt yn darparu'r fframwaith priodol, pa un ai a yw'r dibenion eu hunain yn briodol, a pha un ai a ellid neu a ddylid eu hail-lunio neu eu blaenoriaethu. |

Mae dadl dros gynnal y dibenion hyn. Maent yn diffinio'n gyffredinol beth mae pobl yn ei ddisgwyl o allbwn y BBC, a thrwy roi cyfarwyddyd lefel uchel y unig, maent yn caniatáu i'r BBC wneud penderfyniadau ynghylch y ffordd orau o'u cyflawni. Er enghraifft, mae 'cynrychioli'r Deyrnas Unedig' wedi caniatáu i'r BBC ddarlledu digwyddiadau o bwys cenedlaethol, megis y briodas Frenhinol, ac mae 'mynd â'r Deyrnas Unedig i'r byd' yn cynorthwyo i gefnogi buddsoddiad sylweddol yn y BBC World Service. Mae'r dibenion hefyd yn set gweddol newydd o ddisgrifwyr lefel uchel, felly efallai gellid dadlau dros roi cyfle iddynt ymsefydlu.

Ond mae dadl hefyd dros ddiwygio'r dibenion. Maent yn eang iawn, a gellid dadlau y byddai'n anodd i unrhyw raglen neu weithgarwch beidio cael eu cwmpasu ganddynt. Trwy gael eu cyfleu mor eang, nid ydynt yn cyfeirio'n uniongyrchol at y genres allweddol megis drama, hanes a newyddion, yr ystyrir yn gyffredinol eu bod yn sylfaen i ddarpariaeth y BBC. Ac nid ydynt ychwaith yn pennu terfynau clir ynghylch beth sydd neu beth sydd ddim yn briodol fel darpariaeth gan y BBC. Felly gellid dadlau fod beirniadaethau o'r BBC am fod yn rhy fawr neu'n rhy eang yn ganlyniad i'r dibenion eang iawn hyn a bennwyd gan y Llywodraeth. I'r gwrthwyneb, mae rhai wedi dadlau dros ehangu'r dibenion. Er enghraifft, gallai'r BBC fod â chyfrifoldebau mwy penodol dros weithio mewn partneriaeth, neu gefnogi'r sector ehangach trwy hyfforddiant a sgiliau.

**Cwestiwn 1**

Sut gellir gwella dibenion cyhoeddus y BBC fel bydd rhagor o eglurder ynghylch beth ddylai'r BBC ei gyflawni?

**Cwestiwn 2**

Pa elfennau o wasanaethu pawb yw'r rhai pwysicaf i'r BBC?

**Dibenion cyhoeddus y BBC**

Tabl 1: Dibenion cyhoeddus y BBC a chylchoedd gorchwyl y dibenion[14]

| **Diben** | **Cylch gorchwyl y diben**<br>'Beth fydd y BBC yn ei wneud i gyflawni'r diben hwn' |
|---|---|
| 1. Cynnal Dinasyddiaeth a Chymdeithas Sifil | - Darparu newyddiaduraeth annibynnol o'r radd flaenaf.<br>- Ennyn diddordeb cynulleidfa ehangach mewn newyddion, materion cyfoes a phynciau cyfamserol.<br>- Annog a galluogi trafodaethau a dadleuon ynghylch newyddion, materion cyfoes a phynciau cyfamserol.<br>- Datblygu gwell dealltwriaeth o'r broses seneddol a sefydliadau gwleidyddol sy'n llywodraethu'r Deyrnas Unedig.<br>- Galluogi cynulleidfaoedd i gyrchu, deall a rhyngweithio â gwahanol fathau o gyfryngau. |
| 2. Annog Addysgu a Dysgu | - Hybu dysgu anffurfiol ar draws amrywiaeth lawn o bynciau a materion ar gyfer bob cynulleidfa.<br>- Ennyn diddordeb cynulleidfaoedd mewn gweithgareddau a dargedir i gyflawni canlyniadau penodol sy'n llesol i gymdeithas.<br>- Annog a chefnogi nodau addysgol penodol i blant a phobl ifanc yn eu harddegau, yn enwedig mewn perthynas â datblygu sgiliau hanfodol. |

| **Diben** | **Cylch gorchwyl y diben**<br>'Beth fydd y BBC yn ei wneud i gyflawni'r diben hwn' |
|---|---|
| 3. Annog creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol | - Darparu cynnyrch sy'n wahanol ac yn greadigol ar ei holl lwyfannau.<br>- Sicrhau fod pob cynulleidfa yn cael ei chyfoethogi trwy roi sylw i amrywiaeth helaeth o weithgareddau creadigol a diwylliannol.<br>- Annog cyfranogi gweithredol mewn gweithgareddau creadigol.<br>- Darparu ystod eang o gynnwys pleserus a difyr.<br>- Magu creadigrwydd a meithrin a chefnogi doniau'r Deyrnas Unedig ar draws amrywiaeth eang o genres. |
| 4. Cynrychioli'r Deyrnas Unedig, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau | - Cynrychioli gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau i weddill y Deyrnas Unedig.<br>- Darparu ar gyfer gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig.<br>- Dod â phobl ynghyd i rannu profiadau.<br>- Annog diddordeb mewn cymunedau lleol a thrafodaeth ynghylch hynny.<br>- Adlewyrchu credoau crefyddol a chredoau eraill yn y Deyrnas Unedig<br>- Darparu cynnyrch trwy gyfrwng ieithoedd lleiafrifol. |

**Dibenion cyhoeddus y BBC**

| **Diben** | **Cylch gorchwyl y diben**<br>'Beth fydd y BBC yn ei wneud i gyflawni'r diben hwn' |
|---|---|
| 5. Mynd â'r Deyrnas Unedig i'r byd a dod â'r byd i'r Deyrnas Unedig | - Datblygu dealltwriaeth fyd-eang o faterion rhyngwladol.<br>- Darparu gwasanaeth darlledu newyddion o'r radd flaenaf.<br>- Galluogi cynulleidfaoedd ac unigolion i gyfranogi yn y drafodaeth fyd-eang ynghylch materion o bwys rhyngwladol.<br>- Ehangu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig o faterion rhyngwladol.<br>- Ehangu profiad cynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig o ddiwylliannau gwahanol o bob cwr o'r byd a'u cysylltiad â hwy. |
| 6. Darparu buddion technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd i'r cyhoedd | - Sicrhau fod cynnwys a gwasanaethau digidol diddorol ar gael ar amrywiaeth helaeth o lwyfannau a dyfeisiau digidol.<br>- Cydweithio â'r diwydiant i barhau i wneud gwelliannau i ddosbarthiad cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ledled y Deyrnas Unedig.<br>- Cynyddu cyrhaeddiad Darlledu Sain Ddigidol (DAB).<br>- Cefnogi gweithgarwch cyfathrebu Digital UK er mwyn datblygu ymwybyddiaeth o'r newid i ddigidol a pharodrwydd am hynny.<br>- Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i helpu bob cynulleidfa i ddeall a mabwysiadu technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd.<br>- Cefnogi cynllun cymorth a dargedir y Llywodraeth i helpu'r bobl fwyaf bregus yn ystod y newid i ddigidol. |

**Gwerthoedd y BBC**

| | |
|---|---|
| Gellid dadlau fod dulliau unrhyw sefydliad cyhoeddus o gyflawni ei genhadaeth a dulliau gweithredu ei strwythurau a'i bobl yr un mor bwysig â'r strategaeth ei hun. Efallai fod hyn hyd yn oed yn fwy perthnasol i'r BBC, o gofio'r lle unigryw sydd gan y sefydliad yn niwydiant cyfryngau'r Deyrnas Unedig, ei bywyd cymdeithasol a diwylliannol, a'n cydsynwyr o hunaniaeth a gwerthoedd Prydeinig.<br><br>"<br><br>Mae'r BBC yn sefydliad darlledu cyhoeddus, ac mae'n briodol y dylai ei gwerthoedd adlewyrchu safbwyntiau'r cyhoedd. | Bydd llawer o sefydliadau yn datgan yn gyhoeddus sut byddant yn gweithredu trwy ddatganiad gwerthoedd. Mae dogfennau cyhoeddus sy'n cyfeirio at werthoedd y BBC; er enghraifft, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gynnal annibyniaeth y BBC a sicrhau ei bod yn cyflawni safonau uchel o ran gonestrwydd a thryloywder. Mae gan y BBC set o werthoedd corfforaethol hefyd, sy'n amlinellu i'w gweithwyr sut disgwylir i'r BBC weithredu. Ond nid cheir amlinelliad o set ffurfiol a chyfundrefnol o werthoedd yn unman. |

| | |
|---|---|
| Mae cyfnod y Siarter ddiwethaf wedi bod yn un o'r rhai mwyaf trwblus yn hanes y Gorfforaeth, ac mae nifer o faterion wedi codi a wnaeth arferion gwaith a phobl y BBC yn destun llawer iawn o graffu.<br><br>Mae'r BBC yn sefydliad darlledu cyhoeddus, ac mae'n briodol y dylai ei gwerthoedd adlewyrchu safbwyntiau'r cyhoedd. Mae'r Adolygiad hwn o'r Siarter yn cynnig cyfle i ymgynghori ynghylch beth allai set posibl o werthoedd fod, y gellid eu defnyddio i farnu a mesur ei pherfformiad. Amlinellir rhai gwerthoedd posibl i'w hystyried yn Nhabl 2 gyferbyn. Mae hyn yn cynnwys gwerth posibl yn ymwneud ag amrywiaeth, y gellid ei gyfiawnhau o gofio'r angen i sicrhau parhad cynnydd y BBC o fewn y maes hwn (gweler Blwch 1 ar dudalen 40/41. | **Tabl 2: Gwerthoedd posibl y BBC**<br><br>Annibynnol<br><br>Diduedd<br><br>Ansawdd uchel<br><br>Effeithlon/gwerth am arian<br><br>Tryloyw<br><br>Nodedig<br><br>Amrywiol/cynrychiadol<br><br>**Cwestiwn 3**<br><br>A ddylai'r Adolygiad o'r Siarter fynd ati'n ffurfiol i sefydlu set o werthoedd ar gyfer y BBC? |

**Gwerthoedd y BBC**

| **Blwch 1. Amrywiaeth**<br><br>Mae'r BBC a'r sector darlledu ehangach wedi wynebu heriau mewn perthynas â pha mor gynrychiadol yw eu gweithlu, ar y sgrîn ac o ran gwaith y tu ôl i'r camera. Fe wnaeth y BBC gyhoeddi strategaeth amrywiaeth ym Mehefin 2014, yn cynnwys cronfa gwerth £2.1 miliwn i helpu doniau o blith cymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) ar y sgrîn ac oddi ar y sgrîn i ddatblygu rhaglenni newydd; rhagor o interniaethau hyfforddi; Gweithgor Annibynnol ar Amrywiaeth a gadeirir gan yr Arglwydd Hall;[15] a phennu targedau newydd i gynyddu uwch staff BME o 8.3 y cant i 10 y cant erbyn 2017, ac yna i 15 y cant erbyn 2020.[16]<br><br>Mae'r BBC eisoes wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn ystod y 12 mis diwethaf: roedd y gyfran o staff BAME yn 13.2 y cant yn Chwefror 2015[17] (o'i gymharu â 12.6 y cant ym Mawrth 2014). | Yn ychwanegol, mae 31 o raddedigion dan hyfforddiant o gefndiroedd BAME wedi cael eu recriwtio o'r Rhaglen Mynediad Creadigol, ac mae chwe darpar 'Gomisiynydd y Dyfodol' wedi cychwyn hyfforddi o fewn nifer o feysydd.<br><br>O ran nifer yr aelodau staff anabl, mae angen i'r BBC wneud rhagor o gynnydd. Mae'r gyfradd gyffredinol o staff anabl wedi parhau yn 3.8 y cant.[18] Fodd bynnag, mae rhywfaint o gynnydd wedi digwydd, er enghraifft, sefydlu cynllun lleoliad gwaith o'r enw 'Extend' ar gyfer pobl anabl. Mae'r cynllun yn cynnig lleoliadau gwaith cyflogedig tymor byr, a chyflwynwyd y cynllun ManageAble eleni, sy'n targedau lleoliadau mewn uwch swyddi a rolau gwneud penderfyniadau.[19]<br><br>Mae'r BBC wedi cael ei beirniadu'n helaeth yn ystod blynyddoedd diweddar oherwydd y modd mae'n cyfleu merched ar y sgrîn, ac mae wedi awgrymu fod gwella hyn yn dal yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, ceir darlun mwy cadarnhaol wrth ystyried ei |
|---|---|

gweithlu, oherwydd roedd nifer y staff benywaidd yn 48.5 y cant fis Chwefror diwethaf, fymryn yn llai nag ym mis Mawrth 2014. Cynyddodd nifer yr uwch reolwyr benywaidd i 38.4 y cant a'r nifer o ferched sy'n arweinyddion i 41.1 y cant.[20]

Fel rhan o'i ymroddiad i ddarparu rhaglenni o ansawdd uchel sy'n cyfleu Prydain fodern, fe wnaeth y BBC edrych yn fanwl ar sut caiff lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol eu portreadu a'u cynnwys, ac roedd hyn yn cynnwys ymchwil cynulleidfa ac ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r argymhellion dilynol yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd, ac fel rhan o'r Strategaeth Amrywiaeth, mae'r BBC hefyd wedi ymroddi i ymgynghori ynghylch y portread o oedran ar draws darlledwyr i lywio cynnyrch ac arferion cyflogaeth ar draws y diwydiant.[21]

## 2. Beth mae'r BBC yn ei wneud.

Maint a chwmpas

**Beth mae'r BBC yn ei wneud.**
**Maint a chwmpas**

| | |
|---|---|
| Mae'r bennod hon yn archwilio'r cwestiwn ynghylch maint a chwmpas priodol ar gyfer y BBC, ar gyfer cyfnod y Siarter nesaf, gan ystyried y canlynol:<br><br>− **Gwasanaeth:** pa un ai a yw'r BBC yn cynnig yr amrywiaeth briodol o wasanaethau, gan ystyried yr effaith ar y farchnad;<br>− **Cynulleidfaoedd:** pa mor dda mae'r BBC yn gwasanaethu gwahanol gynulleidfaoedd;<br>− **Cynnwys:** pa un ai a yw'r BBC yn darparu'r amrywiaeth briodol o gynnwys, ansawdd a hynodrwydd; a<br>− **Cynhyrchu:** sut ddylai'r cynnwys gael ei gynhyrchu. | Mae'r Siarter bresennol yn amlinellu'r gweithgareddau y dylai'r BBC eu gwneud er mwyn cyflawni ei dibenion cyhoeddus yn gyffredinol. Mae'n datgan y dylai'r prif weithgareddau gynnwys darparu gwybodaeth, addysg ac adloniant, trwy gyfrwng gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein. Mae'r Siarter hefyd yn rhoi rhwydd hynt i'r BBC wneud gweithgareddau eraill os ydynt yn cefnogi'r dibenion cyhoeddus.[22]<br><br>Mae'r fframwaith hwn, ynghyd â'r dibenion cyhoeddus eang a ystyrir yn y bennod flaenorol, wedi rhoi anogaeth a rhyddid i'r BBC i ddatblygu ei gwasanaethau dros gyfnod y Siarter, ac mae'n adeiladu ar dwf y BBC, yn ystod degawdau diweddar, i ddod yn Ddarlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus mwyaf y byd (gweler Blwch 2 gyferbyn am gymhariaeth â darlledwyr Ewropeaidd). Fel rhan o'r Adolygiad o'r Siarter, mae angen i ni benderfynu a yw'r maint a'r cwmpas yn briodol i amgylchedd presennol y cyfryngau a'r amgylchedd hwnnw yn y dyfodol, o gofio'r dewis helaeth sydd ar gael.<br>. |

# Blwch 2: Beth yw safle'r BBC yn rhyngwladol?
# Refeniw darlledwyr cyhoeddus[23]

**Deg uchaf Darlledwyr Cyhoeddus Ewrop** **Refeniwiau gweithredol 2013, biliwn Ewro**

| | |
|---|---|
| BBC (ac eithrio is-gwmnïau masnachol) | Y Deyrnas Unedig |
| France Televisions | Ffrainc |
| RAI | Yr Eidal |
| ZDF | Yr Almaen |
| SRG-SSR idee suisse | Y Swistir |
| WDR | Yr Almaen |
| SWR | Yr Almaen |
| Channel 4 | Y Deyrnas Unedig |
| NDR | Yr Almaen |
| BR | Yr Almaen |

Ffynhonnell: European Audiovisual Observatory, Blwyddlyfr 2014, t.90

**Gwasanaethau**

| | |
|---|---|
| Mae'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir gan y BBC wedi ehangu yn ystod blynyddoedd diweddar wrth i dechnoleg ddigidol greu cyfleoedd nad oedd ar gael yn ystod yr oes analog. Caniatawyd hyn o fewn fframwaith y siarter Bresennol, wedi'i alluogi gan y rhyddid cyffredinol y mae wedi'i roi i'r BBC i benderfynu beth yw'r ffordd orau o gyflawni ei dibenion cyhoeddus. | Mae gwasanaethau'r BBC wedi ehangu yn ystod blynyddoedd diweddar (gweler Blwch 3 ar dudalen 48 a 49). Ugain mlynedd yn ôl, roedd gan y BBC ddwy sianel deledu, ac ers hynny, mae'r nifer wedi cynyddu i naw (yn cynnwys BBC Parliament); mae'r Red Button yn sicrhau fod symiau sylweddol o ddeunydd darlledu ychwanegol ar gael. Mae nifer y gorsafoedd radio cenedlaethol wedi dyblu o bump i ddeg yn sgil lansio BBC1xtra, BBC Asian, BBC5 Live Sports Extra a BBC Music fel gwasanaethau digidol yn 2002 a Radio 4 Extra (Radio 7 cyn hynny) a gafodd ei ail-lansio yn 2011. Ynghyd â gwasanaethau lleol, bellach mae gan y BBC 57 o wasanaethau radio. Mae gan y BBC bresenoldeb enfawr ar-lein hefyd, ac mae ei gwasanaeth iPlayer yn llwyddiannus iawn ac fe wnaeth cyrhaeddiad wythnosol ei gwefan yn y Deyrnas Unedig gynyddu o 3.9 miliwn ym mis Medi 2002[24] i 24.7 miliwn erbyn mis Medi 2014.[25] |

| | |
|---|---|
| Gellid dadlau fod darpariaeth y gwasanaeth yn briodol ar y cyfan o gofio fod y cydbwysedd rhwng gwasanaethau traddodiadol a rhai ar-lein yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd mewn amgylchedd cyfryngau sy’n gynyddol dameidiog, ac mae’r amrywiaeth o wasanaethau hefyd yn helpu’r BBC i gyflawni ei chyrch gorchwyl presennol. Gellid dadlau hefyd fod darpariaeth o’r fath wedi chwarae rhan yn y newid i dechnoleg ddigidol ar ddiwedd y 1990au trwy ehangu’r nifer a’r math o wasanaethau am ddim i bawb oedd ar gael i wylwyr a gwrandawyr.<br><br>Fodd bynnag, â’r newid i deledu digidol bellach wedi’i gwblhau ac wrth i’r nifer o sianeli teledu a radio gynyddu ac wrth i’r rhyngrwyd aeddfedu fel llwyfan ar gyfer cynnwys radio a theledu, gellid gwrthddadlau nad oes angen i’r BBC fod yn darparu ystod mor eang o wasanaethau er mwyn cyflawni ei dibenion gwasanaeth cyhoeddus. Mae dadl hefyd y gallai rhai o’r gwasanaethau fod yn gwasanaethu cynulleidfaoedd sy’n gorgyffwrdd yn sylweddol – gan fethu bod yn ddigon gwahanol, nid yn unig i gynnyrch masnachol, ond i wasanaethau eraill y BBC hefyd. | Enghraifft ddiweddar yw adroddiad Ymddiriedolaeth y BBC a ganfu orgyffwrdd sylweddol rhwng cynulleidfaoedd Radio 1 a Radio 2[26] – rhywbeth mae’r BBC wedi ymdrechu i fynd i’r afael ag ef ers hynny. O gofio’r dewis enfawr sydd bellach ar gael i wylwyr, gellir dadlau y gallai’r BBC ganolbwyntio mwy ar set o wasanaethau craidd mwy cyfyng a all barhau i gyflawni ei chenhadaeth a’i hamcanion. Gallai BBC llai olygu fod y cyhoedd yn talu llai am eu trwydded teledu, ac mae’n debyg y byddai’r effaith ar y farchnad yn lleihau hefyd (gweler Blwch 4 ar dudalen 50/51). |

Blwch 3: Ehangu gwasanaethau'r BBC

1994-95

| | | |
|---|---|---|
| Teledu | 2 sianel | |
| Radio | 5 cenedlaethol | 39 lleol<br>6 gwlad |
| Ar-lein | Dim | |

2014-15

| | | |
|---|---|---|
| Teledu | 9 sianel | |
| Radio | 5 cenedlaethol<br>5 digidol | 40 lleol<br>6 gwlad |
| Ar-lein | BBC iPlayer<br>BBC Online<br>BBC Red Button | |

**Gwasanaethau**

**Blwch 4: Effeithiau ar y farchnad**

Mae’n bwysig ein bod yn deall yr effeithiau cadarnhaol a negyddol y gall y BBC eu cael ar y farchnad ehangach.

O ran effeithiau cadarnhaol, dywed rhai fel â ganlyn:

- Mae’r BBC yn dylanwadu ar wella safonau darlledu. Mae ffi’r drwydded yn cynnig ffynhonnell o arian sefydlog a thymor hir i’r BBC, sy’n caniatáu iddi fuddsoddi mewn cynnwys, er enghraifft, cyfresi drama blaenllaw uchel eu gwerth, a thechnoleg megis yr iPlayer. Os yw darlledwyr masnachol yn dymuno dal i fyny a darparu cynulleidfaoedd ar gyfer hysbysebwyr, mae angen iddynt gyflawni’r un ansawdd a’r un safonau â’r BBC. Gallai hyn ddarparu gwell dewis ac ansawdd ar gyfer cynulleidfaoedd.
- Gall gallu’r BBC i wario symiau mawr ar y bobl yn ei sefydliad ac ar gynnwys yn y Deyrnas Unedig arwain at effeithiau positif ar gyfer y diwydiannau creadigol, yn cynnwys cynhyrchwyr annibynnol, ac o ran hyfforddi sgiliau a doniau sy’n llesol i bartïon masnachol hefyd.

Ar y llaw arall dadleuir y canlynol:

- Gall y sector teledu masnachol wynebu anawsterau wrth geisio cystadlu â chynnwys y BBC a ddosbarthir am ddim. Er enghraifft, roedd BBC News 24, a gyflwynwyd yn 1997, wedi’i anelu at yr un farchnad â Sky News, a chaiff Channel 4 ac ITV yn benodol eu heffeithio gan ddarpariaeth y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd amser brig.
- Mae risg tymor hirach y gallai cyfran y BBC o’r farchnad radio barhau i dyfu oni bydd refeniwiau hysbysebu masnachol yn parhau yn gryf. Mae’r BBC yn cyfrif am oddeutu 60 y cant o gyfanswm refeniwiau radio, ac mae wedi meddu ar oddeutu

| | |
|---|---|
| 55 y cant o'r gyfran o'r gynulleidfa yn ystod cyfnod y Siarter bresennol.<br><br>- Mae'r BBC yn effeithio mewn sawl ffordd ar farchnadoedd ar-lein. Er enghraifft, mae poblogrwydd BBC News yn y Deyrnas Unedig (roedd gwefan BBC News yn denu 27 miliwn o ddefnyddwyr bob wythnos ar gyfartaledd ar ddechrau 2015, a dros 65 miliwn ledled y byd)[27] wedi arwain at awgrymiadau fod maint arlwy ar-lein y BBC yn rhwystro gallu darparwyr newyddion eraill yn y Deyrnas Unedig i ddatblygu modelau busnes proffidiol, megis waliau talu a thanysgrifiadau, mewn archfarchnadoedd presennol a newydd.<br><br>- Caiff rhai sectorau eu heffeithio gan fwy nag un o wasanaethau'r BBC. Mae model busnes papurau newydd lleol wedi cael ei erydu yn ystod blynyddoedd diweddar wrth i dechnolegau newydd, newidiadau mewn ymddygiad defnyddwyr, colli hysbysebion a phwysau eraill y farchnad greu heriau sylweddol. Nid yw'r BBC yn darparu gwasanaethau ar lefel mor fanwl â | darparwyr lleol, ond wrth ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys ar-lein yn ogystal ag ar radio a theledu, gallai effeithio ar ymdrechion gan grwpiau newyddion lleol i ddatblygu gwasanaethau atyniadol ar-lein yn lleol ac yn hyperleol.<br><br>- Mae gallu'r BBC i draws-hyrwyddo ei gwasanaethau yn effeithio ar y farchnad ehangach. Mae dadl o blaid y BBC yn marchnata ei gwasanaethau a'i rhaglenni ei hun, yn enwedig lle mae hynny'n cyfeirio pobl at gynnwys megis rhaglenni dogfen a a materion cyfoes na fyddent yn eu defnyddio fel arall. Ond o gofio na all gwasanaethau eraill hysbysebu eu cynnwys ar y BBC, gellid dadlau fod angen ystyried natur a maint y traws-hyrwyddo hwn. |

**Gwasanaethau**

Mae gan y BBC y potensial hefyd i weithredu fel partner effeithiol mewn nifer o farchnadoedd fel mae wedi'i wneud, er enghraifft, o fewn y sectorau celfyddydau a diwylliannol. Yn achos papurau newydd lleol a darparwyr cyfryngau lleol eraill, gall y BBC gynorthwyo i gefnogi'r diwydiant trwy amlygu cynnwys a gynhyrchir yn rhanbarthol a chydnabod yn glir pan fydd yn defnyddio straeon newyddion a grëwyd yn wreiddiol neu a ddatblygwyd gan y wasg leol.

Mae partneriaethau masnachol yn ddull mae BBC Worldwide wedi'i ddefnyddio mewn meysydd eraill, er enghraifft, mae'r BBC yn rhan o fenter ar y cyd a arweiniodd at sefydlu UKTV (sy'n cynnig chwe sianel y telir amdanynt a phedair sianel a ddarlledir am ddim) ac sydd wedi profi twf mewn refeniwiau yn ystod blynyddoedd diweddar.[28] Mae'r adran isod ynghylch gwasanaethau digidol yn cyfeirio at sut mae'r BBC wedi cychwyn archwilio llwyfannau amgen i ddarparu cynnwys, megis y cydweithio rhwng YouTube a Radio 1. Fodd bynnag, mae'r partneriaethau yn codi materion cymhleth, er enghraifft, sut bydd y BBC yn dewis ei phartneriaid.

> "
>
> Yn ystod cyfnod y Siarter bresennol, mae'r BBC wedi chwarae rhan allweddol, ar gais y Llywodraeth, yn y gwaith o ddatblygu seilwaith ddigidol ar gyfer y Deyrnas Unedig

**Gwasanaethau digidol**

O blith gwasanaethau'r BBC, gellir dadlau mai'r gwasanaeth digidol sydd wedi newid fwyaf, yn enwedig o ran datblygiad yr iPlayer. Mae'r Siarter bresennol yn cynnwys chweched diben: sicrhau fod y cyhoedd yn elwa ar dechnolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd. Mae'r BBC wedi chwarae rhan allweddol, ar gais y Llywodraeth, yn y gwaith o ddatblygu seilwaith ddigidol ar gyfer y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys:

- Buddsoddi i ymestyn cwmpas daearol digidol holl wasanaethau'r BBC i hwyluso'r Newid i Deledu Digidol (un o brosiectau peirianyddol mwyaf y Deyrnas Unedig)[29], a chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o gyflwyno Freeview, llwyfan teledu mwyaf y Deyrnas Unedig – a FreeSat – y gwasanaeth lloeren heb dâl tanysgrifio y caiff y ddau ohonynt eu rhedeg

| | |
|---|---|
| ar y cyd â darlledwyr masnachol fel mentrau ar y cyd.<br><br>- £150 miliwn y flwyddyn o 2013 i 2017 i ariannu cyflwyno band eang fel gall 95 y cant o gartrefi elwa ar fand llydan tra chyflym.[30]<br><br>- Sicrhau fod hyd at £25 miliwn ar gael rhwng 2012 a 2017 i ddatblygu seilwaith Teledu Lleol yn ogystal â £15 miliwn i ariannu cynnwys a gynhyrchir gan wasanaethau teledu lleol.[31] ac<br><br>- Ymestyn gwasanaethau Darlledu Sain Ddigidol i (DAB) i 97 y cant o gartrefi erbyn 2017 a chefnogi buddsoddiad gorsafoedd radio masnachol mewn gwasanaethau DAB i wella gwasanaethau digidol gwledydd y BBC a gwasanaethau radio lleol[32].<br><br>Ynghyd â datblygiad yr iPlayer hynod lwyddiannus, mae'r BBC bellach yn archwilio llwyfannau ar-lein newydd i ddarparu cynnwys trwy ddarparwyr megis Facebook a Netflix. Mae hefyd wedi defnyddio mathau newydd o wasanaethau digidol i ategu rhai traddodiadol, megis sianel YouTube BBC Radio 1 sydd ag 1.3 miliwn o danysgrifwyr (mae un rhan o dair ohonynt yn 13-17 mlwydd | oed) ac a arweiniodd at lansio sianel fideo arbennig Radio 1 iPlayer. Mae hyn wedi cael ei gefnogi gan ymchwil a datblygu ym maes ymddygiad cynulleidfaoedd.<br><br>Mae gan sianel Youtube **Radio 1**<br>**1.3m** o danysgrifwyr<br>⅓ ohonynt yn 13-17 mlwydd oed<br><br>Gan edrych ymlaen, mae cwestiwn pwysig ynghylch y cydbwysedd rhwng darlledu traddodiadol, ar-lein a dosbarthu digidol. Ar y naill law, trwy ddatblygu'r technolegau diweddaraf, ystyrir y gall y BBC addasu yn unol â galw newidiol defnyddwyr a pharhau i wasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol a thameidiog, yn enwedig pobl ifanc. Fodd bynnag, mae dadl i'r gwrthwyneb fod twf cyflym gwasanaethau digidol ac ar-lein yn fwy cyffredinol yn golygu fod y farchnad eisoes yn cael ei gwasanaethu'n dda, a gallai'r BBC, fel cyfranogwr pwysig, lesteirio eraill sy'n dymuno datblygu dulliau newydd o reoli a dosbarthu cynnwys. |

**Gwasanaethau**

| | |
|---|---|
| Mae dadleuon yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd ynghylch y penderfyniad i symud BBC Three ar-lein. Mae cwestiwn hefyd ynghylch rôl y BBC ym maes radio digidol (gweler Blwch 5 gyferbyn) o gofio'r angen i'r BBC fuddsoddi'n sylweddol mewn rhwydweithiau FM ac AM yn y ddeng mlynedd nesaf.<br><br>Wrth gwrs, bydd angen i unrhyw benderfyniad i ddarparu cynnwys ar amrywiaeth o lwyfannau ystyried goblygiadau ariannol y dull gweithredu hwn. Ac mae'n wir hefyd, ar waethaf y cynnydd mewn gwylio ar-lein, fod teledu a ddarlledir yn draddodiadol yn dal yn gryf; fe wnaeth adroddiad diweddaraf Marchnad Cyfathrebu Ofcom 2014 amlinellu fod gwylio byw yn dal i gyfrif am 89 y cant o gyfanswm y gwylio.[33] | **Blwch 5: Radio digidol**<br><br>Mae gwrando ar radio digidol bellach yn cyfrif am 40 y cant o'r holl wrando ar radio a bydd bron iawn 55 y cant o oedolion yn gwrando ar wasanaethau radio digidol o leiaf unwaith yr wythnos.[34] Â chefnogaeth gwasanaethau digidol masnachol newydd, mae'r diwydiant radio yn disgwyl i wrando digidol oddiweddyd gwrando analog rywbryd yn ystod 2017. Bryd hynny, bydd angen i'r Llywodraeth ystyried amserlen ar gyfer diffodd gwasanaethau radio analog yn y dyfodol ar ddyddiad sy'n debygol o gychwyn wedi 2020.<br><br>Cyrhaeddiad o 40%<br><br>Mae gwrando ar radio digidol bellach yn cyfrif am 40 y cant o'r holl wrando ar radio<br><br>55% bob wythnos<br><br>Bydd bron iawn 55 y cant o oedolion yn gwrando ar wasanaethau radio digidol o leiaf unwaith yr wythnos |

| | |
|---|---|
| Mae’r BBC wedi chwarae rhan allweddol yn natblygiad radio digidol, yn cynnwys chwarae rhan arweiniol yn natblygiad technegol Darlledu Sain Ddigidol (DAB) a gwasanaethau DAB+. Bydd cam 4 cyflwyno gwasanaeth DAB cenedlaethol y BBC (yn cwmpasu dros 97 y cant o gartrefi) yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2015. Mae’r BBC hefyd yn ariannu ehangiad sylweddol mewn gwasanaethu DAB lleol o ganlyniad i bartneriaeth unigryw â DCMS a Radio Masnachol. Dylai’r rhaglen hon gael ei chwblhau ym mis Medi 2016.<br><br>Mae dadl dros roi rhan ganolog i’r BBC yn unrhyw newid i radio digidol yn y dyfodol, fel y digwyddodd yn y rhaglen lwyddiannus newid i deledu digidol. Bydd hyn yn golygu ehangu gwasanaethau cenedlaethol y BBC i gyfateb â chwmpas ei rhwydwaith FM genedlaethol. Bydd angen buddsoddiad sylweddol yn rhwydweithiau analog y BBC ar ddechrau’r 2020au ac wedi hynny os na phennir amserlen ar gyfer y newid i ddigidol. | Bydd union rôl y BBC yn y newid yn dibynnu ar sut cynllunnir a darparir y newid i radio digidol, a bydd angen ystyried hynny pan fydd gwrando digidol wedi cyrraedd y trothwy o 50 y cant. Ond gallai gynnwys:<br><br>- cefnogi’r cyfathrebiadau tymor hir â chynulleidfaoedd a diwydiant y bydd eu hangen i gefnogi newid;<br><br>- gweithio gyda radio masnachol a diwydiant ar ddatblygiadau technegol a wnaiff wella radio digidol; a<br><br>- sicrhau fod cymorth ar gael i wrandawyr hŷn a mwy bregus, er bod ymchwil o arbrawf newid llwyddiannus yng Nghaerfaddon wedi dangos fod y broses yn llawer symlach nag yn achos teledu. |

**Gwasanaethau**

Mae oblygiadau hefyd o ran cyrchu a rheoli yn sgil sicrhau fod cynnwys y BBC ar gael ar lwyfannau eraill, pa un ai a oes rhaid talu tanysgrifiad amdanynt neu beidio. Mae'r BBC yn un o blith nifer o sefydliadau sy'n treialu system lle caiff erthyglau eu lletya ar Facebook, yn hytrach na'r defnyddiwr yn dilyn cyswllt at y BBC, sy'n codi pryderon ehangach ynghylch data defnyddwyr a'r cyd-destun y gwylir data ynddo, ac mae'r BBC wedi cydnabod hynny.

**Ymchwil a datblygu**

Dadleuir fod sector y cyfryngau ac economi'r Deyrnas Unedig wedi elwa ar rôl y BBC mewn arloesi a'r BBC yn gwneud gwaith ymchwil a datblygu na fyddai'r farchnad ehangach wedi'i wneud. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau mewn technoleg cywasgu, a datblygu safonau manylder uchel iawn, a chydweithio â grwpiau megis y Grŵp Teledu Digidol, a chyrff safonau technegol rhyngwladol. Mae'r BBC hefyd wedi gweithio gydag Innovate UK (y Bwrdd Strategaeth Technoleg) ar nifer o brosiectau yn cynnwys Thira[35] a'r RadioPlayer.

Fodd bynnag, mae cwestiynau dilys ynghylch a ddylai'r BBC barhau i geisio arwain datblygiad y dechnoleg newydd o flaen y farchnad. Roedd costau datblygu'r BBC yn £83 miliwn y llynedd.[36] Gallai rôl y BBC o ran datblygu a defnyddio technolegau newydd - yn enwedig dosbarthu ar-lein - effeithio'n negyddol ar allu cystadleuwyr masnachol i wneud arian o dechnolegau newydd, a gallai lesteirio'r gwaith o sefydlu busnesau newydd. Gallai arbedion i dalwyr ffi'r drwydded ddigwydd yn sgil y farchnad yn darparu'r datblygiadau hyn.

| |
|---|
| Cwestiwn 4<br><br>A ellir cyfiawnhau ehangiad y BBC yng nghyd-destun rhagor o ddewis ar gyfer cynulleidfaoedd? A yw'r BBC yn cymryd lle cystadleuwyr masnachol, ac os felly, a ellir cyfiawnhau hyn? |
| Cwestiwn 5<br><br>Ble mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod gan y BBC effaith ehangach gadarnhaol neu negyddol ar y farchnad? |
| Cwestiwn 6<br><br>Pa rôl ddylai'r BBC gael o ran dylanwadu'r dirwedd dechnolegol yn y dyfodol, yn cynnwys newid i radio digidol yn y dyfodol? |

**Cynulleidfaoedd**

| | |
|---|---|
| Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o gynulleidfa'r BBC a sut mae'r gwahanol is-grwpiau ynddi yn cael eu gwasanaethu. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'n llywio'r cwestiwn ynghylch pa wasanaethau y dylai'r BBC eu darparu.<br><br>"<br><br>Mae bron iawn bob oedolyn yn y Deyrnas Unedig yn defnyddio gwasanaethau'r BBC bob wythnos, sy'n golygu fod gan y BBC le canolog ym mywyd pobl. | Mae'r BBC yn cyrraedd cynulleidfa eang o fewn y BBC. Yn ôl ymchwil i gynulleidfaoedd gan y BBC, mae bron iawn bob oedolyn yn y Deyrnas Unedig yn defnyddio gwasanaethau'r BBC bob wythnos[37], sy'n golygu fod gan y BBC le canolog ym mywyd pobl.<br>Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad y BBC a bodlonrwydd pobl â hi yn amrywio ar draws grwpiau gwahanol yn y gymdeithas. Mae'n debyg fod rhai grwpiau'n cael eu gwasanaethu'n neilltuol o dda; ar y cyfan, grwpiau o bobl hŷn a phobl o gefndir ethnig gwyn Prydeinig sy'n fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau'r BBC, ac mae'r ffigyrau gwylio teledu a gwrando ar radio yn uchel iawn ymhlith y grwpiau hyn. Mae'n debyg nad yw rhai grwpiau'n cael eu gwasanaethu cystal gan raglenni presennol y BBC; dengys Arolwg Ymddiriedolaeth y BBC o Gylchoedd Gorchwyl y Dibenion mai cynulleidfaoedd o blith grwpiau ethnig du yn benodol sy'n lleiaf tebygol o ddweud fod y BBC yn cynrychioli eu hethnigrwydd yn effeithiol.[38] Nid yw hyn yn fater i'r BBC yn unig. Canfu Adolygiad Ofcom o'r PSBs fod mwy na hanner gwylwyr o gefndiroedd ethnig du yn credu eu bod yn cael eu tangynrychioli a'u cynrychioli'n negyddol gan yr holl PSBs.[39] |

Dengys data hefyd fod cynulleidfaoedd y BBC yn gyfartal ar y cyfan o ran y ddau ryw (bydd merched yn gwylio ychydig bach yn fwy o gynnwys teledu na dynion) ac o ran grwpiau cymdeithasol-economaidd.[40]

Mae defnydd o'r BBC gan wahanol grwpiau oedran hefyd yn bwysig: mae pobl ifanc 16-24 mlwydd oed yn ymgysylltu llai â theledu a radio traddodiadol nag unrhyw grŵp arall,[41] tuedd sydd wedi bod yn sefydlog dros gyfnod y Siarter bresennol ac sy'n cwmpasu'r holl sianeli darlledu teledu. Ar yr un pryd, mae aelodau'r grŵp oedran hwn yn fwy tebygol o ddweud fod gan y BBC rywbeth i'w gynnig iddynt na grwpiau eraill sy'n fwy tebygol o ymgysylltu â darlledu traddodiadol.[42] Mae Adolygiad Ofcom o'r PSBs hefyd yn codi nifer o bwyntiau perthnasol ynghylch ymddygiad cynulleidfaoedd a sut mae cynulleidfaoedd yn teimlo am ddarpariaeth PSBs.[43] Bydd deall cynulleidfaoedd y BBC a'u hanghenion gwahanol a'u parodrwydd i ariannu gwasanaethau'r BBC yn bwysig wrth ystyried maint a chwmpas gweithgareddau'r BBC yn ystod y ddegawd nesaf.

**Cynulleidfaoedd**

| | |
|---|---|
| **Lleol, rhanbarthol a chenedlaethol**<br><br>Mae gan y BBC oblygiadau clir i ddarparu gwasanaethau i'w holl gynulleidfaoedd, yn benodol yn unol â'r hyn a amlinellir o dan y pedwerydd diben cyhoeddus ('Cynrychioli'r Deyrnas Unedig, ei Gwledydd, ei Rhanbarthau a'i Chymunedau'). Yn ogystal â dod â chynulleidfaoedd ynghyd ar gyfer digwyddiadau o bwys cenedlaethol, mae angen i'r BBC hefyd gynrychioli ac adlewyrchu talwyr ffi'r drwydded, yn cynnwys i'r byd ehangach. | Mae llwyddiant y BBC wrth geisio cyflawni'r oblygiadau hyn yn gymysg. Yn ôl Ymddiriedolaeth y BBC, y llynedd roedd un o bob chwech oedolyn yn y Deyrnas Unedig yn credu fod y BBC yn perfformio'n dda o ran cynrychioli eu gwlad neu eu rhanbarth.[44] Fodd bynnag, mae sgoriau perfformiad ym maes 'Cynrychioli fy ngwlad/rhanbarth yn y newyddion/mewn drama' yn yr Alban wedi bod yn is nag yng Nghymru a Gogledd Iwerddon trwy gydol cyfnod y Siarter. Amlinellir gwybodaeth ynghylch ieithoedd lleiafrifol ym Mlwch 6 gyferbyn. |

| | |
|---|---|
| **Blwch 6: Cefnogi'r gwahanol ieithoedd brodorol o fewn Ynysoedd Prydain**<br><br>Wrth wasanaethu cymunedau penodol, mae rôl y BBC o ran cefnogi gwahanol ieithoedd brodorol Ynysoedd Prydain yn neilltuol o bwysig. Mae'n farchnad fechan sydd â photensial cyfyngedig i gael ei gwasanaethu gan ddarlledwyr masnachol, felly mae'n faes allweddol lle gall arian cyhoeddus gefnogi cynulleidfaoedd na wasanaethir yn ddigonol. Er enghraifft, mae S4C, y darlledwr cyfrwng Cymraeg, yn cael arian cyhoeddus yn uniongyrchol trwy grant gan y Llywodraeth (£6.8 miliwn y flwyddyn) a hefyd trwy ffi'r drwydded (£74.5 miliwn y flwyddyn). Darperir darlledu trwy gyfrwng Gaeleg yr Alban trwy BBC Alba, sianel bartneriaeth rhwng y BBC ac awdurdod Gaeleg yr Alban, MG Alba. | Mae bron iawn dwy ran o dair o siaradwyr ieithoedd lleiafrifol yn y Deyrnas Unedig yn dweud fod y BBC yn cefnogi eu hiaith.[45] Ond er bod y BBC a gwasanaethau a ariennir gan ffi'r drwydded yn amlwg yn golofn bwysig ar gyfer cymunedau ieithoedd brodorol, mae heriau hefyd. Mae cyfanswm y gynulleidfa a gyrhaeddir wedi bod yn gostwng yn ystod blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yng Nghymru.[46] Ac mae cost yn gysylltiedig â'r gwasanaethau hyn; mae'r gost fesul awr o gynhyrchu cynnwys radio trwy gyfrwng ieithoedd brodorol yn yr Alban a Chymru gryn dipyn yn uwch na chost cynhyrchu cynnwys cyfrwng Saesneg, sy'n codi cwestiynau ynghylch gwerth am arian.[47] |

**Blwch 6: Gwasanaethau gwledydd a rhanbarthau y BBC**

Lloegr

Cynhyrchir cynnyrch newyddion dyddiol mewn deuddeg rhanbarth yn Lloegr. 39 gwasanaeth radio lleol a 42 gwefan leol.

Gogledd Iwerddon

Dau wasanaeth radio: Radio Ulster a Radio Foyle. Trawsyrrir TG4, y gwasanaeth cyfrwng Gwyddeleg, trwy Femorandwm Dealltwriaeth â Llywodraeth Gweriniaeth Iwerddon.

Siaradwyr Gwyddeleg (2013)
201,000
(1.6% o boblogaeth GI)

Siaradwyr Sgoteg Wlster (2013)
148,000
(8.1% o boblogaeth GI)

**Yr Alban**

Pedair sianel deledu: BBC Alba, BBC One Scotland, BBC Two Scotland, BBC Two Scotland ac STV.
Dwy orsaf radio, Radio Scotland a Radio Nan Gàidheal.

Siaradwyr Gaeleg yr Alban (2013)

87,000
(1.64% o boblogaeth yr Alban)

Cymru

Pedair sianel deledu: BBC One Wales, BBC Two Wales, S4C ac ITV Cymru Wales.
Dwy orsaf radio: Radio Wales a Radio Cymru.

Siaradwyr Cymraeg (2013)
572,000
(19% o boblogaeth Cymru)

**Cynulleidfaoedd**

Cynulleidfaoedd rhyngwladol

| | |
|---|---|
| Mae gan y BBC ddiben cyhoeddus hefyd o ran mynd â'r Deyrnas Unedig i'r byd a dod â'r byd i'r Deyrnas Unedig. Mae'r gynulleidfa ryngwladol wedi cynyddu wrth i gysylltedd a'r nifer sy'n derbyn y rhyngrwyd gynyddu - mae gan oddeutu 46 y cant i gartrefi fynediad i'r rhyngrwyd heddiw o'i gymharu â 18 y cant yn 2005[48] - ac mae gwasanaethau a llwyfannau newydd yn gwella gallu cynulleidfaoedd ledled y byd i gyrchu gwasanaethau'r BBC (gweler blwch 7 ar dudalennau 66/67). Fe enghraifft o gyrhaeddiad y BBC yn fyd-eang, fe wnaeth pennod hanner canmlwyddiant *Dr Who* bennu record am y cyd-ddarllediad mwyaf erioed o raglen ddrama deledu: dangoswyd y bennod mewn 98 o wledydd ar draws chwe chyfandir, mewn 15 iaith. Mae gan y BBC gynulleidfa fyd-eang wythnosol o 308 miliwn o bobl, ac mae cynulleidfa newyddion wythnosol y BBC bellach yn 283 miliwn o bobl[49], o'i chymharu â 233 miliwn o bobl yn 2006-07.[50] Yn ychwanegol, caiff y BBC ei gwerthuso'n gyson fel y darparwr newyddion rhyngwladol mwyaf dibynadwy a mwyaf adnabyddus, ac mae cynulleidfaoedd byd-eang yn ei hystyried yn | fwy diduedd, gwrthrychol a gwell na sianeli newyddion eraill.[50] Yn y Deyrnas Unedig, mae talwyr trwyddedau teledu yn gefnogol o ddarpariaeth y BBC o'i diben sydd â ffocws rhyngwladol. *Mynd â'r Deyrnas Unedig i'r byd a dod â'r byd i'r Deyrnas Unedig* oedd y diben a gafodd y sgôr uchaf o blith yr holl ddibenion yn ystod 2013-14.[52]<br><br>Mae cynulleidfa newyddion ryngwladol wythnosol y BBC bellach yn<br><br>283m o bobl[47]<br><br>o'i gymharu â 233m yn 2006-07. |

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaethu'r gynulleidfa fyd-eang hon yn fuddiol i'r Deyrnas Unedig. Mae'r BBC yn chwarae rhan sylweddol yn y canfyddiad o'r Deyrnas Unedig ledled y byd. Bydd gan gynulleidfaoedd sy'n defnyddio gwasanaethau'r BBC yn amlach safbwyntiau mwy cadarnhaol ynghylch y Deyrnas Unedig na'r sawl sydd â llai o gysylltiad â'r BBC.[53] Mae enillion ariannol i'r Deyrnas Unedig hefyd: er bod y ddarpariaeth newyddion am ddim yn y gwledydd y darperir ar eu cyfer, bydd BBC Worldwide yn gwerthu rhaglennu i'w darlledu ledled y byd gan ddenu refeniw a gaiff ei ail-fuddsoddi yn rhaglenni'r BBC.<br><br>Tra bod y BBC wedi bod yn llwyddiannus ar y llwyfan byd-eang, mae'r llwyfan hwnnw yn newid. Mae'r rhyngrwyd yn ei gwneud hi'n haws i gyrraedd cynulleidfaoedd ledled y byd. Mae cydgyfeiriant gwahanol wasanaethau yn golygu fod y BBC yn cystadlu â chwaraewyr newydd megis Amazon, Google ac Apple. Ac ym myd y newyddion, yn ogystal â darparwyr sydd wedi ennill eu plwyf fel CNN, mae'n wynebu cystadleuaeth gynyddol gan Al-Jazeera a darlledwyr a ariennir gan y wladwriaeth yn Rwsia a Tsiena. | Yn y cyd-destun hwn, mae Tony Hall, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, wedi pennu targed uchelgeisiol o gyrraedd 500 miliwn o bobl erbyn 2022, canmlwyddiant y BBC.[54]<br><br>**Cwestiwn 7**<br><br>Pa mor dda mae'r BBC yn gwasanaethu ei chynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol? |

**Blwch 7: Cyrhaeddiad byd-eang y BBC**

Ffeithiau allweddol

Cynulleidfa fyd-eang wythnosol y BBC ar gyfer gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein (2014-15):

308m

Oedolion ledled y byd sy'n defnyddio gwasanaethau BBC News:

1 o bob 16

World Service – y gynulleidfa fwyaf mewn unrhyw wlad yw'r un yn yr Unol Daleithiau:

30m

Mae un rhan o dair o gyfanswm cynulleidfa'r World Service yn byw ar yng nghyfandir Affrica:

100m

Uchelgais y BBC i gyrraedd cynulleidfa fyd-eang o
500m o bobl erbyn 2022.

**Mae'r BBC yn rhedeg dros 100 o swyddfeydd mewn dros 70 o wledydd:**

BBC Worldwide
BBC Global News

Ffynhonnell: Cyhoeddiad gan y BBC, 21 Mai 2015
Ffynhonnell: Adroddiad gan y BBC: The economic return to the UK of the BBC's global footprint, Tachwedd 2013, t.8

**Cynnwys**

Mae’r cynnwys y mae’r BBC yn ei ddarparu i’w chynulleidfaoedd wrth wraidd ei darpariaeth o’i dibenion cyhoeddus. Mae math ac ansawdd ei chynnwys yn galluogi i’r BBC hysbysu, addysgu a diddanu. Mae sicrhau safon uchel cynnwys y BBC yn hollbwysig i sicrhau fod ei chenhadaeth yn cael ei chyflawni ac i sicrhau gwerth am arian i dalwyr ffi’r drwydded.

“

Mae strwythur ariannu unigryw y BBC, sy’n cael swm sylweddol o arian cyhoeddus, yn rhoi’r gallu i’r BBC i fentro â’r cynnwys y mae’n ei ddarparu a chyflwyno diwygiau newydd a rhai heb eu profi i’w chynulleidfaoedd.

Mae’r Cytundeb Fframwaith sy’n ategu Siarter bresennol y BBC yn nodi fod angen i gynnwys y BBC gyflawni o leiaf un o’r meini prawf canlynol: *ansawdd uchel, heriol, gwreiddiol, arloesol a deniadol*.

Mae strwythur ariannu unigryw y BBC, sy’n cael swm sylweddol o arian cyhoeddus, yn rhoi’r gallu i’r BBC i fentro â’r cynnwys y mae’n ei ddarparu a chyflwyno diwygiau newydd a rhai heb eu profi i’w chynulleidfaoedd.

Yn y cyd-destun hwn, bydd yr Adolygiad o’r Siarter yn ystyried yn benodol:

- **Cymysgedd o genres** – a yw’r BBC yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y genres
- **Ansawdd a hynodrwydd** – i ba raddau mae’r BBC yn cyflawni meini prawf y Fframwaith, a disgwyliadau cynulleidfaoedd, o ran ansawdd ac arloesedd.

Gwariant ar gynnwys yn ôl gwasanaeth

Teledu BBC ar-lein

Radio

Ffynhonnell: Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC, rhwng 2006-07 a 2014-15.

**Blwch 8: Faint mae'r BBC yn ei wario**
(cost fesul awr mewn cromfachau)

Teledu

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| £1,1434m (6.5c) | £533m (9,0c) | £114m (8.1c) | £63m (6.6c) | £100m (18.8c) | £41m (2.7c) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| £9m | £63m | £10m | **Cyfanswm** |
| | | | £2,367m |

Detholiad o wariannau eraill

| Cerddorfeydd a grwpiau perfformio eraill | Gwariant ar ddatblygu | Trwydded gweithredu BBC World Service | Costau casglu ffioedd trwyddedau teledu | Ariannu S4C yn uniongyrchol | Teledu Lleol |
|---|---|---|---|---|---|
| £33m | £83m | £254m | £101m | £76m | £24m |

Cyflwyno band eang

| | |
|---|---|
| | **Cyfanswm** |
| £150m | £720m |

Ffynhonnell: Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC, 2014-15, t. 139

Radio

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| £54m ‘ (1.1c) | £60m (0.5c) | £55m (6.4c) | £116m (1.4c) | £66m (2.5c) | £6m (1.3c) |
| £11m ‘ (2.3c) | £13m (0.9c) | £8m (0.7c) | £11m (31c) | £154m (3.8c) | £31m (6.5c) |
| £6m ‘ (18.9c) | £20m (7.0c) | £18m (19.2c) | £24m (6.3c) | **Cyfanswm** £653m | |

Ar-lein

| | |
|---|---|
| BBC Online a BBC Red Button | Cyfanswm £201m |

**Cynnwys**

Mae penderfyniadau'r BBC ynghylch y cymysgedd o genres yn elfen allweddol o safbwynt y gwerth mae'n ei ddarparu i'r cyhoedd. Caiff rhain eu pennu ar lefel uchel gan Ymddiriedolaeth y BBC trwy Drwyddedau Gwasanaethau a'u darparu gan y BBC trwy bob un o'i gwasanaethau. Mae dau brif ffordd o fesur y gymysgedd o genres o fewn gwasanaethau ac ar draws y BBC: ar deledu a radio trwy'r oriau a ddarlledir, ac ar draws teledu, radio ac ar-lein trwy gyllid (gweler Blwch 8 ar dudalennu 70/71).

**Teledu**

Roedd teledu yn cyfrif am dri chwarter (£1.89 biliwn) o wariant y BBC ar gynnwys yn 2014. Mae rhaglenni plant a rhaglenni ffeithiol yn cyfrif am dros 50 y cant o'r oriau teledu. Fodd bynnag, o gofio fod gan wahanol genres gostau gwahanol iawn, caiff rhai o symiau mwyaf o wariant y BBC eu gwario ar chwaraeon, drama a rhaglenni ffeithiol, ac maent gyda'i gilydd yn cyfrif am bron iawn hanner gwariant y BBC ar gynnwys. Mae gwariant yn ôl genre wedi newid yn sylweddol yn ystod cyfnod y Siarter bresennol, wrth i'r BBC wneud nifer o benderfyniadau strategol trwy newid nifer yr oriau yn y gwahanol genres (gweler blwch 9 ar dudalennau 74/75). Ond fel darlledwyr eraill, roedd rhaid i'r BBC ddelio â chynnydd mewn costau, er enghraifft, ym maes drama. Hefyd gwelwyd gwerth hawliau darlledu chwaraeon yn parhau i gynyddu mewn marchnad ryngwladol yn ystod cyfnod y Siarter, sy'n rhoi pwysau ar allu'r BBC i barhau i ddarlledu digwyddiadau chwaraeon o werth sylweddol megis y Pencampwriaethau Golff Agored.

**Gwariant ar gynnwys (is-gategori gwariant ar wasanaethau)[55]**

£18bn teledu

£474m radio

£125m ar-lein

**Radio**

Roedd radio yn cyfrif am oddeutu 20 y cant o wariant ar gynnwys a chyfanswm o £474 miliwn yn 2014 (gweler Blwch 8 ar dudalennau 70/71). Mae’r BBC yn gwario oddeutu 55 y cant o’i gwariant ar gynnwys ar y pum gorsaf radio genedlaethol (Radio 1, Radio 2, Radio 3, Radio 4 a Radio 5 Live), 6 y cant ar y gorsafoedd sy’n ddigidol yn unig a 39 y cant ar wledydd a gorsafoedd lleol y BBC. Mae cynulleidfaoedd radio’r BBC wedi bod yn sefydlog ar y cyfan yn ystod cyfnod y Siarter presennol.

**Ar-lein**

Mae BBC Online yn cyfrif am oddeutu 5 y cant o gyfanswm cyllideb cynnwys y BBC, sy’n gyfanswm o £125 miliwn[56], ar amrywiaeth o wasanaethau ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gwariant ar wasanaethau bwrdd gwaith, teledu, llechen a symudol y BBC sy’n cwmpasu’r amrywiaeth o gynnwys a ddarperir gan wefannau’r BBC. Mae hefyd yn cwmpasu’r gwasanaethau digidol rhyngweithiol a ddarperir trwy Red Button y BBC a’r gwasanaethau sydd ar gael trwy’r iPlayer. Mae Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC ar gyfer 2014-15 hefyd yn amlygu cyflwyniad rhaglen myBBC, sy’n caniatáu i wasanaethau’r BBC gael eu personoli ymhellach, a chychwynnodd hynny eleni â chyfleuster i bersonoli cynnwys ar ap newyddion y BBC.[57]

**Ansawdd a hynodrwydd**

Ni all y BBC gyflawni ei hamcanion oni bydd cynulleidfaoedd yn ystyried fod ei chynnwys yn ddarpariaeth ddymunol a da, yn enwedig mewn tirwedd cyfryngau sy’n gynyddol gystadleuol a byd-eang lle ceir nifer gynyddol o opsiynau o ran amser a gwariant cynulleidfaoedd.

Mae ymchwil Ymddiriedolaeth y BBC i gynulleidfaoedd yn awgrymu fod y BBC wedi bod yn weddol lwyddiannus wrth gyflawni disgwyliadau cynulleidfaoedd ynghylch ansawdd, sy’n dangos fod safbwyntiau’r cyhoedd ynghylch cynnwys ac ansawdd y BBC wedi bod yn eithaf sefydlog trwy gydol cyfnod y Siarter a bod cynulleidfaoedd ar y cyfan yn fodlon â chynnwys y BBC (gweler Blwch 10 ar dudalen 77).

**Cynnwys**

Blwch 9: Oriau teledu rhwydwaith yn ôl genre yn 2014
(ffigyrau 2006 mewn cromfachau)

**Drama**
1,344 (2,062)

**Plant**
9,074 (10,989)

**Chwaraeon**
2,073 (1,652)

**Newyddion a Thywydd**
3,705 (3,059)

**Ysgolion/ Addysgol**
309 (1,389)

**Materion Cyfoes**
917 (821)

**Comedi**
1,670 (-)

**Ffeithiol**
7,625 (5,766)

**Adloniant**
1,118 (2,384)

**Ffilm**
1,458 (1,792)

**Crefydd**
157 (181)

**Cerddoriaeth a'r Celfyddydau**
1,812 (1,612)

Ffynhonnell: Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC
Nodyn: Mae newidiadau yn nosbarthiadau genres wedi digwydd yn ystod cyfnod y Siarter bresennol

**Oriau radio yn ôl genre yn 2014**
**(ffigyrau 2006 mewn cromfachau)**

**Ysgolion/ Addysgol**
112 (169)

**Drama**
4,280 (4,719)

**Adloniant**
7,490 (3,955)

**Chwaraeon**
5,166 (4,731)

**Crefydd**
592 (1,084)

**Newyddion a Thywydd**
11,391 (12,642)

**Materion Cyfoes**
1,668 (3,470)

**Cerddoriaeth a’r Celfyddydau**
42,024 (43,096)

**Ffeithiol**
3,318 (1,575)

Ffynhonnell: Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC, 2014-15.

**Cynnwys**

| | |
|---|---|
| Agwedd hollbwysig o ansawdd, mewn perthynas â darpariaeth newyddion a materion cyfoes y BBC, yw'r angen i fod yn ddiduedd ac osgoi rhagfarn tuag at safbwyntiau neu leisiau penodol.[58] Mae hyn wedi bod yn destun nifer o adolygiadau annibynnol a mewnol, o Adroddiad yr Arglwydd Wilson (2005)[59], i Adolygiad mwy diweddar Stuart Prebble, 'Ehangder Barn a Adlewyrchir yn Allbwn y BBC', yn 2013.[60]<br><br>Mae'r ail gwestiwn ynghylch cynnwys yn ymwneud â pha un a yw'r BBC yn darparu cynnwys sy'n ddigon nodedig ar draws y fformatau gwahanol. Mae'r BBC yn darparu ystod helaeth o gynnwys ar draws llwyfannau a fyddai naill ai ddim yn cael eu darparu neu'n cael eu darparu'n annigonol gan y farchnad ehangach. Er enghraifft, cyfresi hanes naturiol nodedig megis *Planet Earth*, rhaglenni cerddoriaeth glasurol a chelfyddydau manwl ar Radio 3, cyfresi dogfen arloesol megis *The History of the World in 100 Objects* ar gyfer Radio 4, a rhaglenni gwyddoniaeth da megis *Horizon*. | Fodd bynnag, mae hefyd yn darparu amrywiaeth o raglenni y gellir dadlau eu bod yn llai nodedig na'r cynnwys a ddarperir gan gystadleuwyr masnachol. Wrth ddarparu cynnwys poblogaidd i gynulleidfaoedd, mae'r BBC yn gallu cyrraedd sylfaen ehangach o dalwyr ffi'r drwydded, ac mae elfen o raglenni poblogaidd yn hanfodol i sicrhau fod y BBC yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau y mae cynulleidfaoedd yn dymuno eu cyrchu. Fodd bynnag, mae pryderon wedi'u mynegi fod y BBC yn ymddwyn mewn modd gor-fasnachol, gan orgyffwrdd â genres a fformatau teledu a allai gael eu gwasanaethu'n dda gan ei chystadleuwyr masnachol, yn enwedig yn ystod yr oriau brig sy'n hollbwysig i'w gallu i gasglu refeniw. Gall hyn amlygu ei hyn ar lefel y gwasanaethau: mae cyllideb cynnwys Radio 6 yn £8 miliwn, o'i gymharu â chyfanswm o bron iawn £87 miliwn ar gyfer Radio 1 a 2,[61] y gellir dadlau eu bod yn llawer iawn llai nodedig, ac mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi canfod fod ei gwasanaeth sy'n gwario fwyaf, BBC1, wedi cael y sgôr isaf am fod yn 'ffres a newydd' o blith ei brif sianeli.[62] |

**Blwch 10: Beth yw barn cynulleidfaoedd ynghylch cynnwys y BBC**[63]

| | |
|---|---|
| “Mae’r BBC yn darparu rhaglenni neu gynnwys ar-lein da iawn”<br><br>76%<br><br>“Mae gan y BBC lawer o syniadau ffres a newydd”<br><br>61%<br><br>“Mae’r BBC yn cynnig ‘cryn dipyn’, ‘llawer iawn’ neu ‘bopeth y mae arnaf ei angen’”<br><br>58%<br><br>“Mae gan y BBC amrywiaeth helaeth o raglenni a chynnwys ar-lein pleserus a difyr”<br><br>74%<br><br>Ffynhonnell: Arolwg Ymddiriedolaeth y BBC o Gylchoedd Gorchwyl y Dibenion, 2013. | “Mae’r BBC yn darparu cynnwys da ar y rhyngrwyd sy’n bleserus a defnyddiol i mi”<br><br>66%<br><br>Teledu Rhyngweithiol<br><br>58%<br><br>Radio digidol DAB<br><br>46%<br><br>“Mae’r BBC yn gwneud rhaglenni a chynnwys ar-lein na fyddai unrhyw ddarlledwr arall yn eu gwneud”<br><br>49% |

**Cynnwys**

Nid yw hynny'n golygu na ddylai'r BBC fod yn ddifyr; mae'n ymwneud â'r BBC yn darparu rhaglenni nodedig ar draws yr holl genres. Er enghraifft, fe wnaeth y BBC gaffael fformat *The Voice*. Dyma raglen doniau canu a ddatblygwyd dramor, a brynwyd gan y BBC am gost y adroddwyd ei fod oddeutu £20 miliwn[64], ac mae'n debyg i *X-Factor* ITV. Mae hyn yn wahanol i *Strictly Come Dancing* a ddatblygwyd yn fewnol gan y BBC ac a werthwyd dramor wedi hynny.

Mae'r BBC wedi wynebu cwestiynau tebyg ynghylch hynodrwydd ei gynnwys radio, yn enwedig mewn perthynas â'i gorsafoedd radio yn ystod oriau brig. Mewn adroddiad diweddar ynghylch BBC Radio 1, gwasanaeth radio mwyaf 'prif ffrwd' y BBC efallai, canfu Ymddiriedolaeth y BBC fod gorgyffyrddiad y gerddoriaeth a chwaraeid ar Radio 1 o'i gymharu â phum gorsaf fasnachol gymharol yn isel, oddeutu un rhan o dair o'i allbwn.

Ar y llaw arall, canfu'r Ymddiriedolaeth hefyd fod gofyniad BBC Radio i ddarlledu 40 rhaglen ddogfen newydd bob blwyddyn, er bod yr orsaf yn cyflawni hynny, yn cael ychydig iawn o effaith ar hyn o bryd ymhlith cynulleidfaoedd. Mae'r slot darlledu presennol am 9yh ar nos Fawrth wedi'r oriau brig yn golygu mai ychydig sy'n gwrando arnynt ac mae ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd ohonynt yn isel.[65]

Yn yr un modd, mae cwestiynau wedi cael eu codi ynghylch a yw'r cynnwys ar wefan y BBC yn ddigon gwahanol i'r cynnwys a allai gael ei ddatblygu ac sy'n cael ei ddatblygu a'i ddarparu gan eraill. Mae twf y rhyngrwyd fel cyfrwng defnyddio gwybodaeth yn un o'r datblygiadau mwyaf nodedig yn ystod cyfnod y Siarter bresennol. Yn y cyd-destun hwn, yr her i'r BBC fydd sicrhau ei bod yn ddigon gwahanol i'r gweddill sydd yn y gofod ar-lein ac efallai ceisio osgoi darparu gwasanaethau megis, er enghraifft, ryseitiau, lle mae amrywiaeth o wefannau eraill eisoes yn gwneud hynny.

Ni ddylai'r BBC, fel sefydliad cyhoeddus, fod â'r un gofynion â chwmnïau masnachol, megis ceisio uchafu'r gyfran o'r gynulleidfa. Fodd bynnag, o gofio pa mor anodd yw mesur ansawdd mewn modd gwrthrychol, gall ffigyrau megis

| | |
|---|---|
| ffigyrau gwylio gael sylw gormodol gan uwch reolwyr. Rhaid holi felly, sut ddylid mesur llwyddiant rhaglenni â llawer iawn yn dibynnu ar allu'r BBC i gyflawni ei dibenion cyhoeddus trwy ei chynnwys, a sut i sicrhau fod diwylliant y BBC yn canolbwyntio ar ansawdd a hynodrwydd yn hytrach na chael ei lywio gan ffigyrau gwylio. | |

| |
|---|
| Cwestiwn 8<br><br>A yw'r BBC yn cynnig y gymysgedd briodol o genres ar draws ei gwasanaethau? |
| Cwestiwn 9<br><br>A yw safon cynnwys y BBC yn ddigon uchel, ac a yw'n ddigon gwahanol i gynnwys darlledwyr eraill? Pa ddiwygiadau allai ei wella? |

**Cynhyrchu cynnwys**

Mae'r adran hon yn ystyried y fframwaith rheoleiddio sy'n ymwneud â chynhyrchu cynnwys a'r opsiynau ar gyfer diwygio.

Mae PSBs yn parhau i chwarae rhan allweddol yn llwyddiant y sector cynyrchiadau annibynnol, gan fuddsoddi (gan gynnwys chwaraeon) £2.5 biliwn mewn cynnwys newydd yn y Deyrnas Unedig yn 2014[66], ac mae'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r buddsoddiad yn sector cynyrchiadau annibynnol y Deyrnas Unedig.

Roedd y BBC yn cyfrif am fwy na hanner (bron iawn £1.3 biliwn) o fuddsoddiadau gan PSBs yn 2014, sy'n golygu mai'r BBC yw comisiynydd mwyaf cynnwys teledu ym marchnad y Deyrnas Unedig.[67] Mae fframwaith rheoleiddio sy'n ymwneud â sut mae'r BBC yn comisiynu ac yn cynhyrchu felly yn effeithio'n sylweddol ar y sector cynyrchiadau annibynnol a'r cyfryngau a'r economi creadigol ehangach. Mae hefyd yn effeithio ar effeithlonrwydd ffi'r drwydded. Dylid nodi fod Adolygiad Ofcom wedi canfod fod buddsoddiad mewn cynnwys newydd sy'n tarddu o'r Deyrnas Unedig wedi gostwng yn ystod blynyddoedd diweddar.

“

Roedd y BBC yn cyfrif am fwy na hanner (bron iawn £1.3 biliwn) o fuddsoddiadau gan PSBs yn 2014, sy'n golygu mai'r BBC yw comisiynydd mwyaf cynnwys teledu ym marchnad y Deyrnas Unedig.

**Y system bresennol**

Mae gan y fframwaith rheoleiddio presennol sy’n ymwneud â chynhyrchu cynnwys ddwy brif elfen: cwotâu a thelerau masnachu.

**Cwotâu’r BBC**

Bydd y BBC yn comisiynu, cynhyrchu a chaffael symiau enfawr o raglenni teledu a radio a chynnwys ar-lein. Caiff yr allbwn hwn ei lywio gan gwotâu y mae angen i’r BBC eu cyflawni o ran comisiynu a chynhyrchu. Mae’r rhain yn cwmpasu cynyrchiadau annibynnol ar gyfer teledu, radio ac ar-lein yn ogystal â chynyrchiadau teledu gwreiddiol a rhanbarthol (gweler Blwch 11 ar dudalen 82). Yn ystod cyfnod y Siarter bresennol, mae’r BBC wedi cyflawni mewn cymhariaeth â’r cwotâu hyn, ac adlewyrchir hynny yn adroddiad Ymddiriedolaeth y BBC ynghylch trefniadau cyflenwi cynhyrchu cynnwys a BBC a gwasanaethau, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2015.[68]

**Cynhyrchu cynnwys**

| Blwch 11: Cwotâu cyflenwi cynnwys presennol y BBC | |
|---|---|
| Teledu<br>- Gwarantir 25 y cant o'r oriau teledu a gomisiynir gan y BBC i gynhyrchwyr annibynnol, gwarantir 50 y cant i gynhyrchwyr mewnol y BBC ac mae 25 y cant yn agored i gystadleuaeth gan gynhyrchwyr mewnol a chwmnïau cynhyrchu allanol o dan y Ffenestr Cystadlu Creadigol (WOCC).<br><br>- Mae cwotâu hefyd ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol, ar gyfer cynyrchiadau y tu allan i Lundain (50 y cant o wariant ar deledu rhwydwaith y tu allan i Lundain erbyn 2016) yn cynnwys cynyrchiadau yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon (o leiaf 17 y cant o'r gwariant ar deledu rhwydwaith). | Radio<br>- Caiff o leiaf 10 y cant o gynnwys oriau radio eu cynhyrchu'n annibynnol, ac mae 10 y cant ychwanegol ar gael trwy'r WOCC ar gyfer radio, a gyflwynwyd yn 2012.[69]<br><br>Ar-lein<br>- Y targed yw defnyddio 25 y cant o wariant ar-lein cymwys i brynu gan ddarparwyr annibynnol. |

**Telerau Masnachu**

Mae dull y BBC o gomisiynu a chynhyrchu cynnwys yn rhan o gyfundrefn reoleiddio ehangach. Mae'r Telerau Masnachu, a sefydlwyd yn 2003 i fynd i'r afael â'r sefyllfa drafod anghytbwys rhwng darlledwyr a chwmnïau llai yn y sector cynyrchiadau annibynnol, yn golygu fod rhaid i drafodaethau gydymffurfio â chod ymarfer a gymeradwywyd gan Ofcom (gweler Blwch 12 isod). O dan y system bresennol o hawliau eiddo diwylliannol sy'n gysylltiedig â rhaglenni, ar y cyfan, bydd y cwmni cynhyrchu yn cadw 85 y cant ohonynt a'r comisiynydd yn cadw 15 y cant yn unig.

**Blwch 12 Telerau Masnachu**

Mae gan ddarlledwyr hawl i ddefnyddio rhaglen nifer benodol o weithiau yn ystod y ffenestr drwyddedu gychwynnol (dwy flynedd ar y cyfan). Pan ddaw'r ffenestr i ben, gall cynhyrchwyr annibynnol gadw hawliau hawlfraint ac eiddo deallusol, a breindaliadau fideos, DVDs a nwyddau masnachol. Caiff elw net ei rannu trwy gyd-drafod hynny, ond ar y cyfan, bydd y cynhyrchwr yn cael 85 y cant a'r darlledwr yn cael 15 o'r elw.

**Cynhyrchu cynnwys**

| | |
|---|---|
| Fe wnaeth adolygiad diweddar Ofcom o PSBs ystyried a oes angen ail-gydbwyso’r Telerau Masnachu, a chyfeirir isod at ei gasgliadau.<br><br>Sail resymegol dros ddiwygio<br><br>Mae gan y system cwotâu bresennol gryfderau. Mae wedi helpu’r farchnad cynyrchiadau annibynnol i dyfu ar gyfradd o 3.4 y cant y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2009 a 2013, gan gynhyrchu refeniwiau gwerth £3 biliwn bron iawn yn 2013.[70] Mae hefyd wedi helpu i gynyddu cynhyrchu yn y gwledydd a’r rhanbarthau, ac fe wnaeth cyfanswm yr oriau rhwydwaith sy’n deillio o Lundain ostwng o 65 y cant yn 2009 i 41 y cant yn 2013.[41] Ar yr un pryd, mae wedi galluogi adran cynyrchiadau mewnol y BBC i barhau i gynhyrchu cynnwys o ansawdd uchel. | Er bod y drefn yn llwyddiannus, mae nifer o resymau dros ystyried darlun presennol cynhyrchu cynnwys trwy’r Adolygiad o’r Siarter. Yn neilltuol:<br><br>- **Effaith y system bresennol.** Mewn perthynas â rhaglenni teledu, mae’r BBC wedi awgrymu fod y strwythur bresennol yn llyffetheirio arloesedd a chreadigrwydd, gan ddadlau fod ei huned cynyrchiadau mewnol wedi’i chyfyngu i gynhyrchu cynnwys ar gyfer y BBC yn unig. Yn ychwanegol, rhaid holi a yw gweithredu’r system cwotâu yn feichus o safbwynt gweinyddol ar gyfer y BBC ac Ymddiriedolaeth y BBC.<br>- **Maint y cwotâu.** Yn achos cynnwys radio, gall safle dominyddol y BBC ym maes radio llafar, ynghyd â’r cwotâu gweddol fychan ar gyfer cynyrchiadau annibynnol, fod yn llyffetheirio sector bychan ond bywiog, sydd – fel mae’r Gwobrau Rhaglenni Radio Rhyngwladol yng Ngŵyl Efrog Newydd wedi dangos yn ddiweddar – yn darparu cynnwys a fformatau gwirioneddol arloesol. Ar 19 Mehefin, |

| | |
|---|---|
| cyhoeddodd y BBC ei bwriad i ddirwyn cwotâu radio i ben, a rhoi gwell cyfle i gynhyrchwyr annibynnol rhaglenni radio i gystadlu am gomisiynau.<br><br>- **Amrediad y cwotâu.** Yn achos cynnwys ar-lein, dylid ystyried effaith presenoldeb y BBC ar-lein ar eraill - yn enwedig darparwyr newyddion lleol, y mae rhai ohonynt wedi mynegi pryderon fod presenoldeb lleol y BBC yn effeithio'n negyddol ar y defnydd o'u cynnwys. Mae hyn yn cynnwys pryderon mewn rhai achosion fod y BBC yn defnyddio cynnwys a gyrchir oddi wrth sefydliadau newyddion lleol heb roi cydnabyddiaeth am hynny, sy'n awgrymu galwadau am sefydlu cwotâu penodol o ran newyddion lleol.<br><br>Fe wnaeth yr amgylchedd newidiol hwn annog Ymddiriedolaeth y BBC i lansio adolygiad o drefniadau cyflenwi cynnwys y BBC, a chafwyd adroddiad ar hynny ar 19 Mehefin.[72] Casglodd yr adroddiad fod dadleuon dros ddiwygio'r cwotâu sydd yn eu lle ar gyfer cynnwys teledu, radio ac ar-lein, ond dywedodd fod angen manylion llawn | cynnig BBC Studios, a amlinellir isod, a chanlyniad Trydydd Adolygiad Ofcom o'r PSBs mewn perthynas â'r sefyllfa gyffredinol ynghylch Telerau Masnachu, cyn gallu gwneud penderfyniad llawn. Cyhoeddwyd adroddiad Ofcom ar 2 Gorffennaf a chanfuwyd fod y cydgrynhoi a'r caffael fertigol (cwmnïau cynhyrchu yn cael eu caffael gan ddarlledwyr) sydd wedi digwydd ym marchnad cynyrchiadau'r Deyrnas Unedig wedi arwain at fuddion yn ogystal â risgiau ar gyfer darlledwyr. Casglodd Ofcom nad oedd yn credu fod achos cryf dros ddiwygio cwotâu cynyrchiadau annibynnol, ond byddai'n parhau i fonitro datblygiadau o gofio y bydd y sector yn parhau i newid a gallai gydgrynhoi ymhellach. Bydd y canfyddiadau hyn, yn ogystal ag unrhyw ganlyniadau pellach o adolygiadau Ymddiriedolaeth y BBC ac Ofcom, yn cael eu hystyried yn ystod yr Adolygiad o'r Siarter. |

**Cynhyrchu cynnwys**

| | |
|---|---|
| Mae tri phrif opsiwn ar gyfer diwygio'r system bresennol (yn ogystal â'r cwestiwn cysylltiedig ynghylch yr achos dros ddiwygio'r Telerau Masnachu presennol): diwygio cwotâu presennol; cynnig BBC Studios; a lleihau cynyrchiadau mewnol yn uniongyrchol. | Diwygio cwotâu presennol<br><br>Mae amrywiaeth o opsiynau ar gyfer diwygio'r system cwotâu presennol:<br><br>- ehangu'r cwotâu presennol ar gyfer cynyrchiadau annibynnol ar draws teledu, radio neu ar-lein;<br>- cynnwys cwota gofynnol ar gyfer darpariaeth newyddion lleol;<br>- ehangu Ffenestr Cystadleuaeth Greadigol (WOCC) teledu neu radio a chyflwyno WOCC a chyflwyno WOCC ar gyfer cynnwys ar-lein;<br>- adolygu trefniadau cynhyrchu rhanbarthol;<br>- asesu cwotâu yn ôl gwerth yn hytrach nag oriau; neu<br>- unrhyw gyfuniad o'r opsiynau uchod.<br><br>Byddai gan y Llywodraeth ddiddordeb penodol mewn clywed safbwyntiau ynghylch a ddylid lleihau'r gyfran o gynyrchiadau mewnol a warantir, i ganiatáu i gyfran uwch o oriau gael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol. Gellid gwneud hyn naill ai fel cwota penodol newydd ar gyfer cynhyrchwyr annibynnol, cystadleuaeth ehangach trwy'r WOCC, neu gyfuniad o'r ddau. |

| Blwch 13: Darpariaeth ranbarthol | |
|---|---|
| Mae’r BBC wedi llwyddo i symud rhannau o’i sefydliad a’i gwariant oddi allan i Lundain, gan helpu’n benodol i sbarduno canolbwynt y cyfryngau yn Salford. Fodd bynnag, erys y cwestiwn ynghylch a yw wedi llwyddo i ganfod y taeniad daearyddol priodol. Er gall costau gweithredu fod yn gysylltiedig â chael nifer o ganolbwyntiau rhanbarthol, mae rhai yn dadlau y gallai ac y dylai’r BBC wneud rhagor lle mae’n gost effeithio i wneud hynny. | Un enghraifft o’r fath yw gwariant y BBC yng Nghanolbarth Lloegr. Mae ymgyrch diweddar yn y Canolbarth wedi amlygu gwahaniaeth sylweddol rhwng cyfanswm y ffi trwyddedu teledu a gesglir yno (cyfeirir at £942 miliwn) a chyfanswm buddsoddiad y BBC yno (cyfeirir at £80 miliwn – neu 8.5 y cant). Mae’r BBC wedi amlinellu ei chynlluniau i gynyddu gwariant a nifer y swyddi yn y Canolbarth, ac i wneud Birmingham yn ganolfan rhagoriaeth ar gyfer sgiliau, hyfforddiant a datblygu yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae pryderon o’r fath yn berthnasol wrth ystyried pa mor llwyddiannus mae’r BBC wedi bod wrth gyflawni ei hoblygiadau yn ystod cyfnod y Siarter. |

**Cynhyrchu cynnwys**

| | |
|---|---|
| Cynnig BBC Studios<br><br>Mae Bwrdd Gweithredol y BBC wedi nodi ei fod yn credu fod angen newid y dull o gynhyrchu cynnwys, yn bennaf oherwydd y newidiadau ehangach dros gyfnod y Siarter bresennol, o safbwynt cyflenwi cynnwys a sut caiff ei ddosbarthu. Er enghraifft, mae’r newid i ddigidol, gwell cysylltedd a chynnydd yn y defnydd o’r rhyngrwyd wedi arwain at amrywiaeth o fodelau dosbarthu, megis sefydlu Netflix ac YouTube. | Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae’r Arglwydd Hall wedi galw am ddull gweithredu ‘cystadlu a chymharu’. Byddai hyn yn dileu cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gan y BBC, yn caniatáu i gynhyrchwyr annibynnol ymgeisio am gomisiynau gan y BBC (ac eithrio yn achos materion cyfoes, chwaraeon a chynnwys i blant) a sefydlu BBC Studios fel un o is-gwmnïau masnachol y BBC, fyddai’n gallu gwneud ceisiadau ar sail fasnachol am gomisiynau a chynhyrchu rhaglenni ar gyfer darlledwyr eraill. |

| | |
|---|---|
| Mae’r BBC yn dadlau y byddai’r cynnig hwn, nad yw ei fanylion wedi eu cyhoeddi eto ond y disgwylir y bydd yn hwyrach eleni, yn cynyddu cystadleuaeth ac amrywiaeth o ran creu rhaglenni. Byddai hefyd, dadleua’r BBC, yn delio â heriau o ran cynyrchiadau mewnol o newidiadau i’r gadwyn gyflenwi, gyda chysoni cynyddol yn y farchnad gynhyrchu.<br><br>Fodd bynnag, mae’r cynigion hyn wedi denu cryn dipyn o feirniadaeth. Byddai sefydlu uned gynhyrchu’r BBC fel is-gwmni masnachol yn creu un o gynhyrchwyr cynnwys mwyaf y Deyrnas Unedig yn cystadlu’n uniongyrchol gyda thua 400 o gwmnïau cynhyrchu yn y Deyrnas Unedig. | Mynegwyd pryderon yn gyhoeddus hefyd y byddai cam o’r fath yn arwain at bryderon Cymorth y Wladwriaeth ac y byddai angen mwy o fanylion am gyflawniad BBC Studios.74 Mae’r Llywodraeth yn gofyn am farnau ar y cynigion hyn ac yn croesawu unrhyw dystiolaeth yn sefydlu manteision posibl neu bryderon yn sgìl BBC Studios. |

**Cynhyrchu cynnwys**

| | |
|---|---|
| **Graddio cynhyrchu mewnol yn ôl yn uniongyrchol**<br><br>Fel y nodwyd uchod, y ffordd amlycaf o gynhyrchu cynnwys ar gyfer y BBC, ar draws teledu, radio ac ar-lein, yw trwy unedau cynhyrchu mewnol (yn cyflawni 55 y cant, 78 y cant a 70 y cant yn y drefn honno ar gyfer teledu ac oriau radio a gwariant ar-lein ar gyfer 2013-14). Mae nifer o fanteision i hyn, yn cynnwys dargadw hawliau eiddo deallusol, gan ganiatáu buddiannau masnachol (dan yr Amodau Masnachu presennol), datblygu gweithlu cynhyrchu medrus, a chyflawniad cynnwys o safon uchel, a groesawir. | Fodd bynnag, mae yna angen ystyried i ba raddau mae angen i'r BBC weithredu fel darparwr cynnwys sengl mwyaf y wlad, yn cyflogi oddeutu 2,000 o bobl. Er bod gan gynyrchiadau'r BBC enw da haeddiannol ar gyfer safon, gall nifer o gwmnïau cynhyrchu annibynnol gynnig gwerthoedd cynhyrchu tebyg - ac yn wir mae nifer o raglenni mwyaf enwog y BBC megis *Question Time* a *First Life* David Attenborough eisoes yn cael eu cynhyrchu gan y sector annibynnol. Yn y cyd-destun hwn y dywedodd y cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol, Arglwydd Grade, yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'i ddyfynnu yn adroddiad terfynol y Pwyllgor, y dylai'r BBC geisio rhoi prosesau a chyfleusterau cynhyrchu allan i'r "sector preifat sydd â mwy o allu i amsugno'r gwaith".[75] |

Mae cwestiynau hefyd ynghylch pa mor dda mae cynyrchiadau mewnol y BBC yn cymharu, o ran eu pris a'u hansawdd. Yn ystod blynyddoedd diweddar, pan mae'r BBC wedi cystadlu'n gyfartal â chynhyrchwyr annibynnol am gomisiynau trwy'r WOCC, mae'r BBC wedi ennill rhwng 17 a 30 y cant ohonynt yn unig (gweler blwch 14 gyferbyn). Gallai hyn awgrymu fod cwmnïau cynhyrchu annibynnol yn cynnig gwell gwerth am arian i dalwyr trwyddedu teledu. O ganlyniad, mae'r Llywodraeth yn awyddus i ddeall a oes dadleuon dros leihau galluoedd cynhyrchu'r BBC a beth fyddai effaith hynny ar gynulleidfaoedd, darlledwyr eraill ac ar y sector gynhyrchu yn ei gyfanrwydd.

Cwestiwn 10

Sut ddylai'r system o gynhyrchu cynnwys gael ei gwella trwy ddiwygio cwotâu neu ddewisiadau mwy radical?

**Blwch 14: Ffenestr Cystadleuaeth Creadigol**

Cyfran o'r holl oriau WOCC a enillwyd gan y BBC a chynhyrchwyr annibynnol yn ystod cyfnod y Siarter

Cynhyrchwyr annibynnol
BBC

Ffynhonnell:
07 – 08 – 11 – 12 Cyfanswm y data a gynhwysir yn 'Adolygiad Ymddiriedolaeth y BBC o'r WOCC ar gyfer teledu' Mawrth 2013

12 – 13 – 13 – 14 Cyfanswm y data a gynhwysir yn 'Adolygiad Ymddiriedolaeth y BBC o drefniadau'r BBC ar gyfer cyflenwi cynnwys teledu a radio a gwasanaethau ar-lein', Ionawr 2015.

# 3. Cyllid y BBC

**Cyllid y BBC**

Rydym wedi ystyried maint a chwmpas y BBC a'i dibenion, sydd yn amlwg yn gysylltiedig â chyfanswm yr arian cyhoeddus a gaiff y BBC, pwy sy'n talu amdani a sut caiff ei hariannu.

“

Mae angen trwydded ar unrhyw un yn y Deyrnas Unedig sy'n gwylio teledu yn fyw (neu bron iawn yn fyw) o unrhyw ffynhonnell.

Fe wnaeth Cyllideb Haf 2015 amlinellu nifer o ddiwygiadau a ddatblygir trwy'r Adolygiad o'r Siarter, wedi'u cynnwys mewn cytundeb gyda'r BBC i gymryd cyfrifoldeb am ariannu trwyddedau teledu am ddim i bobl sydd dros 75 mlwydd oed. Maent yn cynnwys setliad ariannol y BBC ac yn benodol lefel ffi'r drwydded (neu fodel ariannu arall), na wnaed penderfyniad yn eu cylch hyd yn hyn.

Ar hyn o bryd, mae'r BBC yn cael buddsoddiad cyhoeddus gwerth £3.7 biliwn bob blwyddyn trwy ffi'r drwydded. Ategir arian cyhoeddus gan y refeniwiau masnachol a gynhyrchir gan y BBC, sy'n golygu fod cyfanswm incwm y BBC bron iawn yn £5 biliwn y flwyddyn. Cynhyrchir refeniwiau masnachol yn bennaf trwy BBC Worldwide, a chânt eu hail-fuddsoddi yn y BBC er mwyn gweithio tuag at ei ddibenion cyhoeddus trwy ddifidend. Mae ffi'r drwydded yn ymyriad sylweddol yn y farchnad ddarlledu, ac felly mae'n briodol bod y Llywodraeth yn ystyried y mater hwn trwy'r adolygiad o'r Siarter.

| | |
|---|---|
| Mae'r bennod hon yn ystyried pedwar mater yn ymwneud ag ariannu:<br><br>- **Y model ariannu:** opsiynau ar gyfer modelau ariannu'r BBC i'r dyfodol yn cynnwys ffi'r drwydded wedi'i foderneiddio, ardoll amgen ar gyfer cartrefi ac elfennau o danysgrifiad. Bydd yr adran hon hefyd yn ystyried y mater o ddad-droseddoli osgoi talu'r ffi trwyddedu teledu.<br>- **Defnyddiau a warchodir o ffi'r drwydded**: ar gyfer beth yn union y gellir ac mae'n rhaid defnyddio ffi'r drwydded, yn cynnwys opsiwn cyllid y gellir cystadlu amdano;<br>- **Gwerth am arian ac effeithlonrwydd**: sut mae'r BBC yn gwario ei harian a'r mecanweithiau i sicrhau ei bod yn gwneud arbedion lle gellir gwneud hynny;<br>- **Gweithgareddau masnachol y BBC**: sut mae'r BBC yn cynhyrchu ei hincwm ei hun. | **Blwch 15: Incwm y BBC dros gyfnod y siarter, ym mhrisiau 2014**<br><br>**Incwm masnachol ac incwm arall**<br>**Incwm ffi'r drwydded**<br><br>Ffynhonnell: Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC |

**Cyllid y BBC**

| **Blwch 16: Hanes y ffi trwyddedu** | |
|---|---|
| Cafodd ffi'r drwydded ei lansio am y tro cyntaf yn **1923** ac roedd yn cwmpasu gwasanaethau radio yn unig. Y Swyddfa Bost oedd yn casglu'r ffi, ac roedd y Swyddfa Bost a'r Trysorlys yn cael cyfran o'r incwm.[76] Cyflwynwyd ffi cyfunol trwyddedu teledu a radio ym Mehefin **1946** i dalu am gostau gweithredu'r gwasanaeth 405-llinell (teledu analog monocrom). Yn **1968**, wedi cychwyn y darllediadau lliw, ychwanegwyd tâl atodol am deledu lliw at ffi'r drwydded, ac yn **1971**, diddymwyd trwyddedau radio yn unig.<br><br>Yn **1991**, cymerodd y BBC gyfrifoldeb am gasglu a gorfodi ffi'r drwydded oddi wrth y Swyddfa Gartref. Mae'r BBC yn gwneud y gwaith hwn o dan y nod masnach "TV Licensing". | Bellach, mae angen trwydded ar unrhyw un yn y Deyrnas Unedig sy'n gwylio teledu byw (neu bron iawn yn fyw)[77] o unrhyw ffynhonnell. Defnyddir y mwyafrif helaeth o'r incwm hwn i ddarparu gwasanaethau'r BBC, a defnyddir cyfran fechan ar gyfer prosiectau eraill sy'n cefnogi dibenion y BBC, megis y newid i ddigidol a chyflwyno band eang.<br><br>Cost bresennol trwydded teledu lliw yw **£145.50** a chost trwydded teledu du a gwyn yw **£49.00**. Mae consesiynau ar gael i bobl ddall, y sawl sy'n 75 mlwydd oed neu'n hŷn, a'r sawl sy'n byw mewn llety gofal preswyl cymwys. Caiff lefel ffi'r drwydded, y consesiynau a'r cynlluniau talu eu hamlinellu yn Rheoliadau Cyfathrebu (Trwyddedu Teledu) 2014 (fel y'u diwygiwyd). |

Dyddiadau allweddol

1923

Lansio'r ffi trwyddedu gwasanaeth diwifr cyntaf

1946

Cyflwyno'r ffi cyfunol trwyddedu teledu a radio.

1968

Ychwanegu tâl atodol am deledu lliw at ffi'r drwydded.

1971

Diddymu trwyddedau ar gyfer radio yn unig.

1991

Cymerodd y BBC gyfrifoldeb am gasglu a gorfodi ffi'r drwydded oddi wrth y Swyddfa Gartref.

**Model ariannu**

| | |
|---|---|
| Prif ffynhonnell cyllid y BBC yw ffi'r drwydded sydd wedi bodoli ar sawl ffurf ers ei sefydlu; amlinellir hynny ym Mlwch 16 ar dudalen 48.<br><br>“<br><br>Nid oes unrhyw opsiwn ariannu yn berffaith, ac maent oll yn golygu cyfaddawdau rhwng amcanion gwahanol sydd, ar brydiau, yn cystadlu. | Fel mecanwaith ariannu, mae gan ffi'r drwydded nifer o gryfderau:<br><br>- mae'n darparu cysylltiad uniongyrchol rhwng talwr ffi'r drwydded a'r gwasanaeth a ddarperir gan y BBC;<br>- mae'n darparu lefelau cyson a rhagweladwy o arian ar gyfer y BBC sy'n caniatáu i'r sefydliad fuddsoddi a darparu'r gwasanaethau rydym yn eu mwynhau heddiw;<br>- mae'n sicrhau rhywfaint o annibyniaeth oddi wrth y Llywodraeth; ac<br>- mae'n helpu'r BBC i gynhyrchu cynnwys na fyddai mathau eraill o arian (megis tanysgrifiadau) yn eu darparu efallai. |

| | |
|---|---|
| Fodd bynnag, mae ffi'r drwydded hefyd wedi cael sawl beirniadaeth:<br><br>- mae'n atchweliadol ac mae'n ofynnol i bawb dalu'r un faint, waeth beth fo'u hincwm;<br><br>- nid yw'n gysylltiedig â defnydd – bydd rhywun sy'n gwneud ychydig iawn o ddefnydd o'r BBC yn talu cymaint â rhywun sy'n gwneud defnydd helaeth ohoni.<br><br>- mae'n orfodol ar gyfer gwylio unrhyw sianel deledu, nid y BBC yn unig, sy'n golygu nad oes unrhyw ddewis i'r sawl sy'n dymuno eithrio o wasanaethau'r BBC.<br><br>- caiff ei orfodi trwy gosbau troseddol;<br><br>- mae annhegwch o ran mynnu fod angen trwydded i wylio teledu byw yn unig oherwydd mae'n cael ei ddefnyddio hefyd i ariannu cynnwys radio, ar-lein ac ar gais, yn ogystal ag ymrwymiadau eraill megis cyflwyno band eang. | **Opsiynau ar gyfer newid**<br><br>Mae amrywiaeth o opsiynau ar gyfer diwygio cyllid y BBC. Nid oes unrhyw opsiwn ariannu yn berffaith, ac maent oll yn golygu cyfaddawdau rhwng amcanion gwahanol sydd, ar brydiau, yn cystadlu (gweler Blwch 17 ar dudalen 100). Bydd dichonoldeb a dymunoldeb unrhyw opsiynau hefyd yn newid dros amser mewn ymateb i newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd a'r farchnad, felly bydd angen i unrhyw ystyriaeth o fodelau ariannu edrych yn ddeinamig ar y sefyllfa. |

**Model ariannu**

| **Blwch 17: Meini prawf y model ariannu** | |
|---|---|
| Wrth asesu cryfderau a gwendidau priodol y gwahanol fodelau, mae'n bwysig ystyried pa feini prawf sy'n ddymunol mewn model ariannu.<br><br>Efallai byddant yn cynnwys:<br><br>- **y gallu i dalu/talu'n raddol** – gan ystyried incwm uniogolion a'u gallu i dalu<br>- **tegwch** – cysylltu taliadau â gwerth y buddion a gaiff talwyr y ffi;<br>- **sicrwydd** – rhoi'r sefydlogrwydd i'r BBC i fuddsoddi mewn prosiectau tymor hir megis y Newid i Ddigidol a sicrwydd i drethdalwyr ynghylch eu rhwymedigaethau;<br>- **effeithlonrwydd** – y BBC yn sbarduno effeithlonrwydd ariannol. | - **symlrwydd a chost gweinyddu isel** – sicrhau fod y model ariannu yn syml a thryloyw a lleihau costau gweinyddu i'r eithaf;<br>- **derbynioldeb** – barn y cyhoedd am rinweddau cymharol y modelau ariannu**;**<br>- **cynaliadwyedd** – sicrhau ei bod yn ddiogel at y dyfodol gan baratoi ar gyfer newidiadau technolegol a sicrhau y bydd yn berthnasol yn y dyfodol;<br>- **dichonadwy** – gweithredu a darparu technegol, cyfreithiol ac ariannol<br>- **maint** – cynhyrchu digon o arian i dalu am wasanaethau'r BBC ac unrhyw ymrwymiadau eraill megis World Service a chyflwyno band eang (trafodir hyn yn fanylach isod yn yr adran ar ddefnyddiau gwarchodedig o arian ffi'r drwydded). |

| | |
|---|---|
| Mae dau opsiwn na ystyrir yn gyffredinol yn briodol i'r BBC, ac nid ydym yn bwriadu eu trafod yn fanwl trwy'r Adolygiad hwn o'r Siarter:<br><br>- **Ariannu yn llwyr trwy incwm hysbysebu.** Ni chaiff hyn ei ystyried yn briodol, oherwydd fel gwelwyd yn y dystiolaeth ar gyfer adolygiad *Dyfodol y BBC* gan y Pwyllgor Dethol ar Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ychydig iawn o awydd sydd yna i symud i fodel hysbysebu. Ni ddymunir model o'r fath oherwydd nid yw'r farchnad yn ddigon mawr i gynnal sefydliad o faint y BBC yn ei gyfanrwydd. Byddai mabwysiadu model o'r fath yn debygol o ddylanwadu'n negyddol ar eraill yn y farchnad, yn cynnwys gallu Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus eraill i ariannu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, a gostyngiad cyffredinol yng ngwerth hysbysebion fesul munud. Efallai byddai cynulleidfaoedd yn cael eu heffeithio'n negyddol gan newid o'r fath hefyd, oherwydd mae darlledu cynnwys heb hysbysebion yn agwedd boblogaidd o'r BBC. | - **Ariannu trwy drethi**. Ni fyddai hyn yn briodol oherwydd gallai beryglu lleihau annibyniaeth y BBC oddi wrth y Llywodraeth. Gallai hefyd arwain at ragor o ansicrwydd ynghylch cyllid, a byddai'n effeithio ar amcan gyffredinol y Llywodraeth o leihau'r diffyg ariannol.<br><br>Yn y tymor hirach, efallai bydd posibilrwydd o symud y BBC tuag at fodel tanysgrifio. Byddai hyn yn arwain at amrywiaeth o fuddion a ddaw yn sgil rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i gynulleidfaoedd dros y gwasanaethau a gânt, a byddai gorfod ysgwyddo pwysau'r farchnad yn cryfhau cymhelliant y BBC i fod yn ymatebol i gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, byddai eraill yn dadlau y byddai hyn yn tanseilio gallu'r BBC i ddarparu amrywiaeth mor helaeth o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Heb ryw elfen o gymhorthdal cyhoeddus, byddai ysgogiadau'r BBC yn fwy masnachol, ac yn sgil hynny, byddem yn disgwyl i'w hallbwn flaenoriaethu elw masnachol yn hytrach na budd cymdeithasol. |

Model ariannu

| | |
|---|---|
| Mae cwestiwn hefyd ynghylch dichonoldeb a chost. Wrth i dechnolegau newydd ei gwneud hi'n haws i ddarparwyr cynnwys reoli mynediad at gynnwys a ddarlledir, bydd dichonoldeb model tanysgrifio yn cynyddu. Ond ni fyddai modd gweithredu hyn yn gyflym. Byddai angen i symudiad i danysgrifiad llawn ddigwydd dros nifer o flynyddoedd, a byddai angen cydweithrediad rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant i baratoi at hynny, yn enwedig o ran cyflwyno technoleg cyrchu amodol. Rydym felly o'r farn y dylid ystyried hyn fel opsiwn ar gyfer y tymor hirach, a byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch hyn trwy'r Adolygiad o'r Siarter. | **Modelau ariannu**<br><br>Mae tri opsiwn a ystyrir yn gyffredinol fel y rhai mwyaf dichonol i'w cyflwyno yn y tymor byr neu'r tymor canol.<br><br>Ystyrir y rhain yn y tabl isod:<br><br>- **ffi'r drwydded wedi'i ddiwygio**<br>- **model ariannu cyhoeddus cyffredinol**, tebyg i'r 'ardoll cyfryngau' yn yr Almaen; a<br>- **chyfuniad o arian cyhoeddus a thanysgrifiad**. |

**Modelau ariannu ar gyfer y BBC**

| Opsiwn | Cryfderau a gwendidau |
|---|---|
| **Cadw ond diwygio ffi'r drwydded**<br><br>Byddai ffi'r drwydded yn cael ei gadw ond yn cael ei ddiwygio i gau'r 'bwlch' sy'n gysylltiedig â'r 'iPlayer'. | - Cadw manteision y drefn bresennol;<br>- Diddymu anghysonder y 'bwlch' sy'n gysylltiedig â'r iPlayer, gan sicrhau fod incwm y BBC yn cael ei warchod o gofio beth yw'r tueddiadau defnydd i'r dyfodol (trafodir hyn mewn adran ar wahân ar dudalen 106).<br>- Cynnal elfen o ddewis – ar hyn o bryd, dim ond y sawl sy'n defnyddio teledu byw sy'n gorfod prynu trwydded. Byddai'r dewis hwn yn parhau i roi'r dewis i bobl i beidio prynu'r drwydded os na fyddant yn defnyddio teledu byw. Fodd bynnag, efallai byddai rhai o'r unigolion hyn yn defnyddio cynnwys radio neu ar-lein a ariennir gan ffi'r drwydded nad oes angen trwydded i'w ddefnyddio, ac felly, byddent yn cael y gwasanaeth heb gyfrannu at ei gostau.<br>- Mae'n cynnal ardreth unffurf orfodol sy'n atchweliadol.<br>- Mae'r *Adolygiad o System Gorfodi Ffi'r Drwydded* (gweler tudalen 106) yn argymell na ddylid newid y drefn orfodi bresennol (tra bydd mecanwaith casglu ffi'r drwydded yn ei le) oherwydd mae'n deg a chymesur ar y cyfan). Fodd bynnag, mae'n casglu fod gorfodi yn parhau yn anodd o gofio'r angen i brofi fod teledu byw yn cael ei ddefnyddio. Mae hefyd yn argymell ystyried newidiadau er mwyn cau 'bwlch' yr iPlayer. |

**Model ariannu**

| Opsiwn | Cryfderau a gwendidau |
|---|---|
| **Ardreth gyffredinol ar gartrefi**<br><br>Mae ardreth gyffredinol ar gartrefi yn opsiwn sydd wedi cael llawer o sylw yn ddiweddar, a chafodd ei amlygu gan y Pwyllgor Dethol ar Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel y dewis mwyaf addawol yn ei adroddiad ynghylch *Dyfodol y BBC*.[78] Mae'n seiliedig ar y model Almaenaidd lle mae pob cartref yn talu ffi am ddarpariaeth cyfryngau, yn cynnwys teledu, radio, ar-lein a chynnwys ar gais. Gellid sefydlu consesiynau, er enghraifft, i roi'r dewis i'r sawl sy'n byw mewn aelwydydd meddiannaeth unigol i dalu ffi llai. | - Diddymu anghysonder 'bwlch' yr iPlayer, oherwydd byddai'r ardreth yn cael ei thalu gan bob cartref (yn amodol ar gonsesiynau ac eithriadau) waeth beth fo'u dull o ddefnyddio cynnwys y BBC.<br><br>- Cefnogi'r cysyniad o wasanaeth cyffredinol ac adlewyrchu'n well y gwasanaethau a ariennir, gan gysylltu cyllid cyhoeddus yn uniongyrchol â chynnwys radio, ar-lein a gwasanaethau eraill, yn hytrach na theledu yn unig.<br><br>- Gellid ei defnyddio i fynd i'r afael ag elfennau atchweliadol ffi'r drwydded deledu.<br><br>- Dan yr opsiwn hwn, bydd pob cartref yn cyfrannu at wasanaethau'r BBC, pa un ai a fyddant yn defnyddio cynnwys y BBC neu beidio. Fodd bynnag, bydd oddeutu 97 y cant o unigolion yn defnyddio cynnwys y BBC.[79]<br><br>- Byddai hyn yn ehangu'r sylfaen o bobl sy'n talu am y BBC ac felly gallai ganiatáu lleihad yn ffi'r drwydded neu ragor o fuddsoddiad mewn cynnwys.<br><br>- Gallai fod yn gostus i'w weithredu.<br><br>- Casglodd yr *Adolygiad o System Gorfodi Ffi'r Drwydded* y gallai newid y dull o gasglu olygu newid y dull o orfodi, yn cynnwys ailystyried yr achos dros ddad-droseddoli osgoi talu ffi'r drwydded. Nododd hefyd y byddai ardreth gyffredinol hefyd yn datrys llawer o'r pryderon sy'n rhwystro diwygio'r drefn orfodi bresennol ar hyn o bryd. |

| Dewis | Cryfderau a gwendidau |
|---|---|
| **Cymysgedd o arian cyhoeddus a thanysgrifiadau**<br><br>Mae sawl opsiwn ar gyfer model sy'n cynnwys cymysgedd o arian cyhoeddus a thanysgrifiadau. Gallai'r elfen arian cyhoeddus gadw ffi'r drwydded ar rhyw lefel neu'i gilydd, neu gyflwyno ardreth fel y disgrifir uchod. Yna, gellid gweithredu'r elfen o danysgrifio yn achos rhai elfennau o bortffolio ehangach y BBC, er enghraifft, trwy ariannu 'gwasanaeth craidd' trwy gyfrwng ffi'r drwydded â thanysgrifiad ychwanegol am wasanaethau premiwm, neu trwy wneud yr iPlayer yn wasanaeth trwy danysgrifiad yn unig. | - Darparu gwell dewis ynghylch defnydd i gynulleidfaoedd.<br><br>- Efallai na fydd y BBC yn gallu darparu 'rhywbeth i bawb' fel mae'n wneud ar hyn o bryd.<br><br>- Efallai bydd tanysgrifiad am wasanaethau premiwm yn ddrutach nag o dan y model presennol a gallai greu arbediad bychan yn unig i dalwyr ffi'r drwydded.<br><br>- Efallai bydd pecynnau 'gwasanaeth craidd' a phecynnau 'gwasanaeth premiwm' yn anodd eu pennu, yn sgil safbwyntiau amrywiol iawn ynghylch beth ddylid ei gynnwys yn y pecyn craidd.<br><br>- Byddai angen ystyried argaeledd mynediad amrywiol a thechnolegau eraill i alluogi tanysgrifiadau i gael eu casglu oddi wrth bob gwyliwr. Er enghraifft, byddai hyn yn weddol syml i'w weithredu yn achos y gwasanaethau ar-lein gan ddefnyddio technoleg waliau talu presennol. Fodd bynnag, yn achos gwasanaethau teledu, byddai angen cyflwyno seilwaith sylweddol i alluogi tanysgrifiadau. Byddai angen nifer o flynyddoedd i wneud hyn a byddai costau cysylltiedig sylweddol.<br><br>- Gall fod yn gostus i'w weithredu.<br><br>- Casglodd yr *Adolygiad o System Gorfodi Ffi'r Drwydded* y gallai newid y dull o gasglu olygu newid y dull o orfodi, yn cynnwys ailystyried yr achos dros ddad-droseddoli osgoi talu ffi'r drwydded. |

**Model ariannu**

| | |
|---|---|
| Bwlch yr iPlayer<br><br>Un maes y mae'r Llywodraeth wedi ymroddi i'w ddiwygio yw'r hyn a elwir yn 'fwlch yr iPlayer'. Pa bynnag rai o wasanaethau'r BBC a ddefnyddir (radio, ar-lein, ar gais), ar hyn o bryd, mae angen trwydded deledu i wylio gwasanaethau teledu a ddarlledir yn fyw yn unig ar hyn o bryd.[80] Mae hynny'n golygu nad oes angen trwydded ar hyn o bryd i wylio gwasanaethau ar gais neu rai dal i fyny.[81] Amcangyfrifir fod oddeutu 0.5 miliwn o bobl, oddeutu 2 y cant, yn gwylio rhaglenni ar gais neu ddal i fyny yn gyfreithlon (ar yr iPlayer a gwasanaethau eraill) ond nid ydynt yn talu ffi'r drwydded.[82] Mae'n debygol y bydd y ffigwr hwn yn cynyddu wrth i ragor o bobl ddewis gwylio ar gais yn unig. Mae rhagolygon Mediatique yn amcangyfrif y bydd cyfran cynnwys ar gais o'r teledu a wylir yn dyblu o'r 12 y cant presennol i bron iawn 25 y cant o'r holl wylio erbyn 2017.[83] | Mae hyn yn creu pedair problem:<br><br>1. **Arian** – os bydd rhagor o bobl yn gwylio rhaglenni'r BBC ar gais heb drwydded deledu (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd), bydd incwm y BBC yn gostwng.<br>2. **Tegwch** – mae'r defnydd o fwlch yr iPlayer i osgoi talu'r drwydded deledu yn annheg oherwydd mae talwyr ffi'r drwydded yn talu'r bil am ddarparu cynnwys y mae pobl sy'n gwylio cynnwys ar gais yn unig yn gallu ei fwynhau.<br>3. **Gorfodi** – mae'r gallu i atal osgoi talu yn cael ei lesteirio'n gynyddol gan fynychder derbynyddion teledu anhraddodiadol megis cyfrifiaduron llechen a ffonau symudol oherwydd mae'n haws cuddio'r rhain (neu honni defnydd cyfreithlon ohonynt) oddi wrth swyddogion gorfodi TV Licensing.<br>4. **Eglurder a symlrwydd** – gallai mynychder dyfeisiadau ynghyd â bwlch yr iPlayer greu dryswch ymhlith y cyhoedd ynghylch pwy ddylai fod yn talu am drwydded deledu. |

| | |
|---|---|
| Mae’r Llywodraeth wedi ymroddi i gyflwyno deddfwriaeth yn ystod y flwyddyn nesaf i foderneiddio ffi’r drwydded er mwyn cwmpasu teledu dal i fyny darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[84] Bydd angen i’r Adolygiad o’r Siarter ystyried sut i weithredu’r ymroddiad hwn yn y tymor byr, o dan fodel presennol ffi’r drwydded, ac yn y dyfodol, o dan unrhyw fodelau eraill. | Mae sawl dull posibl o weithredu hyn. Bydd angen i’r Adolygiad o’r Siarter hefyd ystyried ymarferoldeb gorfodi newidiadau o’r fath i fodel ffi’r drwydded, a sut bydd y newid hwn yn berthnasol i unrhyw fodelau ariannu amgen. Byddai’r Llywodraeth yn croesawu safbwyntiau ynghylch y mater hwn fel rhan o’r ymgynghoriad. |

## Model ariannu

**Gorfodi'r model ariannu**

Cyhoeddwyd yr *Adolygiad o System Gorfodi Ffi'r Drwydded* ('Adolygiad Perry') ym mis Medi 2014 i ystyried a yw'r cosbau sydd yn eu lle ar hyn o bryd am osgoi talu am drwyddedau teledu yn briodol ac yn deg, a pha un ai a yw'r gyfundrefn yn cynnig gwerth am arian da i dalwyr ffi'r drwydded a threthdalwyr. Ysgogwyd hyn gan bryderon nad yw elfen droseddol y drefn bresennol yn ymateb cymesur i'r broblem o osgoi talu am drwyddedau teledu. Yna, comisiynwyd adolygiad annibynnol gan David Perry QC.

Casglodd Adolygiad Perry na ddylid gwneud newidiadau sylfaenol i'r drefn gosbi sy'n gysylltiedig â'r system bresennol o gasglu ffi'r drwydded. Canfu'r adolygiad fod y drefn bresennol yn ymateb teg a chymesur ar y cyfan i'r broblem o osgoi talu am drwyddedau teledu (i dalwyr ffi'r drwydded a threthdalwyr).

Fodd bynnag, fe wnaeth Adolygiad Perry wneud sawl argymhelliad i wella'r drefn bresennol, yn cynnwys ystyriaeth ar frys o 'fwlch yr iPlayer'. Dylid nodi fod Adolygiad Perry wedi canolbwyntio'n benodol ar orfodi o fewn fframwaith casglu presennol ffi'r drwydded. Nodai "pe bai unrhyw newid yn y dull o gasglu...byddai symudiad at ddull arall o orfodi yn dod yn fwy ymarferol a byddai angen ystyried y cwestiwn o ddad-droseddoli unwaith eto."[85]

Bydd angen i'r Adolygiad o'r Siarter ystyried argymhellion yr *Adolygiad o System Gorfodi Ffi'r Drwydded* a'u cymhwysedd i'r model ariannu presennol a modelau ariannu amgen.

**Cwestiwn 11**

Sut ddylem ni dalu am y BBC a sut ddylid moderneiddio ffi'r drwydded?

| Blwch 18: Ffeithiau allweddol ynghylch gorfodi ffi'r drwydded deledu | |
|---|---|
| Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn gyfrifol oruchwylio'r trefniadau o gasglu ffi'r drwydded sydd wedi'u sefydlu gan Fwrdd Gweithredol y BBC, a sicrhau eu bod yn "effeithlon, priodol a chymesur". Amlinellwyd y cyfrifoldeb hwn am y tro cyntaf yn Siarter Frenhinol 2006. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn darparu adolygiad o drefniadau casglu ffi'r drwydded bob blwyddyn fel rhan o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC. | Nifer y bobl â gafwyd yn euog o drosedd trwyddedu teledu yn 2013-14.[86]<br><br>153,369<br><br>Cyfran achosion trwyddedu teledu o amser Llysoedd Ynadon[87]<br><br>0.3%<br><br>Nifer y bobl a garcharwyd am beidio talu dirwyon cysylltiedig â throsedd trwyddedu teledu yn 2013-14.[88]<br><br>32<br><br>Nifer y cartrefi sydd â thrwydded.[89]<br><br>25.4m |

**Defnydd gwarchodedig o gyllid ffi'r drwydded**

**Blwch 19: Beth mae'r ffi'r drwydded yn ei ariannu**

Defnyddir ffi'r drwydded i ariannu'r ystod lawn o wasanaethau'r BBC

| | | |
|---|---|---|
| 57 gorsaf radio | 9 sianel deledu | BBC Online |
| iPlayer a Red Button | BBC World Service | |

Yn ychwanegol, mae ffi'r drwydded yn ariannu nifer o wasanaethau a phrosiectau eraill yn cynnwys:

| | | |
|---|---|---|
| S4C (y Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus Gymraeg) | Teledu Lleol | Cyflwyno seilwaith band eang |

**Mae dau fater allweddol wrth drafod beth mae ffi'r drwydded yn ei ariannu. Yn gyntaf, pa feysydd gweithgarwch y dylai eu hariannu, ac yn ail, pa un ai a ddylai lefel eu cyllid gael ei warchod. Bydd angen ystyried y ddau yn setliad ariannol y BBC.**

Mae'r BBC eisoes wedi cytuno i'r defnydd o ffi'r drwydded y tu hwnt i ddarparu ei gwasanaethau a'i sianelau yn uniongyrchol. Fe wnaeth setliad ffi'r drwydded yn 2010 gytuno i ystod eang o weithgareddau y byddai ffi'r drwydded yn eu hariannu, yn cynnwys: World Service, S4C (y Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus Cymraeg), cyflwyno seilwaith a chynnwys teledu lleol,[90] a chyflwyno band eang cyflym iawn trwy Broadband Delivery UK.[91] Yn fwyaf diweddar, fe wnaeth y BBC gytuno i ariannu costau trwyddedau teledu am ddim i bobl sydd dros 75 mlwydd oed yng Nghyllideb Haf 2015. Bydd y BBC hefyd yn cymryd cyfrifoldeb ynghylch sut ddylid pennu'r consesiwn hwn yn ystod y senedd nesaf. Trwy gydol cyfnod yr Adolygiad o'r Siarter, bydd angen i ni ystyried y camau ymarferol sydd eu hangen er mwyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn, yn cynnwys trefniadau llywodraethu priodol.

Mae'r rhain, a defnydd blaenorol o ffi'r drwydded, wedi, er enghraifft, cefnogi cyflwyno seilwaith digidol, derbyn technolegau newydd megis y newid i ddigidol, ac amcanion polisi cyhoeddus megis helpu rhagor o bobl i 'fynd ar-lein' a darpariaeth newyddion a chynnwys rhanbarthol. Mae'r Llywodraeth wedi ymroddi i barhau i ariannu'r mentrau a wnaiff alluogi diwydiant y cyfryngau i dyfu ac arloesi, ac mae'n credu ei fod yn briodol i ffi'r drwydded (neu fodel ariannu amgen) ariannu ymrwymiadau o'r fath.[92] Trwy'r Adolygiad o'r Siarter, rydym yn dymuno trafod sut gallai dibenion cyhoeddus y BBC gael eu cefnogi fel hyn (er enghraifft, trwy gefnogi'r newid i radio digidol neu newyddion a chynnwys rhanbarthol).

**Defnydd gwarchodedig o gyllidau ffi'r drwydded**

| | |
|---|---|
| Yn setliadau blaenorol ffi'r drwydded, mae'r Llywodraeth hefyd wedi gofyn i'r BBC ymrwymo i ariannu rhai pethau ar lefel benodol (swm wedi'i glustnodi) i sicrhau fod y cyllid ar gyfer y gwasanaeth hwnnw yn dal i gael ei warchod. Yn fwyaf diweddar, mae hyn wedi cynnwys cyllid ar gyfer S4C, teledu lleol a'r World Service (gweler Blwch 19 ar dudalen 110 a Blwch 20 ar y dde). Er bod hyblygrwydd yn fantais wrth reoli cyllidebau, mewn rhai achosion, mae rheswm penodol dros sicrhau isafswm cyllid i sicrhau fod gwasanaethau penodol yn cael eu gwarchod. Yn y setliad ariannu nesaf, bydd angen i'r Llywodraeth ystyried pa wasanaethau a ddylid eu gwarchod ac rydym yn croesawu safbwyntiau ynghylch y mater hwn fel rhan o'r ymgynghoriad. | **Blwch 20: World Service**<br><br>Mae'r World Service yn parhau i gael ei werthfawrogi ledled y byd am ei newyddion cywir, diduedd ac annibynnol, ond mae wedi wynebu heriau yn ystod cyfnod y Siarter bresennol. O ganlyniad i lai o arian a'r angen i ymateb i anghenion newidiol cynulleidfaoedd, caeodd 15 o wasanaethau trwy gyfrwng ieithoedd penodol, daeth rhaglenni radio trwy gyfrwng nifer o ieithoedd i ben, a bu lleihad yn nosbarthiad gwasanaethau tonfedd fer a thonfedd ganolig. Ar waethaf hyn, mae'r World Service wedi parhau i ffynnu. Mae wedi lansio gwasanaethau teledu Arabeg a Pherseg, ac mae bellach yn darparu teledu, radio a chynnwys ar-lein trwy 29 o wasanaethau trwy gyfrwng ieithoedd gwahanol ac mae ei gynulleidfa wedi parhau i gynyddu, ac mae bellach yn 210 miliwn o bobl.[93] |

| | |
|---|---|
| Ond mae'r cyd-destun y mae'r World Service yn gweithredu ynddo yn newid. Mae cystadleuaeth gynyddol gan ddarparwyr rhyngwladol eraill megis darlledwyr gwladol Rwsia a Tsieina, ac mae ymchwil newydd yn awgrymu fod newyddion digidol yn cael ei ddominyddu gan ychydig o enwau llwyddiannus ac mae'r gweddill yn ei chael hi'n anodd cyrraedd cynulleidfa ehangach.[94] Rydym yn dymuno ystyried sut gall y rhan bwysig hon o wasanaeth y BBC barhau i gystadlu â darparwyr rhyngwladol eraill a pharhau yn berthnasol mewn amgylchedd byd-eang sy'n newid. | Trosglwyddwyd y cyllid ar gyfer y World Service i ffi'r drwydded yn ystod cyfnod y Siarter diwethaf, a dewisodd y BBC gynyddu ei gwariant ar drwyddedau gweithredu i £254 miliwn yn ystod 2014-15.[95] Nid yw lefelau cyllid 2015-16 wedi'u cadarnhau eto. Bydd sicrhau fod y World Service yn parhau i gael yr arian y mae arno ei angen yn hanfodol er mwyn caniatáu iddo barhau i gynnig gwerth am arian ar gyfer y Deyrnas Unedig. |

**Defnydd gwarchodedig o gyllidau ffi'r drwydded**

| | |
|---|---|
| **Cyllid y cystadlir amdano**<br><br>Ar hyn o bryd, caiff y rhan fwyaf o incwm ffi'r drwydded ei wario ar wasanaethau'r BBC.<br>Mewn byd lle ceir darpariaeth gynyddol a gwasanaethau cyfryngol amrywiol, ac o gofio fod darlledwyr eraill yn darparu cynnwys sydd â nodweddion gwasanaeth cyhoeddus (er enghraifft, newyddion sy'n tarddu o'r Deyrnas Unedig, drama, rhaglenni dogfen, celfyddydau, a rhaglenni plant), dylai'r Adolygiad hwn o'r Siarter ystyried a oes achos dros ganiatáu i ddarparwyr eraill allu defnyddio elfen o'r cyllid hwn. Er enghraifft, mae rhaglenni plant yn faes y mae gan y BBC fonopoli ynddo bron iawn, fel yr amlygwyd yn Adolygiad diweddar Ofcom o'r PSBs, a gallai cyfanswm bychan o gyllid y cystadlir amdano gyflwyno mwy o amrywiaeth o ddarparwyr a mwy o luosogrwydd o ran darparu gwasanaeth cyhoeddus. Cafodd yr egwyddor o gyllid y cystadlir amdano ei argymell yn flaenorol gan Banel Burns, oedd yn cynghori y tro diwethaf yr adolygwyd y Siarter. | Gallai'r BBC barhau i allu cystadlu am yr arian, neu gallai fod ar gyfer darparwyr eraill yn unig, yn cynnwys trwy drefniant arian cyfatebol. Yn achos y naill neu'r llall, byddai angen dewis sefydliad arall i oruchwylio'r gwaith o weinyddu a llywodraethu cronfa ariannol o'r fath. Gallai'r corff hwnnw fod yn gorff rheoleiddio'r BBC neu sefydliad arall. |

| Cyllid y cystadlir amdano | |
|---|---|
| **Manteision** | **Anfanteision** |
| - cyflwyno elfen o gystadleuaeth, gan annog y BBC a PSBs eraill i fod yn fwy effeithlon;<br>- gallai wella lluosogrwydd darpariaeth genres allweddol; a<br>- gallai helpu i gynnal ecosystem ehangach darlledu gwasanaeth cyhoeddus. | - creu elfen o ansicrwydd yng nghyllid y BBC, a allai wanhau ei sefydlogrwydd;<br>- gall fod yn gostus ac yn gymhleth i'w weinyddu; a<br>- gallai'r mesurau atebolrwydd ychwanegol sy'n gysylltiedig ag arian cyhoeddus leihau'r galw gan ddarlledwyr eraill.<br><br>**Cwestiwn 12**<br><br>A ddylai lefel y cyllid ar gyfer rhai gwasanaethau neu raglenni penodol gael ei warchod? A ddylai rhywfaint o gyllid fod ar gael i ddarparwyr eraill er mwyn darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus? |

**Gwerth am arian ac effeithlonrwydd**

| | |
|---|---|
| Mae'r BBC yn atebol i'r dalwyr ffi'r drwydded am ddarparu gwerth am arian yn lle'r cyllid a gaiff.[96]<br>Dros gyfnod y Siarter, bu trafodaeth gyhoeddus sylweddol ynghylch record effeithlonrwydd a gwerth am arian y BBC.<br><br>Yn dilyn setliad ariannu 2010, mae'r BBC, fel llawer o gyrff cyhoeddus eraill, wedi gorfod gwneud arbedion sylweddol. Fe wnaeth y setliad arwain at y BBC yn ymgymryd â nifer o gyfrifoldebau newydd ac fe wnaeth ffi'r drwydded barhau yn £145.50 tan 2016-17. Fe wnaeth y ffactorau hyn, yng nghyd-destun refeniwiau cynyddol o nifer fwy o gartrefi a gwasanaethau masnachol, olygu fod rhaid i'r BBC gyflawni targed arbedion effeithlonrwydd o 16 y cant dros bedair blynedd. Fe wnaeth y BBC ymateb i'r setliad ariannu trwy sefydlu menter effeithlonrwydd sylweddol (*Delivering Quality First*), gan osod targed o arbedion cylchol blynyddol gwerth £700 miliwn erbyn diwedd 2016-17 mewn cymhariaeth â llinell sylfaen 2011-12. | **Blwch 21: Prif arbedion effeithlonrwydd gan y BBC**<br><br>Mae'r prif arbedion a wnaed gan y BBC yn ystod blynyddoedd diweddar yn deillio o ostyngiadau ym meysydd biliau cyflogau, caffael, ystadau, TG a chynnwys. Er enghraifft, fe wnaeth y Gorfforaeth sicrhau gostyngiad o 17 y cant mewn termau real mewn costau staffio rhwng 2011-12 a 2013-14, a bu gostyngiad o 14 y cant yn nifer yr uwch reolwyr ers 2011, o 477 i 410; serch hynny, yn ystod dwy flynedd gyntaf *Delivering Quality First*, cafwyd gostyngiad bychan iawn yn nifer y staff (1 y cant).[97]<br><br>Mae enghraifft o sut mae'r arbedion hyn wedi digwydd yn yr isadran teledu, isadran sydd ag arbedion ariannol eithaf mawr wedi'u cynllunio o dan *Delivering Quality First,* wedi'i amlinellu gyferbyn.[98] Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos fod y gyfran uchaf o arbedion yn ystod 2013-14 wedi'u sicrhau trwy arbedion cwmpas, lle mae'r BBC yn gwneud llai, a dilynir hynny gan newidiadau i reolaeth contractau a chostau cynhyrchu. |

**Arbedion yn yr isadran teledu 2013-14**

| | |
|---|---|
| £78m<br><br>Arbedion cwmpas – gwneud llai | |
| **£2m**<br><br>Gorbenion nad ydynt yn gysylltiedig â staffio | **£29m**<br><br>Ail-drafod contractau rhaglenni a lleihau costau cynhyrchu |
| **£3m**<br><br>Incwm masnachol | **£14m**<br><br>Arbedion cynnar ac unigryw |
| **£3m**<br><br>Rheoli contractau | **£4m**<br><br>Staff a gorbenion sy’n gysylltiedig â staff |

Ffynhonnell: Reducing costs Through Delivering Quality First, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2014

**Gwerth am arian ac effeithlonrwydd**

| | |
|---|---|
| Wrth asesu *Delivering Quality First,* gwelodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod y BBC wedi canfod amrywiaeth o ddulliau o gyflawni ei thargedau effeithlonrwydd (gweler Blwch 21 ar dudalen 116/117). Er bod cynnydd wedi digwydd, mae record y BBC dros gyfnod y Siarter hefyd yn amlygu nifer o enghreifftiau lle na chafodd arian talwyr ffi'r drwydded ei ddefnyddio yn dda, neu lle codwyd cwestiynau ynghylch gwerth am arian. Er enghraifft:<br><br>- Gwariwyd £100 miliwn o incwm ffi'r drwydded gan y BBC ar ei *Menter Cyfryngau Digidol*, oedd yn ceisio darparu technoleg i alluogi i staff y BBC ddatblygu, creu a rhannu darllediadau fideo a chynnwys arall o gyfrifiaduron bwrdd gwaith. Methodd y fenter, ac ni wnaeth ddarparu unrhyw asedau diriaethol, a dywedodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, er enghraifft, 'nad oedd y bwrdd gweithredol wedi craffu'n ddigonol..'.[99] | - Mae cwestiynau wedi'u codi ynghylch y modd mae'r BBC wedi moderneiddio rhannau o'i hystâd. Er enghraifft, yn ôl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, mae gan ailwampiad gwerth £1 biliwn[100] cyfadeilad Broadcasting House yn Llundain gostau rhedeg meincnodedig llawer uwch nag adeiladau tebyg.[101]<br><br>- Er bod y BBC wedi cyfyngu ar dâl diswyddo'r holl staff i £150,000 yn ddiweddar, ni ddigwyddodd hyn nes i'r senedd roi pwysau sylweddol ar y BBC ynghylch maint a graddfa taliadau diswyddo'r BBC dros gyfnod y Siarter; roedd rhai ohonynt yn fwy na beth oedd yn ofynnol i'r BBC ei dalu.[102]<br><br>- Ar sawl cyfrif, mae tâl uwch reolwyr y BBC yn cymharu'n ffafriol â darlledwyr eraill. Er enghraifft, cafodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC becyn gwerth cyfanswm o £466,000[103] yn 2014-15, o'i gymharu â Phrif Weithredwr |

| | |
|---|---|
| ITV a gafodd becyn gwerth cyfanswm o £4.4 miliwn yn 2014.[104] Ond mae adroddiad blynyddol y BBC yn dangos fod o leiaf 74 aelod staff yn cael cyflog uwch na'r Prif Weinidog,[105] ac yn wahanol i sawl rhan arall o'r sector cyhoeddus, nid yw'r cyfanswm a gyflogir wedi gostwng yn sylweddol.[106] | - Wrth ystyried y cynigion ynghylch BBC Three a BBC One+1 yn ddiweddar, roedd rhaid i Ymddiriedolaeth y BBC gydbwyso pryderon ynghylch gwerth am arian ag effeithiau posibl ar y farchnad. Gellid dadlau, fodd bynnag, lle mae capasiti ychwanegol ar gyfer sianeli ar gael neu heb ei ddefnyddio, gallai dulliau eraill fod ar gael o sicrhau gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded (gweler Blwch 22 isod). |

| **Blwch 22: Cynigion ynghylch BBC Three a BBC One +1 – gwell gwerth am arian?** | |
|---|---|
| Yn ddiweddar, mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi ystyried cynigion gan y Gweithgor i wneud BBC Three yn wasanaeth ar-lein yn unig, i sicrhau arbedion y gellir eu gwario ar gynnwys drama, a lansio gwasanaeth 'BBC One +1'.[107]<br><br>Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi derbyn y cynnig ynghylch BBC 3, yn amodol ar ragor o ymgynghori ac amodau penodol, penderfynwyd peidio derbyn gwasanaeth BBC One+1, o gofio'r effeithiau posibl ar y farchnad ehangach. | Erys cwestiynau, fodd bynnag, ynghylch a allai'r capasiti amlbleth[108] roedd y BBC wedi bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaeth BBC One+1 newydd sicrhau rhagor o fuddion, neu trwy fod ar gael i'w ddefnyddio gan ddarlledwyr masnachol. |

**Gwerth am arian ac effeithlonrwydd**

| | |
|---|---|
| Er bod ffi'r drwydded yn rhatach na'r rhan fwyaf o becynnau teledu y telir amdanynt (mae'n costio £12 y mis o'i gymharu â chystadleuwyr masnachol sydd ar gyfartaledd yn costio lleiafswm o £20 y mis), mae'r safbwyntiau ynghylch gwerth am arian ffi'r drwydded yn dal yn gymysg. Dengys y ffigyrau diweddaraf gan y BBC fod 57y cant o atebwyr wedi dweud fod ffi'r drwydded yn cynnig gwerth am arian, ac nid yw'r sgôr hwn wedi newid rhyw lawer dros gyfnod y Siarter.[109] Mae'r gyfradd yn cynyddu yn unol â nifer y gwasanaethau a ddefnyddir: dywedodd 66 y cant o'r sawl sy'n defnyddio pob un o dri chyfrwng y BBC (teledu, radio, ar-lein), fod y BBC yn cynnig gwerth am arian da.[110]<br><br>Dengys ffigyrau diweddaraf y BBC fod 57% o atebwyr wedi dweud fod ffi'r drwydded yn cynnig gwerth am arian da. | Mae gwahaniaethau sylweddol ar draws y rhanbarthau o ran safbwyntiau ynghylch gwerth am arian y BBC. Yn yr un arolwg yn 2014, cytunai 60 y cant o'r atebwyr o Gymru fod y BBC yn cynnig gwerth am arian da iddynt, yna 58 y cant yn Lloegr, 50 y cant yn yr Alban a 47 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Mae gan grwpiau ethnig gwahanol safbwyntiau gwahanol iawn hefyd: cytunai 58 y cant o gynulleidfaoedd gwyn fod ffi'r drwydded yn cynnig gwerth am arian da, o'i gymharu â dim ond 47 y cant o blith cynulleidfaoedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.[111] |

| | |
|---|---|
| **Canfyddiad o werth am arian y BBC ar draws y rhanbarthau**<br><br>Cytunai<br><br>47% yng Ngogledd Iwerddon<br>50% yn yr Alban<br><br>60% yng Nghymru<br>58% yn Lloegr<br><br>fod y BBC yn cynnig gwerth da am arian iddynt.<br><br>**Mae gan grwpiau ethnig gwahanol safbwyntiau gwahanol iawn hefyd:**<br><br>Mae<br><br>58% o blith cynulleidfaoedd gwyn<br><br>47% o blith cynulleidfaoedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig<br><br>yn cytuno fod y BBC yn cynnig gwerth da am arian iddynt. | **Cwestiwn 13**<br><br>A yw'r BBC wedi bod yn gwneud digon i sicrhau gwerth am arian? Sut allai fynd ymhellach? |

# Gweithgareddau masnachol y BBC

**Bydd y BBC yn gwneud ac yn comisiynu cynnwys sy'n boblogaidd ymhlith cynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig a ledled a byd. Mae'r Siarter bresennol yn caniatáu i'r BBC wneud amrywiaeth o weithgareddau masnachol er mwyn ennill arian y gellir ei ail-fuddsoddi yn ei rhaglenni.**

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar hyn; dylai unrhyw weithgarwch masnachol gyd-fynd â'r dibenion cyhoeddus, bod yn effeithlon yn fasnachol, peidio peryglu enw da'r BBC a dilyn rheolau masnachu teg.

Mae gweithgareddau masnachol y BBC wedi'u canolbwyntio ar is-gwmni mwyaf y BBC, BBC Worldwide. BBC Worldwide yw dosbarthwr teledu mwyaf y byd y tu allan i stiwdios mawr yr Unol Daleithiau,[112] a bydd yn marchnata cynnwys y BBC yn y Deyrnas Unedig ac yng ngweddill y byd. Bydd yn cynhyrchu oddeutu £1 biliwn y flwyddyn. Bydd y BBC hefyd yn ennill £90 miliwn o werthiant trwy Global News, sy'n rhedeg BBC.com ledled y byd, a £30 miliwn trwy BBC Studios a Post Production, sy'n rhentu gofod cynhyrchu'r BBC. Yn y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaeth Worldwide ddychwelyd £227 miliwn i'r gorfforaeth.[113] Ynghyd â chefnogi cynnwys a gynhyrchir yn fewnol, mae Worldwide trwy hynny yn cefnogi cynhyrchwyr annibynnol sy'n cynhyrchu cynnwys a gomisiynir gan y BBC, a thrwy gyfrwng BBC Worldwide, gallant elwa ar faint a chyrhaeddiad marchnata byd-eang y BBC.

Wrth bennu'r ffordd orau o sicrhau gwerth i'r Gorfforaeth, mae BBC Worldwide wedi profi amrywiaeth o strategaethau. Mae elw BBC Worldwide wedi tyfu ers cychwyn cyfnod y Siarter, a chafwyd llwyddiannau rhyngwladol sylweddol megis *Sherlock*, *Doctor Who*, *Strictly Come Dancing*, a *Dancing with the Stars*. Fodd bynnag, ni fu'r holl benderfyniadau yn llwyddiannus, er enghraifft, fe wnaeth Worldwide gaffael *Lonely Planet*, cyhoeddwr arweinlyfrau teithio, ac yna, fe wnaeth ei werthu gan wneud colled sylweddol. Mae Worldwide

bellach wedi cyfyngu ar ei bortffolio o weithgareddau, ac mae'n canolbwyntio ar farchnata cynnwys y BBC.

Mater cyson sy'n effeithio ar strategaeth fyd-eang BBC Worldwide yw ei allu i gael cyllid: mae'n rhaid iddo ddilyn rheolau gwariant cyrff cyhoeddus, felly mae'r arian y gall ei fenthyca wedi'i gyfyngu i £350 miliwn, a phennwyd hynny gan y Llywodraeth. Yn ôl rhai, mae hyn yn rhwystro gallu BBC Worldwide i ddatblygu marchnadoedd tramor mawr megis yr Unol Daleithiau.

Wrth i gynulleidfaoedd byd-eang barhau i ehangu, mae'r cyfleoedd i sbarduno twf mewn refeniw hefyd yn ehangu. Yn amlwg, mae gwneud y gorau o raglenni presennol y BBC yn beth da, a gall helpu'r BBC i barhau i fuddsoddi mewn cynnwys o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mae nifer o ffactorau eraill i'w hystyried. Mae'n bwysig i dalwyr ffi'r drwydded yn y Deyrnas Unedig nad yw allbwn y BBC yn cael ei lywio gan yr ystyriaeth o'i werth manwerthu mewn marchnadoedd rhyngwladol. Yn yr un modd, rhaid ystyried yn ddifrifol beth yw effaith gwerthu eiddo deallusol y BBC ar Ddarlledwyr a chynhyrchwyr eraill y Deyrnas Unedig, sydd hefyd efallai yn ceisio marchnata cynnwys o Brydain i gynulleidfa ryngwladol. Yn y cyd-destun hwn, bydd yr Adolygiad o'r Siarter yn ystyried yr amrediad llawn o opsiynau ar gyfer diwygio gweithgareddau masnachol y BBC, yn cynnwys preifateiddio Worldwide yn rhannol neu yn llawn.

**Cwestiwn 14**

Sut ddylai gweithgareddau masnachol y BBC, yn cynnwys BBC Worldwide, gael eu diwygio?

**Gwerth am arian ac effeithlonrwydd**

| | |
|---|---|
| Er bod ffi'r drwydded yn rhatach na'r rhan fwyaf o becynnau teledu y telir amdanynt (mae'n costio £12 y mis o'i gymharu â chystadleuwyr masnachol sydd ar gyfartaledd yn costio lleiafswm o £20 y mis), mae'r safbwyntiau ynghylch gwerth am arian ffi'r drwydded yn dal yn gymysg. Dengys y ffigyrau diweddaraf gan y BBC fod 57y cant o atebwyr wedi dweud fod ffi'r drwydded yn cynnig gwerth am arian, ac nid yw'r sgôr hwn wedi newid rhyw lawer dros gyfnod y Siarter.[109] Mae'r gyfradd yn cynyddu yn unol â nifer y gwasanaethau a ddefnyddir: dywedodd 66 y cant o'r sawl sy'n defnyddio pob un o dri chyfrwng y BBC (teledu, radio, ar-lein), fod y BBC yn cynnig gwerth am arian da.[110]<br><br>Dengys ffigyrau diweddaraf y BBC fod 57% o atebwyr wedi dweud fod ffi'r drwydded yn cynnig gwerth am arian da. | Mae gwahaniaethau sylweddol ar draws y rhanbarthau o ran safbwyntiau ynghylch gwerth am arian y BBC. Yn yr un arolwg yn 2014, cytunai 60 y cant o'r atebwyr o Gymru fod y BBC yn cynnig gwerth am arian da iddynt, yna 58 y cant yn Lloegr, 50 y cant yn yr Alban a 47 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Mae gan grwpiau ethnig gwahanol safbwyntiau gwahanol iawn hefyd: cytunai 58 y cant o gynulleidfaoedd gwyn fod ffi'r drwydded yn cynnig gwerth am arian da, o'i gymharu â dim ond 47 y cant o blith cynulleidfaoedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.[111] |

| **Canfyddiad o werth am arian y BBC ar draws y rhanbarthau**<br><br>Cytunai<br><br>47%<br>yng Ngogledd Iwerddon<br><br>50%<br>yn yr Alban<br><br>60%<br>yng Nghymru<br><br>58%<br>yn Lloegr<br><br>fod y BBC yn cynnig gwerth da am arian iddynt.<br><br>**Mae gan grwpiau ethnig gwahanol safbwyntiau gwahanol iawn hefyd:**<br><br>Mae<br><br>58% o blith cynulleidfaoedd gwyn<br><br>47% o blith cynulleidfaoedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig<br><br>yn cytuno fod y BBC yn cynnig gwerth da am arian iddynt. | **Cwestiwn 13**<br><br>A yw'r BBC wedi bod yn gwneud digon i sicrhau gwerth am arian? Sut allai fynd ymhellach? |
|---|---|

**Gweithgareddau masnachol y BBC**

Bydd y BBC yn gwneud ac yn comisiynu cynnwys sy'n boblogaidd ymhlith cynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig a ledled a byd. Mae'r Siarter bresennol yn caniatáu i'r BBC wneud amrywiaeth o weithgareddau masnachol er mwyn ennill arian y gellir ei ail-fuddsoddi yn ei rhaglenni.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar hyn; dylai unrhyw weithgarwch masnachol gyd-fynd â'r dibenion cyhoeddus, bod yn effeithlon yn fasnachol, peidio peryglu enw da'r BBC a dilyn rheolau masnachu teg.

Mae gweithgareddau masnachol y BBC wedi'u canolbwyntio ar is-gwmni mwyaf y BBC, BBC Worldwide. BBC Worldwide yw dosbarthwr teledu mwyaf y byd y tu allan i stiwdios mawr yr Unol Daleithiau,[112] a bydd yn marchnata cynnwys y BBC yn y Deyrnas Unedig ac yng ngweddill y byd. Bydd yn cynhyrchu oddeutu £1 biliwn y flwyddyn. Bydd y BBC hefyd yn ennill £90 miliwn o werthiant trwy Global News, sy'n rhedeg BBC.com ledled y byd, a £30 miliwn trwy BBC Studios a Post Production, sy'n rhentu gofod cynhyrchu'r BBC. Yn y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaeth Worldwide ddychwelyd £227 miliwn i'r gorfforaeth.[113] Ynghyd â chefnogi cynnwys a gynhyrchir yn fewnol, mae Worldwide trwy hynny yn cefnogi cynhyrchwyr annibynnol sy'n cynhyrchu cynnwys a gomisiynir gan y BBC, a thrwy gyfrwng BBC Worldwide, gallant elwa ar faint a chyrhaeddiad marchnata byd-eang y BBC.

Wrth bennu'r ffordd orau o sicrhau gwerth i'r Gorfforaeth, mae BBC Worldwide wedi profi amrywiaeth o strategaethau. Mae elw BBC Worldwide wedi tyfu ers cychwyn cyfnod y Siarter, a chafwyd llwyddiannau rhyngwladol sylweddol megis *Sherlock*, *Doctor Who*, *Strictly Come Dancing*, a *Dancing with the Stars*. Fodd bynnag, ni fu'r holl benderfyniadau yn llwyddiannus, er enghraifft, fe wnaeth Worldwide gaffael *Lonely Planet*, cyhoeddwr arweinlyfrau teithio, ac yna, fe wnaeth ei werthu gan wneud colled sylweddol. Mae Worldwide

bellach wedi cyfyngu ar ei bortffolio o weithgareddau, ac mae'n canolbwyntio ar farchnata cynnwys y BBC.

Mater cyson sy'n effeithio ar strategaeth fyd-eang BBC Worldwide yw ei allu i gael cyllid: mae'n rhaid iddo ddilyn rheolau gwariant cyrff cyhoeddus, felly mae'r arian y gall ei fenthyca wedi'i gyfyngu i £350 miliwn, a phennwyd hynny gan y Llywodraeth. Yn ôl rhai, mae hyn yn rhwystro gallu BBC Worldwide i ddatblygu marchnadoedd tramor mawr megis yr Unol Daleithiau.

Wrth i gynulleidfaoedd byd-eang barhau i ehangu, mae'r cyfleoedd i sbarduno twf mewn refeniw hefyd yn ehangu. Yn amlwg, mae gwneud y gorau o raglenni presennol y BBC yn beth da, a gall helpu'r BBC i barhau i fuddsoddi mewn cynnwys o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mae nifer o ffactorau eraill i'w hystyried. Mae'n bwysig i dalwyr ffi'r drwydded yn y Deyrnas Unedig nad yw allbwn y BBC yn cael ei lywio gan yr ystyriaeth o'i werth manwerthu mewn marchnadoedd rhyngwladol. Yn yr un modd, rhaid ystyried yn ddifrifol beth yw effaith gwerthu eiddo deallusol y BBC ar Ddarlledwyr a chynhyrchwyr eraill y Deyrnas Unedig, sydd hefyd efallai yn ceisio marchnata cynnwys o Brydain i gynulleidfa ryngwladol. Yn y cyd-destun hwn, bydd yr Adolygiad o'r Siarter yn ystyried yr amrediad llawn o opsiynau ar gyfer diwygio gweithgareddau masnachol y BBC, yn cynnwys preifateiddio Worldwide yn rhannol neu yn llawn.

**Cwestiwn 14**

Sut ddylai gweithgareddau masnachol y BBC, yn cynnwys BBC Worldwide, gael eu diwygio?

# 4. Llywodraethu a rheoleiddio’r BBC

## Llywodraethu a rheoleiddio'r BBC

Mae llywodraethu a rheoleiddio da yn hanfodol i sicrhau llwyddiant y BBC. Dyna sy'n sicrhau fod y BBC yn gwneud beth ddylai wneud. Mae'n golygu datblygu'r fframweithiau priodol o ran atebolrwydd, cymhellion, rhwystrau a gwrthbwysau sy'n angenrheidiol i sicrhau fod y BBC yn darparu ar gyfer talwyr ffi'r drwydded, yn ystyried ei heffaith ar y farchnad, yn gwario ei harian yn ddoeth ac yn cael ei galw i gyfrif wrth wneud hynny.

“

Mae llywodraethu a rheoleiddio da yn rhag-amod, ond nid ydynt yn gwarantu llwyddiant y BBC i'r dyfodol

Mae sicrhau fod y fframwaith hwn yn briodol yn hollbwysig - ond nid yw'n ddigon ar ei ben ei hun. Mae ar y BBC hefyd angen y bobl, yr ymddygiad a'r diwylliant cyfundrefnol priodol i ffynnu. Mae llywodraethu a rheoleiddio da yn rhag-amod, ond nid ydynt yn gwarantu llwyddiant y BBC i'r dyfodol.

Mae'r adran hon felly yn ystyried:

- Y model presennol; ac
- Opsiynau ar gyfer diwygio.

Mae hefyd yn ystyried amrywiaeth o faterion llywodraethu ehangach:

- Trwyddedau Gwasanaethau a Phrofion Gwerth Cyhoeddus;
- Atebolrwydd cyhoeddus a democrataidd; a'r
- Siarter Frenhinol

| Blwch 23: Sut sefydlwyd y model Ymddiriedolaeth | |
|---|---|
| Tan 2007, roedd gan y BBC Fwrdd o Lywodraethwyr oedd yn gyfrifol am weithredu fel ymddiriedolwyr y budd cyhoeddus trwy oruchwylio unrhyw gwynion, cymeradwyo cyfeiriad strategol y BBC, penodi'r Rheolwr Gyfarwyddwr a sicrhau fod rheolwyr y BBC yn gweithredu ei strategaeth. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gyfrifol am gymeradwyo gwasanaethau newydd.<br><br>Bu rhywfaint o feirniadaeth o'r model hwn, yn enwedig y ffaith fod disgwyl i'r Bwrdd Llywodraethwyr roi anogaeth i'r BBC a bod yn feirniadol ohoni, felly fe wnaeth y model arwain at ddiffyg eglurder rhwng y swyddogaethau llywodraethu a rheoleiddio, ac yn y pen draw, roedd yn anghynaladwy. Arweiniodd hyn at ganfyddiad nad oedd y BBC wedi cael ei rhedeg er budd talwyr ffi'r drwydded, ac nad oedd gan y trefniadau ddigon o dryloywder ac atebolrwydd. | Yn 2005, fe wnaeth panel annibynnol wedi'i gadeirio gan yr Arglwydd Burns, a benodwyd gan y Llywodraeth, argymell y dylid sefydlu Comisiwn Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (PSBC) yn lle'r Bwrdd Llywodraethwyr.<br><br>Argymhellwyd y dylai'r PSBC gynghori Gweinidogion ynghylch lefel ffi'r drwydded, yn ogystal â chymryd y cyfrifoldebau rheoleiddio oedd gan y Llywodraethwyr, a gweithredu elfen y cystadlir amdano o ffi'r drwydded. Fe wnaeth y panel hefyd argymell creu bwrdd unedol. Yna, fe wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol bryd hynny wrthod yr argymhelliad, a chyflwynodd y model Ymddiriedolaeth yn lle hynny. |

**Y model presennol**

| | |
|---|---|
| Mae’r BBC yn sefydliad unigryw, ac fe wnaeth y Siarter diwethaf greu model llywodraethu a rheoleiddio oedd â’r nod o geisio mynd i’r afael â diffygion y model blaenorol o Fwrdd Llywodraethwyr (gweler Blwch 23 ar dudalen 131) gan barchu annibyniaeth y BBC ar yr un pryd. Canlyniad hyn oedd sefydlu’r model Ymddiriedolaeth. Cafwyd nifer o ddatblygiadau newydd eraill hefyd, megis Profion Gwerth Cyhoeddus a Thrwyddedau Gwasanaethau, a gwelliannau mewn meysydd megis tryloywder a chwynion, a drafodir mewn adrannau diweddarach. | Mae tri grŵp allweddol yn cyfrannu at system llywodraethu a rheoleiddio presennol y BBC: Ymddiriedolaeth y BBC, Bwrdd Gweithredol y BBC ac Ofcom.<br><br>Ymddiriedolaeth y BBC, a ddisgrifir uchod, yw corff sofran y BBC. Y cadeirydd presennol yw Rona Fairhead, ac fel Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth, gellir ei galw hefyd yn Gadeirydd y BBC. Prif nodau’r Ymddiriedolaeth yw gweithredu fel stiwardiaid ffi’r drwydded, gwarchod y budd cyhoeddus a hybu’r dibenion cyhoeddus. Wrth wneud hyn, mae’r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y BBC, cymeradwyo’r strategaeth lefel uchel a chyllidebau gwasanaethau, a dal y Bwrdd Gweithredol i gyfrif |

wrth gyflawni hyn. Mae hyn y golygu ei bod yn pennu beth ddylai bob gwasanaeth wneud, penderfynu sut ddylent gael eu hasesu, monitro cydymffurfiaeth a chymeradwyo unrhyw newidiadau. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn annibynnol ar y Bwrdd Gweithredol, ac mae ganddi ei chyllideb a'i staff ei hun - yr hyn sy'n cyfateb i 61.8 aelod staff amser llawn a gwariant o £10 miliwn yn 2014-15.

**Y model presennol**

| | |
|---|---|
| Mae'r **Bwrdd Gweithredol** yn cynnwys cymysgedd o aelodau Gweithredol ac Anweithredol, ynghyd â'r Cadeirydd, a all fod yn aelod anweithredol neu'n Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC. Ers creu'r model llywodraethu presennol, Cadeirydd y bwrdd Gweithredol i bob pwrpas yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol (Tony Hall ar hyn o bryd). Rôl y Bwrdd Gweithredol, yn gryno, yw rhedeg y BBC. Mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC a'i hallbwn golygyddol a chreadigol, a rheoli'r BBC. Bydd yn gwneud hyn oll yn unol â'r strategaethau a'r blaenoriaethau a bennir gan yr Ymddiriedolaeth. | Mae rôl **Ofcom** mewn perthynas â llywodraethu a rheoleiddio'r BBC yn bwysig. Fel y corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am y dirwedd darlledu a thelathrebu ehangach, mae ganddo amrywiaeth o ddyletswyddau sy'n ymwneud â'r BBC yn uniongyrchol ac o ran pennu'r fframwaith ehangach. Mae elfennau allweddol y rhain y cynnwys rheoleiddio cynnwys a ddarlledir (er enghraifft, mewn perthynas â materion megis niwed a thramgwydd), trin a thrafod cwynion am y materion hyn, cyfrannu at ymgynghoriadau ynghylch pennu cwotâu, a'i rôl mewn Asesiadau o Effaith ar y Farchnad – trafodir rhai o'r meysydd hyn yn ddiweddarach yn yr adran hon.<br><br>Mae gan y model Llywodraethu presennol nifer o fanteision. Wrth wahanu rolau Ymddiriedolaeth a Bwrdd Gweithredol y BBC, a sicrhau fod ganddynt staff, cyllid ac adroddiadau cyhoeddus ar wahân, mae mwy o bellter rhwng elfennau rheoleiddio rôl yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol nag oedd o dan y model Llywodraethwyr. Mae hyn wedi helpu i sicrhau fod y BBC yn cael ei dal i gyfrif yn fwy caeth. Mae rhoi cyfrifoldeb penodol i Ymddiriedolaeth y BBC |

| | |
|---|---|
| dros gynrychioli talwyr ffi'r drwydded yn cydnabod pwysigrwydd eu buddiannau, ac yn ystod cyfnod y Siarter diwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu amrywiaeth o fecanweithiau i ymgysylltu â'r cyhoedd. Trwy gyflwyno amrywiaeth o fecanweithiau a dulliau, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sicrhau fod penderfyniadau'r BBC yn cael eu harchwilio'n well.<br><br>Fodd bynnag, yn ystod cyfnod y Siarter hon, bu amrywiaeth o faterion y mae beirniaid yn credu eu bod yn symptomau o strwythurau llywodraethau aneffeithiol:<br><br>- methu cyflawni prosiectau sylweddol megis y Fenter Cyfryngau Digidol;<br><br>- methiannau golygyddol difrifol, megis yr adroddiad ynghylch Jimmy Saville a gafodd ei ganslo, a honiadau *Newsnight*/Arglwydd McAlpine; a<br><br>- diffyg eglurder ynghylch cyfrifoldebau a dim digon o oruchwylio gan y Bwrdd Gweithredol a'r Ymddiriedolaeth, fe a welwyd yn achos taliadau diswyddo ar gyfer uwch staff. | Fe wnaeth y pryderon hyn arwain at adolygiad o lywodraethu mewnol y BBC yn 2013 a argymhellodd newidiadau i'r dull o weithredu'r egwyddorion llywodraethu. Fodd bynnag, mae llawer, yn cynnwys Cadeirydd newydd Ymddiriedolaeth y BBC,[116] ac adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch dyfodol y BBC[117] wedi mynd ymhellach, ac wedi cynnig y gallai diwygiadau mwy sylfaenol fod yn angenrheidiol i fynd i'r afael â phroblemau systemig y model presennol. Erys beirniadaeth fod gwrthdaro rhwng rolau'r Ymddiriedolaeth fel anogwr a chorff rheoleiddio'r BBC. Er ei fod wedi'i amlinellu yn y Siarter, nid yw'r gwahaniaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol wedi'i ddeall na'i fynegi'n dda. Mae awgrym hefyd nad oes gan yr Ymddiriedolaeth y pwerau a'r sancsiynau sydd eu hangen i sicrhau newid o fewn y model presennol. |

**Opsiynau ar gyfer diwygio**

| | |
|---|---|
| Mae amrywiaeth o opsiynau ar gyfer diwygio'r model llywodraethu a rheoleiddio.<br><br>**Dyma'r tri opsiwn strategol:**<br><br>- model yn seiliedig ar yr Ymddiriedolaeth;<br>- sefydliad rheoleiddiol penodol newydd (megis y Comisiwn ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a amlinellir yn Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon) a<br>- rhoi rhagor o gyfrifoldebau rheoleiddio i Ofcom a diddymu'r Ymddiriedolaeth.<br><br>Byddai'r ddau opsiwn diwethaf yn debygol o arwain at fwrdd unedol ar gyfer y BBC, a byddai'n pennu'r strategaeth ac yn gyfrifol am ei gyflawni, a byddai corff neu gyrff allanol yn gyfrifol am y swyddogaethau rheoleiddio. Mae gan bob un o'r opsiynau hyn fuddion a gwendidau, fel y nodir isod. Yn ogystal â'r cwestiwn strategol hwn, bydd llawer o benderfyniadau ynghylch ble ddylid lleoli cyfrifoldebau am elfennau penodol o lywodraethu a rheoleiddio. | Model Ymddiriedolaeth ddiwygiedig<br><br>Yr opsiwn cyntaf yw cadw'r fframwaith presennol, ond ei ddiwygio ymhellach trwy:<br><br>- **Egluro rolau** – ar waethaf y strwythurau ffurfiol, nid yw gwahaniad yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol wedi bod yn eglur bob amser, ac nid yw'r cyhoedd ehangach yn deall y rhaniad. Gwelir hyn yn aml fel rhywbeth sy'n cyfrannu at y problemau y mae'r BBC wedi'u hwynebu wrth geisio delio â rhai o'r heriau a wynebodd yn ystod cyfnod y Siarter diwethaf. Gellid datrys rhywfaint o'r dryswch (canfyddedig a go iawn) trwy ddatgan yn glir beth yw'r gwahaniaeth rhwng Bwrdd Gweithredol y BBC a'r Ymddiriedolaeth, gan egluro'r cyfrifoldebau yn fanylach, a chynnwys monitro rhaniad y cyfrifoldebau fel rhwymedigaeth.<br><br>- **Cryfhau swyddogaeth strategol yr Ymddiriedolaeth** - un feirniadaeth a wneir o'r Ymddiriedolaeth ar brydiau yw ei bod, ar y naill law yn cymeradwyo strategaeth ffurfiol y BBC, ond ar y llaw arall, mae'n rhy oddefol wrth bennu cyfeiriad strategol y sefydliad. Yn hytrach na sbarduno'r hyn mae ar dalwyr ffi'r drwydded ei eisiau, yn lle hynny |

| | |
|---|---|
| ystyrir ei bod yn ymateb i newidiadau a arweinir gan y Bwrdd Gweithredol, fel a welwyd yn sgil y cynnig i ychwanegu fideo at BBC Radio 1 neu symud BBC Three ar-lein.<br><br>Gellid datrys hyn trwy newid cyfrifoldebau penodol yr Ymddiriedolaeth a sut mae'n ymwneud â'r Bwrdd Gweithredol, neu efallai trwy gyflwyno mecanweithiau penodol a fyddai'n golygu fod gan yr Ymddiriedolaeth ran fwy blaenllaw yn y gwaith o bennu strategaeth y BBC.<br><br>- **Cryfhau'r pwerau gorfodi** – mae gan yr Ymddiriedolaeth amrywiaeth o fecanweithiau i ddal y Bwrdd Gweithredol i gyfrif. Gallai cryfhau'r rhain mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, er enghraifft, trwy roi'r gallu i'r Ymddiriedolaeth atal arian, helpu i wella rheoleiddio effeithiol y BBC. | Mae dull gweithredu sy'n addasu'r system bresennol yn cynnig manteision penodol dros ddiwygiadau mwy radical. Bydd unrhyw newid cyfundrefnol yn golygu amser a chost ariannol, a bydd yn cyflwyno aflonyddwch, risg ac ansicrwydd. Byddai newidiadau llai i'r system bresennol yn lleihau'r risgiau hyn ac yn cynyddu hyder yn y canlyniadau. Mae'n werth nodi hefyd fod yr Ymddiriedolaeth yn llai na deng mlwydd oed, ac os caiff fwy o amser, ac os gweithredir rhai o'r newidiadau strwythurol yr awgrymir uchod, efallai gellir ei diwygio ymhellach ac ymateb i rai o'r beirniadaethau a wneir ohoni. Ond mae anfanteision sylweddol i'r dull gweithredu hwn hefyd. Waeth pa mor eglur fydd rolau'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol, erys tensiwn yn y strwythur yn sgil yr angen i'r Ymddiriedolaeth weithredu fel corff rheoleiddio a pharhau yn rhan o'r BBC ar y un pryd. Mae hyd yn oed Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn disgrifio'r newid o fodel Ymddiriedolaeth i gorff rheoleiddio allanol fel ceffyl blaen o blith y dewisiadau, felly mae'n amlwg fod achos dros newid mwy radical. |

**Modelau llywodraethu a rheoleiddio**

| | |
|---|---|
| Model corff rheoleiddio penodol<br><br>Defnyddir y syniad o fodel corff rheoleiddio penodol yma i gynrychioli amrywiaeth o opsiynau sydd oll â strwythur tebyg, ac a gyfeirir atynt ar brydiau fel 'Ofbeeb'. Eu nodwedd gyffredin yw eu bod yn ail gorff - sy'n hollol wahanol i'r BBC ac Ofcom – fyddai'n perfformio rhai neu'r cyfan o'r swyddogaethau goruchwylio a rheoleiddio sydd yn nwylo'r ymddiriedolaeth ar hyn o bryd. Yn fwyaf cyffredin, byddai'r model hwn yn arwain at y BBC yn mabwysiadu bwrdd unedol a fyddai'n atgyfnerthu'r gwaith o bennu strategaethau a'r cyfrifoldeb dros ddarpariaeth weithredol - er gallai rhai o elfennau strategol ei swyddogaethau gael eu rhoi i gorff gwahanol. Dull gweithredu o'r math hwn oedd yr opsiwn yn adroddiad gwreiddiol Burns yn 2006 a'r un a argymhellwyd yn adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2015. | Wrth symud rheoleiddio i ofal corff allanol sy'n hollol ar wahân i'r BBC o ran strwythur ac enw, mae'r model hwn yn diddymu llawer o'r feirniadaeth am y tensiwn rhwng bod yn gorff rheoleiddio ac yn anogwr ar yr un pryd. Gallai hefyd ddod â'r holl gyfrifoldebau strategol a gweithredol allweddol ynghyd mewn un bwrdd unedol, fyddai â llinellau atebolrwydd eglur iawn ac aelodaeth anweithredol gref a allai sicrhau fodd buddiannau'r cyhoedd ym Mhrydain yn cael eu cynrychioli'n briodol. Ni fyddai perygl o gyfrifoldebau ehangach yn gwrthdynnu sylw corff rheoleiddio penodol.<br><br>Ond mae gan y model hwn heriau hefyd. Mae cyrff rheoleiddio pwrpasol yn anodd eu sefydlu mewn modd sydd ddim yn gwneud iddynt fod yn or-ddibynnol ar y sefydliad maent yn eu rheoleiddio neu'n gwrthdaro ag ef, fel mae enghreifftiau hanesyddol, fel gwaith Comisiwn y Gwasanaethau Post (Postcomm) yn rheoleiddio'r Post Brenhinol, yn ei ddangos. Gallai strwythur a sefydlir y tu allan i'r BBC ei chael hi'n anodd yn sgil bod yn rhy bell oddi wrth y corff – yn methu dylanwadu ar broses gwneud penderfyniadau bwrdd unedol pwerus. |

| | |
|---|---|
| Mae risg sylweddol hefyd y byddai hyn yn drysu’r dirwedd rheoleiddio trwy rannu’r cyfrifoldebau dros gyfryngau a thelathrebu mewn sector sy’n cydgyfeirio’n gynyddol. Byddai hyn yn gwaethygu pe byddai’r corff rheoleiddio yn cael unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol mewn perthynas â darlledu gwasanaeth cyhoeddus.<br><br>Byddai angen trafod pa bwerau’n union a gâi’r corff rheoli hwn, ac mae amrywiaeth o gynigion a allai roi pwerau cryf i’r corff. Gallai hyn ddigwydd naill ai trwy newid cydbwysedd y cyfrifoldebau y byddai gan y corff rheoleiddio hwn a gan Ofcom, neu trwy roi cyfrifoldeb i’r corff am unrhyw benderfyniadau eraill megis dyrannu unrhyw gyllid y cystadlir amdano (trafodir hyn yn fanylach ym Mhennod 3). | Ofcom<br><br>Mae Ofcom yn gorff rheoleiddio annibynnol mawr ei barch sydd â hanes cryf, a dyna pam y mae rhai wedi awgrymu y gallai ymgymryd â rôl ehangach o ran rheoleiddio’r BBC. Y trydydd opsiwn felly yw symud y swyddogaeth rheoleiddio i ofal Ofcom â bwrdd unedol yn gyfrifol fwy na thebyg am y swyddogaethau darparu a llywodraethu. Ystyriwyd fersiwn o’r cynnig hwn fel opsiwn yn Adroddiad Burns yn yr Adolygiad diwethaf o’r Siarter, a thrafodwyd hyn eto yn Adroddiad diweddar y Pwyllgor Dethol ar Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon.<br><br>Byddai’r opsiwn hwn yn debyg mewn sawl ffordd i gorff rheoleiddio penodol. Byddai sut yn union y dylai Ofcom newid er mwyn gwneud gwaith o’r fath yn dibynnu ar y cyfrifoldebau penodol a roddid iddo, ond mae’n debyg y byddai’n golygu adnoddau ychwanegol sylweddol a gallai olygu sefydlu strwythurau ychwanegol o fewn Ofcom ei hun megis byrddau ymgynghorol annibynnol. |

**Modelau llywodraethu a rheoleiddio**

| | |
|---|---|
| Mae'r opsiwn hwn yn ddeniadol oherwydd mae Ofcom eisoes yn adnabyddus fel corff rheoleiddio effeithlon, ac mae'n deall y sector darlledu a'r cyfryngau a thelathrebu ehangach yn llawn. Byddai costau ac aflonyddwch symud cyfrifoldebau i ofal Ofcom yn llawer llai na chreu corff hollol newydd, fwy na thebyg. Byddai symudiad o'r fath yn cydgrynhoi cyfrifoldebau dros reoleiddio'r cyfryngau a thelathrebu dan ofal un corff, sydd â'r fantais o symlrwydd ac eglurder, yn enwedig o fewn sectorau sy'n cydgyfeirio. Wrth rannu llywodraethu a rheoleiddio yn eglur fel hyn, byddai'r model hwn hefyd yn diddymu unrhyw wrthdaro buddiannau posibl. | Fodd bynnag, mae anawsterau hefyd. Gallai maint gweithgarwch o'r math hwn olygu aflonyddwch sylweddol, a byddai angen lliniaru hynny ar gyfer y BBC ac Ofcom. Er bod Ofcom yn ymgymryd â mesurau gwerth cyhoeddus, nid yw'n cymeradwyo gwasanaethau penodol ar hyn o bryd. Gallai'r newid hwn gael ei ystyried fel gwneud Ofcom yn rhy bwerus, gan ehangu ei gylch gorchwyl a'i wariant sydd eisoes yn fawr. Y llynedd, roedd gan Ofcom gyllideb o £117 miliwn a bron iawn 800 o staff.[118] |

| | |
|---|---|
| Yn achos y tri model, erys y cwestiwn ynghylch i bwy mae'r corff llywodraethu yn atebol iddo yn y pen draw. O dan y system bresennol, y sawl sy'n talu ffi'r drwydded yw hwnnw, ac fe'i disgrifir yn y fath fodd i gwmpasu budd cyhoeddus yn ehangach. Mae rhinweddau yn perthyn i'r dull gweithredu hwn - mae'n cysylltu meddylfryd y sefydliad yn benodol â'r sawl sy'n talu amdano, ac yn darparu cyswllt eglur iawn o ran atebolrwydd. Fodd bynnag, efallai y dylem ni feddwl yn wahanol am hyn. Mae cynrychioli budd cyhoeddus yn waith cymhleth - rhaid gwahaniaethu rhwng budd cynulleidfaoedd, grwpiau diddordebau arbennig a'r gymdeithas yn gyffredinol, ac ystyried y buddion i'r Deyrnas Unedig gyfan yn ogystal â'r sawl sy'n defnyddio cynnwys y BBC. Mae angen eglur hefyd i ystyried yr oblygiadau pe byddai'r model ariannu yn newid, fel y trafodir ym Mhennod 3. | **Cwestiwn 15**<br><br>Sut ddylai model llywodraethu a rheoleiddio presennol y BBC gael ei ddiwygio? |

**Modelau llywodraethu a rheoleiddio**

<table>
<tr><td colspan="2">Blwch 24: Fframwaith llywodraethu</td></tr>
<tr><td>I wneud penderfyniadau deallus ynghylch y dull gorau o lywodraethu a rheoleiddio, mae angen dealltwriaeth eglur o beth mae’n ceisio ei gyflawni a fframwaith ar gyfer asesu hynny. Mae nifer o egwyddorion llywodraethu da sy’n gymwys i bob sefydliad. Nid yw’r BBC yn eithriad, ac mae eisoes yn adrodd mewn cymhariaeth â’r egwyddorion hyn – sydd wedi’u hamlinellu yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig – yn ei Hadroddiad a’i Chyfrifon Blynyddol. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau. Dyna pam rydym yn cynnig y dylid sefydlu fframwaith asesu sy’n cynnwys egwyddorion cyffredinol a rhai penodol y BBC, yn ogystal ag ystyriaeth o’r gost a’r ddarpariaeth i sicrhau gwerth am arian i’r cyhoedd.</td><td>Egwyddorion llywodraethu cyffredinol<br>- Arweinyddiaeth; rolau a chyfrifoldebau cryf.<br><br>- Effeithlonrwydd; cydbwysedd rhwng sgiliau a phrofiad. Prosesau penodi a gwerthuso priodol.<br><br>- Atebolrwydd; tryloywder, rheoli risgiau a systemau rheolaeth fewnol. Perthynas ag archwilwyr.</td></tr>
</table>

| Egwyddorion penodol y BBC | Materion ymarferol |
|---|---|
| - Atebolrwydd cyhoeddus; atebol i'r cyhoedd fel yr hyn sy'n cyfateb i gyfranddalwyr, yn cynnwys tryloywder.<br><br>- Sensitif i'r effaith ar y farchnad; mecanweithiau i sicrhau fod unrhyw effaith yn cael ei ddeall a'i gyfiawnhau.<br><br>- Annibyniaeth; rhyddid rhag unrhyw ymyrraeth mewn materion golygyddol.<br><br>- Rheoleiddio; fframwaith rheoleiddio priodol. | - Gwerth am arian; mae'r model llywodraethu yn cynnig gwerth am arian da i'r cyhoedd.<br><br>- Cyraeddadwy; model llywodraethu cymesur a phriodol sy'n ystyriol o risgiau a chostau gweithredu. |

**Trwyddedau Gwasanaethau a Phrofion Gwerth Cyhoeddus**

| | |
|---|---|
| Mae'r broses o Adolygu'r Siarter yn gyfle i bennu fframwaith ar gyfer yr hyn rydym yn dymuno i'r BBC wneud a sut dylai wneud hynny. Ond heb os, bydd penderfyniadau allweddol i'w gwneud ar adegau eraill. Fe wnaeth y Siarter ddiwethaf sefydlu mecanweithiau newydd i sicrhau fod unrhyw newid yn adlewyrchu budd cyhoeddus yn briodol ac yn ystyriol o'r effaith ar y farchnad. Trwyddedau Gwasanaethau a Phrofion Gwerth Cyhoeddus (PVTs) oedd y rhain. | Mae'r Trwyddedau Gwasanaethau yn amlinellu beth mae bob gwasanaeth yn ei wneud a sut, er enghraifft, mae trwydded BBC 1 yn datgan y dylai fod yn '...wasanaeth teledu genres cymysg mwyaf poblogaidd Prydain, yn cynnig amrywiaeth helaeth o raglenni o ansawdd uchel,' a '...phrif gyfrwng y BBC ar gyfer digwyddiadau o bwys yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, a dylai ei allbwn adlewyrchu'r Deyrnas Unedig gyfan.' Adolygir Trwyddedau Gwasanaethau o leiaf ddwywaith yn ystod cyfnod pob Siarter. Bydd pob adolygiad yn cynnwys ymgynghori â'r diwydiant a'r cyhoedd i sicrhau fod pob gwasanaeth yn dal i ddiwallu anghenion talwyr ffi'r drwydded. Y PVTs yw'r mecanwaith a ddefnyddir i asesu unrhyw newidiadau sylweddol a gynigir ar gyfer gwasanaethau. Byddant fel arfer yn ymateb i gynigion gan Fwrdd Gweithredol y BBC ac mae ganddynt ddwy ran allweddol:<br><br>- asesiad o werth cyhoeddus a wneir gan yr Ymddiriedolaeth ac sy'n cynnwys ymgynghori sylweddol â'r cyhoedd a diwydiant;<br><br>- asesiad o Effaith ar y Farchnad a wneir gan Ofcom ar ran Ymddiriedolaeth y BBC, sy'n ceisio deall ac egluro effaith posibl unrhyw newidiadau arfaethedig ar y farchnad. |

| | |
|---|---|
